Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
06/2024
Dyddiad cyhoeddi:
10/01/2024

# Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: Beth sy'n gweithio

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83577-335-2

# Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: Beth sy'n Gweithio

Awdur(on): Dr Duncan Holtom gyda Rhodri Bowen ac Emma Preece

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, D.; Pells, H.; Bowen, R.; and Preece, E. (2024). *Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: Beth sy'n Gweithio*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 06/2024.
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/adolygiad-cyflym-or-dystiolaeth-cynorthwyo-pobl-ifanc-nad-ydynt-mewn-cyflogaeth-addysg-na-hyfforddiant

Safbwyntiau'r ymchwilydd sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Enw: Dr Jacqueline Aneen Campbell

Is-adran: Yr Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am gomisiynu a chyllido'r ymchwil ac yn benodol, Dr Jacqueline Campbell yn Llywodraeth Cymru am eu cymorth a'u cyfraniadau drwy gydol y prosiect hwn.

Hoffem ddiolch hefyd i Dafydd Thomas am ei gymorth wrth hwyluso gweithdy'r adolygiad a Heather Pells, Dr Sarah Lloyd-Jones ac Ann Churcher o Pobl a Gwaith, am eu cyfraniadau at yr ymchwil a'r adroddiad.

# Cynnwys

Cydnabyddiaethau…………………………………………………………………………………..1

Rhestr o dablau.........................................................................................................3

Rhestr o ffigurau a siartiau ........................................................................................3

Geirfa 4

1. Cyflwyniad ..........................................................................................................7

2. Methodoleg .......................................................................................................14

3. Pobl ifanc NEET ...............................................................................................21

4. ‘Beth sy'n gweithio’ a beth allai weithio wrth ymgysylltu â phobl ifanc ....................28

5. Cymorth i symud tuag at ailymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant......51

6. Cynaliadwyedd a chynnydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.................75

7. Atal ...................................................................................................................82

8. Materion trawsbynciol........................................................................................83

9. Casgliadau .......................................................................................................97

Cyfeiriadau ............................................................................................................106

Atodiad A. Cyfranogwyr y gweithdy .......................................................................112

## Rhestr o dablau


Tabl 4.1. Pobl ifanc o dan 18 oed* a 18-24 oed* sy'n hawlio budd-daliadau (cyfartaledd dros flwyddyn yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (2016, 2017, 2018)) ..................... 29
Tabl 4.2. Data Gyrfa Cymru, pobl ifanc 16-17 oed ............................................................ 31


## Rhestr o ffigurau a siartiau


Siart 1.1. Pobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2004-2021 (dros dro) ............................................................................................ 8
Ffigur 1.1. Y Fframwaith COM-B ........................................................................................ 9
Ffigur 3.1. Nodweddion pobl ifanc 16-18 oed sy’n NEET ond sy’n ‘agored i ddysgu’ ac ailymgysylltu ag EET ......................................................................................... 24
Ffigur 3.2. Nodweddion pobl ifanc 16-18 oed sy’n NEET ond sydd ‘heb benderfynu’ ynghylch ailymgysylltu ag EET ........................................................................... 25
Figure 3.3. Nodweddion pobl ifanc 16-18 oed sy’n NEET ac sydd wedi’u dal neu’n mynd yn ôl ac yn annhebygol o ailymgysylltu ag EET (NEET parhaus’ ) ......................................... 26
Ffigur 4.1. Nodweddion, profiadau neu amgylchiadau sy’n gallu dal person ifanc yn ôl ...... 42
Ffigur 5.1. Elfennau cymorth ............................................................................................. 52
Ffigur 6.1. Cynnal a chefnogi cynnydd mewn EET ............................................................ 77
Ffigur 8.1. Sbarduna polisi cyflogaeth a graddau rheolaeth neu ddylanwadu Llywodraeth Cymru ................................................................................................................ 96

## Geirfa

| Byrfodd | Diffiniad |
|---|---|
| ACE | Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| AMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion |
| APS | Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CPC | Comisiynydd Plant Cymru |
| CfHI | Canolfan Effaith Digartrefedd |
| CfW | Cymunedau am Waith |
| CfW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| CPNfW | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| CSCS | Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu |
| CV | Curriculum Vitae |
| DBIS | Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau |
| DCLG | Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| DfE | Yr Adran Addysg |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| EET | Addysg, Cyflogaeth a/neu Hyfforddiant |
| EPPI | Y Ganolfan Tystiolaeth ar gyfer Gwybodaeth am Bolisi ac Ymarfer |
| ESA | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| CGE | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESJWL | Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg |
| ETC | Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| EYST | Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig |
| GDP | Cynnyrch Domestig Gros |
| IES | Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth |
| IFS | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid |

| | |
|---|---|
| ILM | Marchnad Lafur Drosiannol |
| ILO | Swyddfa Lafur Ryngwladol |
| IMF | Cronfa Ariannol Ryngwladol |
| IPS | Cymorth a Lleoliad i Unigolion |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| TSC+Mwy | Twf Swyddi Cymru a Mwy |
| JRF | Sefydliad Joseph Rowntree |
| JSA | Lwfans Ceisio Gwaith |
| LDA | Asiantaeth Datblygu Llundain |
| LWI | Y Sefydliad Dysgu a Gwaith |
| CCC | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| NAO | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| NESTA | Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau |
| SCYA | Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| OFS | Swyddfa Fyfyrwyr |
| OoWS | Y Gwasanaeth Di-waith |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| ICC | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| PIE | Amgylchedd sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| ReAct+ | Gweithredu ar Ddiswyddiadau Plws |
| RONI | Dangosyddion Perygl o fod yn NEET |
| SEU | Uned Allgáu Cymdeithasol |
| SFR | Datganiad Ystadegol Cyntaf |
| SIA | Awdurdod y Diwydiant Diogelwch |
| SPF | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin |

| | |
|---|---|
| LLlBPhI | Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc |
| CC | Credyd Cynhwysol |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| WBL | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WLHC | Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Allu Pobl i Weithio |
| WWCLEG | What Works Centre for Local Economic Growth |
| YEPF | Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid |
| YPG | Gwarant i Bobl Ifanc |

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn cynnig cymorth i bobl o dan 25 oed yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Nod yr adolygiad hwn yw llywio'r gwaith o ddatblygu'r Warant i Bobl Ifanc a bwriad yr adroddiad hwn yw helpu i sicrhau bod y Warant i Bobl Ifanc yn cael ei llywio gan dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth gynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant (sy'n 'NEET'). Mae adroddiad ategol yn canolbwyntio ar y nodweddion sy'n gysylltiedig â risg uwch o ymddieithrio o gyflogaeth, addysg a hyfforddiant (EET) ac yn ystyried sut y gall y nodweddion hyn greu rhwystrau i ymgysylltu ag EET.


### Effeithiau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ar bobl ifanc

1.2. Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn gysylltiedig â lefelau is o lesiant ac iechyd meddwl a chorfforol gwaeth, y gall effeithiau hynny barhau drwy oes (a ddisgrifiwyd fel 'creithio') (Arulampalam et al., 2001). Mae effeithiau negyddol tebyg yn gysylltiedig â gadael addysg yn gynnar (Schuller, 2017).

### Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a'r economi

1.3. Mae pobl ifanc yn arbennig o agored i niwed o ran dirywiad economaidd (DBIS, 2015) ac, fel y mae Ffigur 1.1 yn dangos, mae canran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn tueddu i gynyddu pan fydd amodau economaidd yn gwaethygu. Gwelwyd cynnydd o'r fath yn ystod y dirwasgiad mawr (2008-2010) ac yn fwy diweddar yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fo'r economi yn tyfu ac yn agos at gyflogaeth lawn, fel yn 2004-2005 (Senedd y DU, 2015) mae canran y bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae canran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET yn gyson is ac mae amodau economaidd yn dylanwadu llai ar hyn ond mae'n ystyfnig o sefydlog. Mae mentrau polisi olynol wedi cael trafferth gostwng y cyfraddau sylfaenol hyn o fwy nag ychydig bwyntiau canran, er bod cyfweleion ar gyfer yr astudiaeth hon yn dadlau, yn absenoldeb mentrau polisi fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) (a drafodir isod), y gallai'r cyfraddau fod yn uwch.

**Siart 1.1. Pobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2004-2021 (dros dro)**




Ffynhonnell: Pobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2004-2021, Llywodraeth Cymru, 2022c

SFR – Datganiad Ystadegol Cyntaf [1]; APS – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth [2].

**Y model COM-B o newid ymddygiadol**

1.4. Mae ymddygiad, fel chwilio am waith yn effeithiol a gwneud cais am swyddi, yn gofyn am y canlynol:

- y gallu - neu'r **galluogrwydd** – i gyflawni'r ymddygiad (meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol);


[1] Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf (SFR) yn cael ei ystyried fel 'yr amcangyfrif mwyaf cadarn o bobl ifanc NEET'. Mae'n seiliedig ar ddata addysg (gan gynnwys ysgolion - y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD); addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith (WBL) - data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r Brifysgol Agored); amcangyfrifon poblogaeth a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) (a ddefnyddir i amcangyfrif cyfran y rhai nad ydynt mewn addysg nac hyfforddiant sy'n ddi-waith neu'n anweithgar) (Llywodraeth Cymru, 2020b).

[2] Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn arolwg cyfunol o aelwydydd ym Mhrydain Fawr ac mae'n casglu data ar newidynnau cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys gweithgarwch economaidd unigolion. Nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â'r SFR, ac 'ni ddylid defnyddio newidiadau rhwng amcangyfrifon blynyddoedd treigl olynol' (ibid).

- y bwriad – neu'r **cymhelliant** – i gyflawni'r ymddygiad; a
- absenoldeb cyfyngiad amgylcheddol (er enghraifft, peidio â wynebu rhwystrau fel gofal plant) **neu** i'r gwrthwyneb, cael y **cyfle** – i gyflawni'r ymddygiad (Michie et al., 2011).

1.5. Mae'r tri ffactor hyn yn sail i'r model COM-B. Fel y mae Ffigur 1.1 yn dangos, mae'r ffactorau hyn i gyd yn gysylltiedig fel y gall, er enghraifft, cael hyder yn y gallu i gyflawni ymddygiad yn llwyddiannus, fel chwilio am waith a'r cyfle i wneud hynny, gynyddu cymhelliant person ifanc i chwilio am waith. I'r gwrthwyneb, mae cyfleoedd cyfyngedig (er enghraifft, oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu allgáu digidol) neu allu cyfyngedig (er enghraifft, salwch neu brofiad a dealltwriaeth gyfyngedig o'r farchnad lafur), yn gallu tanseilio cymhelliant.

**Ffigur 1.1. Y Fframwaith COM-B**




Ffynhonnell*:* Y Fframwaith COM-B Michie et al., 2011

1.6. Mae'r model hwn yn cael ei drafod yn fanwl yn adroddiad cyntaf yr adolygiad sy'n dangos, ar gyfer llawer o bobl ifanc NEET, nad oes un achos sengl, yn hytrach mae'n gyfuniad o ffactorau a rhyngweithio rhwng y ffactorau hyn (e.e. efallai nad oes ganddynt gymhelliant gan fod ganddynt alluoedd cyfyngedig) sy'n dal pobl ifanc yn ôl. Lle mae'r effaith gyffredinol yn fwy na chyfanswm rhannau unigol, gellir dweud bod ganddynt 'anghenion cymhleth' (SEU, 2005).

**Cyd-destun Polisi**

1.7. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi saith nod cenedlaethol, gan gynnwys Cymru lewyrchus a mwy cyfartal. I gefnogi'r nodau hyn, nod Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau 2022 yw dod â rhaglenni cyflogadwyedd a arweinir gan Lywodraeth Cymru at ei gilydd i ddarparu model gweithredu sengl newydd[3] o 2023; mae hefyd yn canolbwyntio ar:

- cynorthwyo pobl ifanc drwy fuddsoddi yn y 'dull system gyfan o ddarparu'r Warant i Bobl Ifanc' a'i gryfhau;
- lleihau anghydraddoldeb economaidd a chynyddu cyfranogiad yn y system sgiliau ar gyfer pobl anabl a grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol;
- cefnogi pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor i gael gwaith; a
- hyrwyddo gwaith teg i bawb. (Llywodraeth Cymru, 2022a)

*Y Warant i Bobl Ifanc*

1.8. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, y Warant i Bobl Ifanc yw ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed, sy'n byw yng Nghymru, i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, help i ddod o hyd i swydd neu i ddod yn hunangyflogedig (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn darparu strwythur ambarél sy'n eistedd uwchben rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl, ifanc, gan geisio defnyddio ymyriadau presennol yn llawn, datblygu ymyriadau newydd a chreu taith syml i bobl ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau a'u cefndir. Mae'r gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu un llwybr syml, er nad yr unig lwybr, i gael mynediad at y rhaglenni a'r gwasanaethau.

*Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*


1.9. Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw lleihau nifer y bobl ifanc NEET drwy nodi ac atal yn gynnar ac mae'n ailganolbwyntio ar nodi'n gynnar y bobl ifanc 11 i 18 oed (yn hytrach na'r rhai 16 i 25 oed) sydd mewn perygl o fod yn NEET a/neu'n

[3] Nod y model hwn yw dod â rhaglenni presennol fel ReAct+, Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol a Twf Swyddi Cymru a Mwy ynghyd.

ddigartref.[4] Felly mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Warant i Bobl Ifanc yn gorgyffwrdd ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed, er mwyn helpu i ddarparu ‘rhwyd ddiogelwch’ yn ystod y cyfnod allweddol pan fydd pobl ifanc yn pontio, er enghraifft o'r ysgol i'r coleg neu i gyflogaeth (Llywodraeth Cymru, 2022b).

1.10. Mae gan y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid chwe elfen graidd: nodi'n gynnar, broceriaeth, monitro cynnydd, cyflogadwyedd y ddarpariaeth a chyfleoedd cyflogaeth, ac atebolrwydd, a ddangosir gan ffigur 1.2 isod

**Ffigur 1.2. cydrannau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**




Ffynhonnell: Ffigur a grëwyd ar gyfer yr adolygiad gan ddefnyddio Llywodraeth Cymru 2023b

1.11. Mae'r adroddiad ail gam hwn yw canolbwyntio ar nodi'r canlynol:

- ‘Beth sy'n gweithio’ i helpu pobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig neu rwystrau cymhleth i fynd i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a chynnal hyn?

[4] Mae digartrefedd wedi'i gynnwys oherwydd y gorgyffwrdd rhwng ffactorau risg ar gyfer digartrefedd a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â pherygl uwch o fod yn NEET.

- Pa wersi/arfer da y gellir eu dysgu o ddulliau personol eraill y DU ac yn rhyngwladol i oresgyn rhwystrau trawsbynciol i gyfranogiad pobl ifanc?
- Beth yw perthnasedd yr ymyriadau i gyd-destun Cymru? Pa mor dda y maent yn cyd-fynd â strategaethau a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?
- Pa ymyriadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth sy'n effeithiol wrth wella cyfranogiad? I bwy maent yn gweithio, o dan ba amgylchiadau, a beth yw'r canlyniadau andwyol posibl, a welir drwy lens croestoriadol a'i leoli yn yr hinsawdd economaidd bresennol? Beth yw'r dulliau a'r rhwystrau sydd ar gael yng nghyd-destun Cymru?
- Sut y gall gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl ifanc NEET ymuno â gwasanaethau a chyflogwyr eraill i roi cymorth ar gyfer rhwystrau, fel iechyd meddwl, wrth gael mynediad at gyflogaeth yn lleol yng Nghymru a'i gynnal?
- Beth y gellir ei ddweud am effeithiolrwydd tebygol gwarantau ieuenctid (fel yr un yng Nghymru) ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sy'n economaidd anweithgar, sy'n barod i weithio ac yn gallu gwneud hynny ond y mae angen cymorth arnynt i oresgyn rhwystrau yn gyntaf? Pa ddewisiadau amgen y gellid eu hystyried, os o gwbl?
- Beth yw'r ffordd orau o gynnwys pobl ifanc mewn mentrau ieuenctid a chydgynhyrchu rhaglenni sy'n arwain at ganlyniadau ystyrlon ar gyfer ystod amrywiol o bobl ifanc sy'n economaidd anweithgar?

**Beth sy'n gweithio? A beth arall allai weithio?**

1.12. Fel yr amlinellwyd yn adran 2, mae corff mawr o lenyddiaeth ymchwil sy'n archwilio ymyriadau i gynorthwyo pobl ifanc NEET. Fodd bynnag, mae dau gyfyngiad pwysig o ran y sylfaen dystiolaeth hon:

- mae'r ymyriadau sydd wedi cael eu gwerthuso'n gadarn, ac y cafwyd eu bod yn effeithiol, dim ond yn gweithio'n weddol dda. Mae hyn oherwydd bod (i) yr effaith ychwanegol, o ran pobl ifanc sy'n mynd i gyflogaeth yn gymharol fach ar y cyfan (yn aml dim ond tua 10 pwynt canran) a (ii) mae'r dystiolaeth o effaith yn gryfach i rai grwpiau o bobl ifanc (mae'r dystiolaeth yn aml yn gyfyngedig i'r bobl ifanc hynny sydd â'r anghenion lleiaf cymhleth, sy'n fwy tebygol o ymgysylltu â rhaglenni cymorth EET). Mae llawer o'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei llywio

gan y sylfaen dystiolaeth hon, sy'n golygu efallai na fydd gwneud rhagor o'r un peth yn cynyddu'r effaith; ac

- nid yw llawer o ymyriadau'r sector gwirfoddol wedi bod yn destun gwerthusiadau effaith cadarn (IES, 2020).

1.13. Felly, mae'r papur yn ystyried 'beth sy'n gweithio' (ymarfer gyda sylfaen dystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd) a 'beth allai weithio' (ymarfer a syniadau heb eu profi, ond addawol) wrth gynorthwyo pobl ifanc NEET 'anweithgar' i oresgyn rhwystrau croestoriadol o ran cael mynediad at eu nodau gwaith a'u cynnal. Mae'r rhain yn ymyriadau sydd â chyfrif credadwy o sut a pham maent yn gweithio, a gallant roi tystiolaeth o newid cadarnhaol, ond nad ydynt wedi bod yn destun gwerthusiad effaith cadarn.

**Strwythur y papur**

1.14. Mae'r papur wedi'i strwythuro'n naw adran ar ôl yr adran ragarweiniol hon:

- mae adran 2 yn trafod y dull a'r fethodoleg;
- mae adran 3 yn disgrifio tri grŵp o bobl ifanc sy'n NEET a'r goblygiadau o ran 'beth sy'n gweithio';
- mae adran 4 yn amlinellu 'beth sy'n gweithio' a 'beth allai weithio' wrth ymgysylltu â phobl ifanc NEET;
- mae adran 5 yn amlinellu 'beth sy'n gweithio' a 'beth allai weithio' wrth gynorthwyo pobl ifanc NEET i symud tuag at ailymgysylltu ag EET;
- mae adran 6 yn amlinellu 'beth sy'n gweithio' a 'beth allai weithio' wrth gynorthwyo pobl ifanc NEET i gynnal eu hailymgysylltu a gwneud cynnydd mewn EET;
- mae adran 7 yn ystyried pwysigrwydd camau ataliol er mwyn helpu i sicrhau nad yw pobl ifanc yn NEET;
- mae adran 8 yn ystyried nifer o themâu trawsbynciol, gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â darparu a gweithredu rhaglenni; effaith cyd-destun ar effeithiolrwydd rhaglenni; gwersi o warantau ieuenctid ac ymyriadau eraill sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru; ac
- mae adran 9 yn amlinellu casgliadau'r adolygiad.

## 2. Methodoleg

2.1. Oherwydd bod prif faes diddordeb yr adolygiad (h.y. 'beth sy'n gweithio') wedi'i ymchwilio mor dda, mae hwn yn bennaf yn 'adolygiad o adolygiadau' (Nesta, 2016) sy'n canolbwyntio ar adolygiadau ac ymchwil yng Nghymru a gwledydd eraill y DU a gynhaliwyd yn y 15 mlynedd diwethaf, wedi'i ategu gan adolygiad bwriadus o astudiaethau a data dethol, a nifer bach o gyfweliadau a thrafodaethau ansoddol.

**Protocol chwilio**

2.2. Y prif dermau chwilio a ddefnyddiwyd oedd: Review OR Evidence OR Evaluation AND "young people" AND Employment OR NEET OR Barriers. Defnyddiwyd y termau chwilio i chwilio Google.co.uk; Google Scholar a JSTOR. Yn ogystal, defnyddiwyd y swyddogaeth chwilio gwefannau i chwilio gwefannau penodol, gan gynnwys: gov.wales; gov.scot; gov.uk; ac nidirect.gov.uk/ i gynnwys deunydd a gyhoeddwyd gan wledydd y DU. Yn ogystal, gwnaed chwiliadau safle ar wefannau'r ganolfan Tystiolaeth ar gyfer Gwybodaeth am Bolisi ac Ymarfer (EPPI), y Sefydliad Dyfodol Ieuenctid, y Sefydliad Dysgu a Gwaith (LWI), y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES) a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP). Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn yr atodiad.

*Meini prawf cynhwysiant*

2.3. Yn seiliedig ar adolygiad o'r teitl a'r crynodeb, dim ond deunydd a oedd yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant canlynol a gynhwyswyd yn yr adolygiad:

- cyhoeddwyd yn y 15 mlynedd diwethaf (ers 2007); AC
- roedd yn adolygiad llenyddiaeth neu dystiolaeth a oedd yn canolbwyntio ar:
- 'beth sy'n gweithio' i helpu pobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig neu rwystrau cymhleth i fynd i EET a chynnal hyn; AC
- roedd yn canolbwyntio ar beth sy'n gweithio yn y DU NEU Wlad Belg, Denmarc, Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon neu'r Iseldiroedd [5];
- NEU

[5] Mae eu cynnyrch domestig gros (GDP) fesul pen o'r boblogaeth yn debyg ar y cyfan ond mae canran y bobl ifanc NEET yn amrywio ar draws y gwledydd hyn (OECD, 2022) gan roi cyfle i ddysgu o wledydd fel yr Iseldiroedd, sydd â chyfradddau is na'r DU.

- roedd yn cynnwys ymchwil sylfaenol, fel gwerthusiad, i nodi 'beth sy'n gweithio' ar gyfer cynorthwyo pobl ifanc NEET yng Nghymru (h.y. mae'n canolbwyntio ar ymyriad yng Nghymru)

  AC roedd yn ceisio nodi:
- 'beth sy'n gweithio' ar gyfer cynorthwyo pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig neu rwystrau cymhleth (fel anawsterau iechyd meddwl neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i fynd i EET a chynnal hyn;

  NEU
- nodi gwersi/arfer da, gan gynnwys sut y gall gwasanaethau ymuno â gwasanaethau a chyflogwyr eraill;

  NEU
- y ffordd orau o gynnwys pobl ifanc.

2.4. Ni wnaethom gynnwys astudiaethau ymchwil sylfaenol (er enghraifft, yn seiliedig ar gyfweliadau â phobl ifanc) oni bai eu bod:

- eu bod yn cynnwys ymchwil sylfaenol i nodi'r rhwystrau ar gyfer grwpiau 'nas clywir yn aml', fel pobl ifanc anabl sy'n NEET neu bobl ifanc ag ADY neu anawsterau iechyd meddwl sy'n NEET;

  A
- eu bod yn cynnwys ymchwil sylfaenol a oedd yn cynnwys pobl ifanc yng Nghymru;

  AC
- a gafodd eu cyhoeddi yn y 15 mlynedd diwethaf.

2.5. O ystyried ehangder (a sensitifrwydd disgwyliedig[6]) termau ymchwil, unwaith y cyrhaeddwyd dirlawnder[7] ac nad oedd chwiliadau yn cynhyrchu canlyniadau newydd neu berthnasol mwyach, cawsant eu hatal.

---

[6] Mae cyfaddawd rhwng sensitifrwydd neu natur gynhwysfawr a phenodoldeb neu berthnasedd. Ar gyfer yr astudiaeth hon cafodd sensitifrwydd ei flaenoriaethu dros benodolrwydd, felly roedd yn fwy cynhwysfawr, ond ar draul cynhyrchu mwy o ganlyniadau amherthnasol.

[7] Mae dirlawnder yn gysyniad a ddefnyddir mewn ymchwil ansoddol i ddisgrifio sefyllfa lle nad oes syniadau neu themâu newydd yn cael eu nodi, sy'n golygu bod casglu a/neu ddadansoddi rhagor o ddata yn ddiangen. Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, cafodd ei ddefnyddio er mwyn helpu i farnu pan nad oedd eitemau

*Adolygiad bwriadus o ymchwil a data dethol*

2.6. Canolbwyntiodd yr adolygiad bwriadus ar feysydd neu faterion o ddiddordeb arbennig i'r astudiaeth, nad ydynt o bosibl wedi'u cwmpasu'n ddigonol yn y llenyddiaeth bresennol (ac felly o bosibl wedi'u colli yn yr adolygiad o adolygiadau); canolbwyntiodd hyn ar nodi tystiolaeth sy'n gysylltiedig â:

- Gwarantau i Bobl Ifanc; a
- chydgynhyrchu mewn rhaglenni cymorth cyflogaeth.

2.7. Yn ogystal, defnyddiwyd dull samplu caseg eira, gan wneud gwaith dilynol ar erthyglau a chyfeiriadau yn y llenyddiaeth a nodwyd drwy chwiliadau. Roedd hyn yn cynnwys nifer bach o astudiaethau a gyhoeddwyd ers 2000, yn hytrach na 2007.

*Gwerthuso ansawdd, cwmpas a pherthnasedd y data*

2.8. Er mwyn sicrhau nad oedd yr adolygiad desg yn cynnwys astudiaethau nad yw eu canfyddiadau o bosibl yn ddilys (h.y. nad ydynt yn gadarn) cafodd astudiaeth astudiaethau ei asesu er mwyn ystyried:

- dilysrwydd mewnol (p'un a yw canfyddiadau'r astudiaeth yn gywir neu, er enghraifft, mae'r data'n disgrifio'r boblogaeth o ddiddordeb yn gywir); a
- dilysrwydd allanol (a ellir cyffredinoli canfyddiadau'r astudiaeth i gyd-destunau eraill).

2.9. Ystyriwyd dau fath cyffredinol o dystiolaeth: gwerthusiadau o ymyriadau, i nodi beth sy'n gweithio a thystiolaeth ymchwil, o amgylch, er enghraifft y rhwystrau y gall pobl ifanc eu hwynebu. Oherwydd bod eu nodau yn wahanol, ystyriwyd dwy safon wahanol o dystiolaeth.

2.10. Wrth werthuso tystiolaeth ynghylch ‘beth sy'n gweithio’, defnyddiwyd safonau tystiolaeth y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (Nesta) (gweler y testun mewn blwch), a chafodd tystiolaeth a oedd ar lefel 3 neu uwch ei chynnwys. Cafodd tystiolaeth ar lefelau is 1 a 2 ei hystyried o dan ‘beth arall allai weithio’ a'i thrin fel ymarfer addawol, ond heb ei brofi.

---

newydd yn cael eu nodi, bod enillion lleihaol yr ymdrech chwilio, yn golygu bod manteision rhagor o chwilio yn annhebygol o fod yn werth yr ymdrech sydd ei hangen i nodi eitemau ychwanegol.

**Safonau Tystiolaeth Nesta**

- Lefel 1. ‘Gallwch ddisgrifio beth rydych yn ei wneud a pham ei fod yn bwysig, yn rhesymegol, yn gydlynol ac yn argyhoeddiadol’.
- Lefel 2. ‘Rydych yn casglu data sy'n dangos newid cadarnhaol, ond ni allwch gadarnhau eich bod wedi achosi hyn’.
- Lefel 3. ‘Gallwch ddangos achosiaeth gan ddefnyddio grŵp rheoli neu gymharu’.
- Lefel 4. ‘Mae gennych un neu ragor o werthusiadau ailadrodd annibynnol sy'n cadarnhau'r casgliadau hyn’’.
- Lefel 5. ‘Mae gennych lawlyfrau, systemau a gweithdrefnau i sicrhau ailadrodd cyson ac effaith gadarnhaol’.

Addaswyd o Nesta (2013)

*2.11.* Mae'r adolygiad (ac yn enwedig yr adroddiad cyntaf) hefyd yn defnyddio astudiaethau ymchwil ansoddol er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r rhesymau pam y gall rhai pobl ifanc wynebu risg uwch o fod yn NEET a beth arall allai weithio. Asesodd yr adolygiad ‘ddidwylledd’ ymchwil ansoddol drwy ystyried ei ‘hygrededd’[8],

[8] Mae hygrededd yn dibynnu ar ba mor dda mae'r data'n disgrifio gwrthrych yr astudiaeth ac, er enghraifft, y byddai barn a dehongliadau ymatebwyr yn cyfateb i rai'r ymchwilwyr ac mae'n debyg i'r cysyniad o ddilysrwydd mewnol. Mae'n cwmpasu hyder bod y canlyniadau'n gywir, eu bod yn gredadwy a'u bod, er enghraifft, yn gwneud synnwyr ac yn gydlynol. Gellir meithrin hygrededd drwy'r defnydd o ddulliau fel triongli, cryfder tebygol y dulliau ymchwil (er enghraifft, gall ymgysylltu hirfaith feithrin hygrededd) a thrafod a chadarnhau canfyddiadau ag eraill.

ei 'dibynadwyedd'[9], ei 'natur gadarnhadwy'[10] a'i 'natur drosglwyddadwy'[11] (Lincoln a Guba, 1985) a 'dilysrwydd a sicrwydd data ymchwil feintiol'[12] (Bryman, 2016).

*Ymchwil ansoddol i archwilio ymarfer addawol yng Nghymru*

2.12. Cafodd yr ymchwil o'r ddesg ei hategu gan nifer bach o gyfweliadau ag ymarferwyr (n=7) sy'n ymwneud â datblygu a/neu gyflwyno ymyriadau cymorth EET (yng Nghymru) gyda:

- phobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST);
- pobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref/yn wynebu risg o ddigartrefedd neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol (GISDA a Sylfaen);
- pobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol fel awtistiaeth neu anabledd dysgu (Ymgysylltu i Newid); a
- phobl ifanc a oedd wedi dadrithio â gwasanaethau prif ffrwd neu'n amharod i ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn (y prosiect Golau Gwyrdd a phrosiectau Môn Cf).

2.13. Cafodd data a gasglwyd gan gyfweleion eu hystyried fel rhan o 'beth arall allai weithio'. Cafodd hyn ei ategu gan drafodaethau gyda chynrychiolwyr o Gyrfa Cymru i drafod y data a gedwir ganddynt a sut y gellid eu defnyddio yn yr adolygiad.

*Gweithdy'r adolygiad*

2.14. Er mwyn rhannu a thrafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ac ystyried eu perthnasedd i gyd-destun Cymru, cynhaliwyd gweithdy ar-lein gyda gwneuthurwyr polisi (n=14). Mae manylion y cyfranogwyr wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

---

[9] Mae dibynadwyedd yn debyg i'r cysyniad o sicrwydd ac mae'n disgrifio pa mor debygol ydyw y byddai canfyddiadau'n cael eu hailadrodd. Gall tryloywder o ran sut y cynhaliwyd ymchwil roi hyder bod y canfyddiadau'n ddibynadwy.
[10] Mae natur gadarnhadwy'n disgrifio i ba raddau y mae'n debygol bod canfyddiadau'n niwtral neu'n ddiduedd ac y byddent yn cael eu hategu neu eu cadarnhau gan ymchwilwyr eraill. Gall dangos yn glir sut y ceir canfyddiadau o'r data helpu i feithrin ymddiriedaeth o ran eu natur gadarnhadwy.
[11] Mae natur drosglwyddadwy'n debyg i'r cysyniad o ddilysrwydd allanol ac mae'n disgrifio pa mor debygol ydyw y gellir cyffredinoli canfyddiadau neu eu trosglwyddo i gyd-destunau eraill. Gall asesiad o natur drosglwyddadwy bosibl canfyddiadau gael ei ategu gan ddisgrifiadau cyfoethog o'r cyd-destun a'r mecanweithiau cynhyrchiol, fel y gellir ystyried eu tebygolrwydd gweithredu mewn cyd-destunau gwahanol.
[12] Er enghraifft, drwy ystyried meintiau a nodweddion sampl (lle y bo'n berthnasol) i ystyried rhagfarnau posibl yn y sampl a'r mesurau a ddefnyddir (gweler Senedd y DU, 2020).

**Cryfderau a gwendidau’r sylfaen dystiolaeth**

2.15. Roedd adolygiad y strategaeth chwilio yn gallu nodi amrywiaeth eang o lenyddiaeth a oedd yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant, ac yn aml yn cyrraedd dirlawnder, yn yr ystyr bod gwahanol gyfuniadau o dermau chwilio wedi nodi'r un astudiaethau. Fel y mae'r adroddiad yn amlinellu, cafwyd cryn gonsensws yn aml hefyd yng nghanfyddiadau'r astudiaethau a ystyriwyd. Mae'r triongli hwn yn rhoi hyder o ran dilysrwydd tebygol y canfyddiadau.

2.16. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang yn y llenyddiaeth a adolygwyd bod y sylfaen dystiolaeth ar ‘beth sy'n gweithio’ yn yr ystyr o gael ei gwerthuso'n gadarn, yn gyfyngedig; er enghraifft, fel y mae'r adolygiadau yn nodi:

- ‘there is general agreement that evaluation of interventions has frequently been unable to provide robust evidence for effectiveness’ (Russell a Thompson 2022); a
- hyd yn oed pan ganfyddir bod rhaglen yn effeithiol, mae'n anodd deall (neu ynysu neu nodi) pa nodweddion ymyriadau sy'n fwyaf effeithiol neu'n gwneud gwahaniaeth (IES, 2020).

2.17. Mae'r cyfyngiadau o ran cynllunio'r ymchwil yn cynnwys:

- diffyg cynllunio gwerthuso effaith cadarn;
- prin yw'r astudiaethau hydredol sy'n seiliedig ar ymgysylltu parhaus â chyfranogwyr;
- tuedd i gydgrynhoi'r holl fesurau cadarnhaol (fel swyddi, hyfforddiant, ac addysg) gyda'i gilydd;
- canolbwyntio ar fynediad i gyflogaeth, heb gysondeb o ran sut y mae cadw, cynnydd ac ansawdd swydd yn cael eu mesur;
- methu gwahaniaethu rhwng canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol (er enghraifft, prin yw'r astudiaethau sy'n adroddiad yn benodol ar ganlyniadau i grwpiau difreintiedig fel ymadawyr gofal a gofalwyr ifanc a throseddwyr ifanc); a
- methu ystyried effaith cyd-destun yn ddigonol, fel cryfder marchnadoedd llafur lleol (IES, 2020;  LWI, 2022; Russell a Thompson 2022);

2.18. Mewn ymateb, mae Mawn et al. (2017), i gydnabod y bylchau a'r cyfyngiadau hyn, yn crynhoi pum prif faes ar gyfer ymchwil yn y dyfodol:

> ‘First, there is still a need to establish what works to reengage young people. Notably, there is limited delivery and evaluation of interventions based on contemporary behaviour change theory and practice. Second, research is needed to establish what works for whom, particularly in light of interventions not serving some of the most disadvantaged. Third, it is not clear what aspects of interventions work (e.g. education and training, placement, counselling). Indeed, some arguably relevant approaches (e.g. psychological/ behaviour change interventions) have not been subject to evaluation, therefore their potential impact is unknown. Fourth, there is a scarcity of research applying theoretically underpinned interventions. Fifth, there is a dearth of research examining physical and mental health outcomes, which is striking given the well-established negative impact of unemployment on physical and mental health.’

2.19. Dyma'r mathau o fylchau y ceisiodd y defnydd o'r fframwaith COM-B ac ymchwil ansoddol (a amlinellwyd uchod) helpu i fynd i'r afael â nhw.

## 3. Pobl ifanc NEET

3.1. Un o negeseuon allweddol adroddiad cyntaf yr adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth (Llywodraeth Cymru, 2024), yw nad yw pobl ifanc NEET yn ffurfio grŵp homogenaidd. Mae eu hamrywiaeth, o ran eu galluoedd, mynediad at gyfleoedd, cymhellion ac ymddygiad, yn amlwg. Hefyd, o ganlyniad i groestoriadedd a'r ffyrdd y gall dimensiynau gwahanol o'u hunaniaethau a'u nodweddion lunio eu profiadau, gall fod yn anodd cyffredinoli am bobl ifanc sy'n NEET, oherwydd yn anaml y mae ffactor neu nodwedd sengl sy'n diffinio eu profiadau. Fodd bynnag, os yw pobl ifanc yn cael eu diffinio nid gan eu nodweddion penodol, ond gan eu cyfeiriadedd tuag at EET, gall fod yn ddefnyddiol meddwl am dri grŵp eang o bobl ifanc:

- y rhai ‘sy'n pontio’;
- y rhai sydd ‘heb benderfynu’; a
- y rhai sydd wedi'u ‘dal’ neu'n mynd yn ôl (gweler y testun mewn blwch).

**Colli galluoedd, cyfleoedd a/neu gymhelliant**

Fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad (Llywodraeth Cymru, 2024) yn amlinellu, gall ymddieithrio olygu y gall pobl ifanc:

- golli galluoedd nad ydynt yn eu harfer (neu eu defnyddio), er enghraifft pan fyddant yn colli hyder a/neu mae eu hiechyd meddwl yn dirywio ar ôl gadael yr ysgol;
- ei chael yn fwy anodd cael mynediad at gyfleoedd (er enghraifft, lle mae cyflogwyr yn amharod i gyflogi pobl ifanc heb hanes gwaith) fel bod eu rhwydweithiau cymdeithasol, ac felly eu mynediad at wybodaeth am gyfleoedd, yn crebachu;
- cael eu dadrithio a'u digalonni, yn enwedig lle, er enghraifft, maent yn teimlo eu bod yn cael eu ‘gwrthod’ yn gyson neu'n methu mewn rhyw ffordd; a/neu
- ddatblygu ymddygiad sy'n eu dal yn ôl, fel cysgu'n hwyr, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a mynd ‘allan o'r arfer’ neu drefn gwaith.

Gall hyn greu effeithiau ‘creithio’ a golygu po hiraf y bydd person ifanc yn NEET, y mwyaf difrifol a/neu gymhleth y mae eu rhwystrau yn debygol o fod. Fel y nododd un cyfwelai, ‘po hiraf y maent gartref, y mwyaf anodd yw eu cael yn ôl i addysg – mae'r syniad o fynd yn ôl yn mynd yn fwyfwy brawychus’.

**Maint a chymeriad pob grŵp**

3.2. Ymhlith pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET (tua 14,000 o bobl ifanc yng Nghymru[13]), amcangyfrifwyd bod:

- 40 y cant yn ‘gylchol’, ‘yn pontio’ neu'n ‘agored i ddysgu’, gydag agweddau cadarnhaol ar y cyfan tuag at addysg neu hyfforddiant. Mae'r rhain yn debygol iawn o ailymgysylltu yn y tymor byr ac felly mae angen cymorth ysgafn yn unig arnynt (a fyddai'n cyfateb i tua 5,500 o bobl ifanc 16 i 18 oed yng Nghymru);
- mae 20 y cant ‘heb benderfynu’, yn ansicr, neu'n anfodlon, o ran y cynnig addysg neu hyfforddiant sydd ar gael iddynt ond nid ydynt yn wynebu rhwystrau difrifol neu gymhleth (a fyddai'n cyfateb i tua 3,000 o bobl ifanc); a
- mae 40 y cant yn NEET sydd wedi'u ‘dal’, neu hyd yn oed yn cymryd cam yn ôl, ac yn NEET yn ‘barhaus’ y mae'n debygol y bydd angen mwy o gymorth arnynt gan eu bod yn wynebu rhwystrau lluosog i ailymgysylltu (Speilhofer et al., 2009); SAC, 2014) (a fyddai'n cyfateb i tua 5,500 o bobl ifanc).

3.3. Mae'r tri grŵp hyn wedi'u cynrychioli yn ffigurau 3.1-3.3. Nid oes data meintiol cymharol ar gael ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET (tua 38,000 o bobl ifanc yng Nghymru).[14] Er ei fod yn gyffredin yn y llenyddiaeth sy'n trafod y rhai 19 i 24 oed i nodi tri grŵp tebyg, gall maint pob grŵp amrywio. O ystyried yr effeithiau creithio (Bell a Blanchflower, 2011), mae'n debygol y bydd gan bobl ifanc sydd wedi bod yn NEET am gyfnod hirach (er enghraifft, ers 16 i 17 oed) rwystrau sydd wedi ymsefydlu'n ddyfnach.

[13] Fel y mae ffigur 1.1. yn dangos, mae nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn anwadal. Er enghraifft, roedd tua 12,000 o bobl ifanc 16-18 oed yn NEET ar ddiwedd 2020 (Llywodraeth Cymru, 2023e).

[14] Fel y mae ffigur 1.1 yn dangos, mae nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn anwadal a bu gostyngiad amlwg yn nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET o gymharu â hanner cyntaf y 2010au (Llywodraeth Cymru, 2023e).

3.4. Wrth ystyried maint y trydydd grŵp (sy'n cynrychioli efallai 40 y cant o bobl ifanc sy'n NEET), sef y rhai sydd wedi'u dal neu'n mynd yn ôl, fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad yn amlinellu, mae'n nodedig bod:


- mwy nag un o bob pump o'r holl bobl ifanc 16 - 24 oed yn debygol o fod ag anhwylder iechyd meddwl (NHS Digital, 2022);
- bydd gan tua 15 y cant o'r holl bobl ifanc ADY (Ymchwil y Senedd, 2023); a
- bydd gan tua un o bob deg o bobl ifanc gyflwr niwroddatblygiadol fel awtistiaeth neu anabledd dysgu (LLIBPhI, 2022).

3.5. Mae lefel uchel o gyd-ddigwyddedd, felly bydd gan lawer o bobl ifanc sydd â chyflwr niwroddatblygiadol fwy nag un cyflwr o'r fath, a bydd gan lawer o bobl ifanc sydd â chyflwr niwroddatblygiadol anhawster iechyd meddwl ac ADY hefyd (LLIBPhI, 2022). Er nad yw'r un o'r cyflyrau hyn yn benodedig, hynny yw nid ydynt o reidrwydd yn golygu y bydd pobl ifanc â'r nodweddion hyn yn mynd yn NEET, fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad yn amlinellu (Llywodraeth Cymru, 2024), maent i gyd yn cynyddu'r risg y bydd person ifanc yn cael trafferth ymgysylltu ag EET.

3.6. Fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad yn amlinellu (ibid.), gall pobl ifanc hefyd fod yn agored i ffactorau cymdeithasol a diwylliannol, sy'n cynyddu eu perygl o fod yn NEET. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau fel anfantais economaidd-gymdeithasol (gyda thua 30 y cant o blant ac 20 y cant o oedolion yn byw mewn tlodi), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) (gyda thua 15 y cant o oedolion yn nodi pedwar neu fwy o ACE), gwahaniaethu neu gyfrifoldebau gofalu. Fel y nodweddion eraill a ystyriwyd nid yw'r rhain yn benodedig, ond maent yn cynyddu'r risg y bydd person ifanc yn cael trafferth ymgysylltu ag EET a gallant ddwysáu cyflyrau niwroddatblygiadol neu anawsterau iechyd meddwl a rhyngweithio â'r rhain.


**Ffigur 3.1. Nodweddion pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ond sy'n 'agored i ddysgu' ac ailymgysylltu ag EET**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Allwedd (effaith y nodweddion ar eu tebygolrwydd o ailymgysylltu ag EET) | Cadarnhaol | Cymedrol | Negyddol |




Ffynhonnell: Ffigur wedi'i greu ar gyfer yr adolygiad gan ddefnyddio data o Speilhofer et al, 2009 a SAC, 2014


**Ffigur 3.2. Nodweddion pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ond sydd 'heb benderfynu' ynghylch ailymgysylltu ag EET**




Ffynhonnell: Ffigur wedi'i greu ar gyfer yr adolygiad gan ddefnyddio data o Speilhofer et al, 2009 a SAC, 2014

**Ffigur 3.3. Nodweddion pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ac sydd wedi'u dal neu'n mynd yn ôl ac yn annhebygol o ailymgysylltu ag EET (NEET parhaus)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Allwedd (effaith y nodweddion ar eu tebygolrwydd o ailymgysylltu ag EET) | Cadarnhaol | Cymedrol | Negyddol |




Ffynhonnell: Ffigur wedi'i greu ar gyfer yr adolygiad gan ddefnyddio data o Speilhofer et al, 2009 a SAC, 2014

### Goblygiadau o ran beth sy'n gweithio

3.7. O ystyried y gwahaniaethau yn eu nodweddion (o ran cymhelliant, galluoedd, ymddygiad a mynediad at gyfleoedd) mae'n rhesymol dod i'r casgliad y bydd angen gwahanol lefelau a mathau o gymorth ar grwpiau gwahanol o bobl ifanc ac felly, ni fydd dull un maint i bawb yn gweithio i bawb. Mae hon yn neges allweddol arall o gam cyntaf Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023a) ac fe'i cefnogir yn anuniongyrchol gan y llenyddiaeth a adolygwyd, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau hyblyg sy'n canolbwyntio ar y person. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth yn y llenyddiaeth a adolygwyd am ddatblygu gwahanol fathau o gymorth cyflogaeth a gynlluniwyd i ddarparu ar gyfer grwpiau gwahanol.

3.8. Mae gan y canfyddiadau oblygiadau hefyd ar gyfer targedu rhaglenni. Mae'n debygol y bydd yn haws ymgysylltu â phobl ifanc yn y grŵp cyntaf a'r ail grŵp, ac yn haws i'w cynorthwyo i waith, ond maent hefyd yn fwy tebygol o ailymgysylltu ag EET heb gymorth (ac felly o bosibl mae llai o angen cymorth arnynt[15]). Gall hyn helpu i esbonio'r lefelau uchel o ddiffrwythedd a nodwyd mewn gwerthusiadau effaith; er enghraifft, fel y nododd un adolygiad diweddar:

> ‘In the higher quality evaluations included here, an impact on employment was found, but the additional impact was often only around 10 percentage points (and often less). In other words, many of the participants would have gone on to get jobs without the evaluated support’ (IES, 2020, t.7) [16].

3.9. I'r gwrthwyneb, mae pobl ifanc yn y trydydd grŵp yn debygol o fod yn anoddach ymgysylltu â nhw (ac felly'n llai tebygol o gael eu cynnwys mewn gwerthusiadau effaith), ac yn anoddach eu cynorthwyo i waith, ond hefyd yn llai tebygol o ailymgysylltu ag EET heb gymorth.

[15] Er bod y grŵp cyntaf – y rhai sy'n pontio – yn debygol o ailymgysylltu heb gymorth; mae'r rhagolygon i bobl ifanc yn yr ail grŵp – sydd ‘heb benderfynu’ yn fwy cymysg. Efallai y bydd dim ond angen cymorth cymharol ysgafn arnynt, ond gall y cymorth hwnnw fod yn ddigon i'w ‘troi’ tuag at ailymgysylltu'n gyflymach nag y byddent wedi'i wneud fel arall.

[16] Mae'n nodedig mewn astudiaethau sy'n cymharu canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cynorthwyo gan raglen benodol â sampl gyfatebol o bobl ifanc nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan y rhaglen honno, nad ydynt yn eithrio pobl a allai fod yn derbyn mathau eraill o gymorth neu anogaeth i ailymgysylltu (er enghraifft, yr hyn a gynigir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu ddarparwyr addysg a hyfforddiant).

## 4. ‘Beth sy'n gweithio’ a beth allai weithio wrth ymgysylltu â phobl ifanc

4.1. Mae’r Warant i Bobl Ifanc yn cynnig cymorth i bobl ifanc 16-25 oed gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Fodd bynnag, er efallai y bydd pobl ifanc am gael cymorth ac y byddent yn cael budd ohono, mae llawer nad ydynt yn manteisio arno. Mae'r adran hon yn trafod yr hyn sy'n hysbys am pam a faint o bobl ifanc sy'n dewis ymgysylltu â chymorth a beth sy'n gweithio a beth allai weithio wrth ymgysylltu â nhw[17], a hefyd pam mae rhai yn dewis peidio ag ymgysylltu. Mae hon yn her allweddol; fel y casglodd un adolygiad y Swyddfa Lafur Ryngwladol (ILO) o warantau ieuenctid Ewrop: mae ymgysylltu â ‘phobl ifanc NEET heb eu cofrestru’, fel arfer y rhai â'r rhwystrau mwyaf cymhleth, yn cael ei ystyried fel un o'r heriau mwyaf difrifol y mae gwledydd yn eu hwynebu wrth fodloni canllawiau argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â'r warant ieuenctid (ILO, 2017).

**Faint o bobl ifanc NEET nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET?**

4.2. Nid yw'r data ar nifer y bobl ifanc sy'n NEET ac nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET yng Nghymru yn hysbys. Felly, cafodd nifer o fesurau procsi eu hystyried:

- mae tabl 4.1 yn amlinellu'r nifer a'r ganran o bobl ifanc sy'n hawlio budd-daliadau, fel mesur o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth, gan awgrymu nad yw tua hanner y bobl ifanc NEET yn hawlio budd-daliadau (22,831 o bobl ifanc)[18] ac felly nid ydynt hefyd yn cael mynediad at gymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP); a

[17] Hynny yw, ymyriadau sydd â chyfrif creadwy o sut a pham maent yn gweithio, a gallant roi tystiolaeth o newid cadarnhaol, ond nad ydynt wedi bod yn destun gwerthusiad effaith cadarn.
[18] Dylid nodi na fyddai'r holl bobl ifanc NEET yn gymwys i gael budd-daliadau a byddai rhai pobl ifanc nad ydynt yn NEET yn dal i fod yn gymwys i gael rhai budd-daliadau.

- mae tabl 4.2 yn amlinellu nifer y bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n NEET neu yn haen 1 a 2 o fframwaith pum haen Gyrfa Cymru (5,129 o bobl ifanc).[19]

4.3. Ceisiwyd data ar nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at gymorth EET Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) (ar y sail y byddai'r rhan fwyaf o raglenni cymorth EET wedi derbyn rhywfaint o arian CGE, felly gellid defnyddio'r niferoedd fel mesur bras o ymgysylltu â'r holl wasanaethau cymorth EET). Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cyfrifo hyn oherwydd, er enghraifft, bod gwybodaeth am gyfranogwyr dim ond yn cael ei darparu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) pan fydd y prosiect wedi hawlio ar eu cyfer ac nid o reidrwydd pan oeddent yn derbyn y cymorth.

**Tabl 4.1. Pobl ifanc o dan 18 oed* a 18-24 oed* sy'n hawlio budd-daliadau (cyfartaledd dros flwyddyn yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (2016, 2017, 2018))**

| | **O dan 18 oed*** | | **18-24*** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Hawlio JSA | 20 | 0.3 | 3,486 | 8 |
| Hawlio ESA | 217 | 3 | 11,064 | 25 |
| Hawlydd (Lwfans Ceisio Gwaith + CC) | 55 | 1 | 10,205 | 23 |
| CC (heb gynnwys Lwfans Ceisio Gwaith) | 35 | 1 | 6,719 | 15 |
| Ddim yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth na Lwfans Ceisio Gwaith | 7,030 | 97 | 29,550 | 67 |
| Ddim yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth na Lwfans Ceisio Gwaith na CC | 6,995 | 96 | 22,831 | 51 |
| **Cyfanswm y bobl ifanc NEET** | **7,267** | **100** | **44,100** | **100** |

[19] Mae pobl ifanc yn haen 1 yn anhysbys i Gyrfa Cymru ac mae pobl ifanc yn haen 2 yn bobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddi-waith, sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, nad ydynt ar gael ar gyfer EET. Mae'n hysbys hefyd bod y rhai yn haen 3 yn ddi-waith, ond gwyddys eu bod wrthi'n chwilio am EET ac naill ai'n barod i fynd i EET, neu aseswyd bod angen rheoli gyrfa neu gymorth sgiliau cyflogadwyedd arnynt er mwyn mynd i EET. Mae'r rhai yn haen 4 yn bobl ifanc sy'n ymgysylltu ag EET, ond sy'n cael eu barnu fel rhai sydd mewn perygl o roi'r gorau iddi ac mae pobl ifanc yn haen 5 yn bobl ifanc ag ymgysylltiad parhaus ag EET.

**Roedd gan y data poblogaeth NEET ystod oedran wahanol i ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau ar JSA ac ESA, felly, cafodd poblogaeth blwyddyn ar gyfartaledd ei hychwanegu at y data poblogaeth NEET i adlewyrchu'r un ystod oedran.*

4.4. Mae rhagor o fanylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r data yn nhabl 4.1 wedi'u cynnwys yn yr atodiad.

**Tabl 4.2. Data Gyrfa Cymru, pobl ifanc 16-17 oed**

| Rhywedd | EET | NEET | H1 | H2 | H3 | H4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwryw | 32,752 | 1,244 | 679 | 987 | 257 | 1,768 |
| Benyw | 31,202 | 898 | 541 | 756 | 142 | 1,416 |
| Arall | 43 | 6 | 2 | 6 | | 6 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 21 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Anhysbys | 2 | | 1 | | | |
| | 1 | | 1 | | | |
| **Cyfanswm** | **64,021** | **2,151** | **1,227** | **1,751** | **400** | **3,192** |

4.5. Er nad yw wedi'i gynllunio i gynhyrchu data meintiol manwl gywir, mae'n werth nodi hefyd bod Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023a) yn nodi bod hanner y bobl ifanc 16 i 24 oed yn cytuno nad oeddent yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda i wneud y cwrs neu gael y swydd yr oeddent ei heisiau ac mae'r mwyafrif llethol o bobl ifanc sydd wedi ceisio gwneud cais am swydd neu wneud cwrs wedi wynebu rhwystrau.

4.6. Yn bwysig, mae Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol hefyd yn nodi, er bod llawer o bobl ifanc am gael cymorth ac y byddent yn cael budd ohono, mae llawer ohonynt naill ai ddim yn ymwybodol o wasanaethau cymorth, neu'n amharod i ymgysylltu â nhw (er enghraifft, lle nad oes ganddynt yr hyder i wneud hynny). Yn wir, mae llawer o bobl ifanc ar goll, yn ansicr, heb gyfeiriad, wedi'u drysu gan y dirwedd ôl-16[20] a/neu yn teimlo ei bod yn annheg. ‘Nid yw mynediad at gefnogaeth yn rhywbeth y mae llawer o bobl ifanc wedi meddwl amdano’ (ibid., t. 73).

[20] Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfrannwr at y Sgwrs Genedlaethol , ‘Mae fel darnau Lego, ond bod y cyfarwyddiadau ar goll, a does gennych chi ddim byd ond yr holl bethau yma, a does dim cliw o unrhyw fath sut i ddod â’r darnau at ei gilydd. Ac yn y pen draw, ’dych chi’n rhoi’r ffidil yn y to achos does gennych chi ddim clem’ (cyfranogwr NEET, 16 i 18).

**Beth sy'n cymell pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET?**

4.7. Mae dwy agwedd, yn gyntaf y cymhelliant i ailymgysylltu ag EET; ac yn ail, y cymhelliant i gael mynediad at wasanaethau cymorth EET, yn bwysig i'w hystyried. Mae pobl ifanc sydd am ailymgysylltu ag EET hefyd yn fwy tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET, ond ni ellir cymryd hyn yn ganiataol. Fel y mae Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023a) yn nodi, mae diffyg ymwybyddiaeth o fynediad at wasanaethau cymorth ac, i rai pobl ifanc, stigma a/neu ofnau ynghlwm wrth hyn. Mae'r canfyddiad hwn wedi'i amlygu yn y llenyddiaeth ehangach (gweler SEU, 2005) ac mae'n adlewyrchu, er enghraifft:

- gwendid mewn gwasanaethau cymorth EET o ran, er enghraifft, y ffordd y maent yn cael eu marchnata a/neu eu darparu i bobl ifanc;
- mae diffyg ymddiriedaeth neu hyder pobl ifanc yn fwy cyffredinol mewn gwasanaethau cyhoeddus, a allai fod wedi'i waethygu gan y pandemig (gweler IMF 2022) neu ofnau am 'y byd swyddogol', a allai fod yn fwy cyffredin ymhlith rhai grwpiau fel pobl ifanc Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol neu fewnfudwyr; a/neu
- pryderon pobl ifanc eu hunain a'u diffyg hunanhyder, y gellir eu gwaethygu gan anawsterau iechyd meddwl a/neu gyflyrau niwroddatblygiadol fel awtistiaeth, sy'n gallu eu gwneud yn amharod, er enghraifft, i ryngweithio ag eraill mewn grwpiau mawr a/neu ymatebion gwrth risg (ac, er enghraifft, amharodrwydd i geisio manteisio ar gyfleoedd oherwydd byddai gwneud hynny hefyd yn eu gwneud yn agored i'r risg o fethu).

4.8. I'r gwrthwyneb, mae pobl ifanc nad ydynt eisiau ailymgysylltu ag EET a/neu nad ydynt yn barod i wneud hynny yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET. Mae rhai adolygiadau'n awgrymu mai rhwystrau agweddol (o ran ailymgysylltu ag EET) ymhlith pobl ifanc ddifreintiedig yw'r rhwystr allweddol y maent yn ei wynebu (Martin a Grubb, 2001). Er bod adroddiad cyntaf yr adolygiad (Llywodraeth Cymru, 2024) yn awgrymu, er bod rhwystrau agweddol sy'n amlygu fel diffyg cymhelliant yn rhwystr allweddol, maent fel arfer yn fwy aml yn symptom yn hytrach nag achos, yn yr ystyr eu bod wedi'u gwreiddio mewn, er enghraifft, canfyddiadau o alluoedd cyfyngedig a/neu ddiffyg cyfle. Felly, prin yw'r dystiolaeth o'r hyn a elwir yn ieuenctid

‘di-ddim’ neu is-ddosbarth, nad yw am weithio ac yn dewis peidio â gweithio ac yn hytrach yn awyddus i fodoli ar fudd-daliadau (gweler er enghraifft, Murray, 1990, sef gwaith arloesol ar y syniad o ‘is-ddosbarth’).

4.9. Fodd bynnag, er bod pobl ifanc (gan gynnwys y rhai NEET) yn gyffredinol yn mynegi arwydd i weithio, (LWI, 2022) ac yn wir, eisiau'r un pethau â'r rhan fwyaf o bobl ifanc; arian, swydd ddiddorol a theulu (SEU, 2005):

- nid yw hyn yn troi'n barodrwydd i gymryd unrhyw swydd;
- gall y cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd â galluoedd cyfyngedig (o ran sgiliau) ac sydd, er enghraifft, yn cael trafferth teithio, fod yn gyfyngedig ac yn anneniadol (gweler y testun mewn blwch ar y dudalen nesaf); a
- yn aml mae diffyg eglurder ynghylch dyheadau a/neu sut i'w cyflawni [21] (Watkins, 2019). Fel y nododd cyfweleion, gall hyn fod yn arbennig o amlwg i rai grwpiau, fel ffoaduriaid, sydd â gwybodaeth neu brofiad cyfyngedig o farchnad lafur y DU (gweler Llywodraeth Cymru, 2020a).

4.10. Fel y dywedodd Williamson:

> ‘The kinds of jobs (and the kinds of training) that will become and be made available. … may not be those that young people are happy or willing to take up. Does that matter? The answer is mixed. We have to understand what young people really want and, at the next level, what they are willing to consider as a ‘trade off’. What they really want is an intrinsically satisfying job that pays well. Many will not achieve that. We have then to emphasise, in policy, the need for contact, engagement, dialogue and judgement about the range of vocational, educational and cultural possibilities and opportunities that might be made available. Many young people will be receptive to some such options, even if they are not really what they want. But they will consider them if the basis of participation provides them with different benefits: relationships with supportive adults, meaningful activities and so on’ (Williamson, 2010, t.18).

[21] Fel y mae Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol yn nodi, weithiau mae dyheadau pobl ifanc yn aneglur neu heb eu datblygu, a/neu nid oes ganddynt ddealltwriaeth o sut i gynllunio i'w cyflawni.

4.11. Felly, yn hytrach na diffyg dyhead, mae llawer o'r ymchwil yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cyfyngiadau ar alluoedd pobl ifanc, fel sgiliau isel a/neu anawsterau iechyd meddwl; a/neu
- wendid mewn marchnadoedd llafur lleol

fel y ffactorau sylfaenol sy'n digalonni pobl ifanc (gweler e.e. Goldman-Mellor et al., 2016).

**Beth yw eich opsiynau?**

Un o'r negeseuon allweddol o'r adolygiad yw pwysigrwydd empathi a gweld pethau drwy lygaid pobl ifanc; er enghraifft, fel y disgrifiodd un cyfwelai (ar gyfer yr adolygiad), i'r rhai nad oes ganddynt lawer o gymwysterau, neu ddim cymwysterau o gwbl, byddant yn ystyried:

- y gwaith o ansawdd gwael sy'n agored i bobl ifanc, er enghraifft ym maes gweithgynhyrchu bwyd, gofal, adeiladu neu fanwerthu; gwaith sy'n gallu bod yn wael o ran tâl a thriniaeth yn y gwaith (gydag, er enghraifft, adroddiadau o ddiwylliannau gwenwynig yn y gweithle gyda bwlio eang) nad yw'n cynnig fawr o statws, diogelwch na gwobr, ac sy'n gwbl groes i ddyheadau a/neu ddisgwyliadau pobl ifanc ynghylch sut beth ddylai gwaith fod, o ystyried disgwyliadau afrealistig wedi'u sbarduno gan y cyfryngau cymdeithasol a'r teledu;
- dewisiadau amgen hyfyw yn y sector anffurfiol/anghyfreithlon, fel gwerthu cyffuriau neu waith rhyw, sy'n gallu cynnig ‘arian hawdd’ ac, yn achos gwerthu cyffuriau, math o statws; a/neu
- rolau amgen, fel bod yn ‘fam amser llawn’ (nad ydynt yn cynnwys gweithgarwch economaidd) neu ffyrdd amgen o fyw, fel defnyddio cyffuriau neu chwarae gemau (nad ydynt yn cynnwys gwaith nac astudio).

Nododd cyfweleion (ar gyfer yr adolygiad) y gall rhai ffyrdd amgen o fyw fod yn gaethiwus, gan gynnig hwyl, ymdeimlad o gymuned a statws posibl lle, er enghraifft, mae llwyddiant yn golygu dod yn ‘gi mawr’ mewn gêm chwarae rôl. Nodwyd hefyd

y gall y ffyrdd amgen hyn o fyw gael eu ‘galluogi’ gan rieni sy’n parhau i gefnogi pobl ifanc sy'n byw gartref a gallai'r ymddygiad hwn hefyd greu normau cymdeithasol pwerus ac ‘ofn colli allan’, sy'n gallu annog eraill i beidio â gweithio.

Ategir hyn gan Williamson sy’n dadlau bod y bobl ifanc hynny sy'n NEET ac sydd wedi'u ‘dieithrio'n ddwfn’, yn cynnwys y rhai sydd wedi ymddieithrio oherwydd eu bod wedi ‘colli diddordeb yn llwyr’ a'r rhai sydd wedi ‘meithrin diddordeb mewn rhywbeth arall’; yn ei eiriau ef:

> ‘There were the purposeful, who had discovered ‘alternative ways of living’ within the informal and illegal economies, and there were the purposeless, who had given up and were whiling their lives away under the influence of alcohol and illegal drugs’.

Mae'n dod i'r casgliad na fyddai'r un o'r grwpiau hyn yn hawdd i'w ddarbwyllo i ddychwelyd. (Williamson, 2010, t.16).

4.12. Mae hefyd yn bwysig nodi, hyd yn oed os nad yw pobl ifanc am ailymgysylltu ag EET ar yr adeg neu'r cam hwn o'u bywydau (trafodir trobwyntiau posibl yn adran 5), nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fyddant yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET. Efallai y bydd gan bobl ifanc nad ydynt yn dymuno ymgysylltu ag EET gymhellion eraill dros ymgysylltu â gwasanaethau cymorth, fel yr awydd i leddfu diflastod a ‘gwneud rhywbeth’, i ennill sgiliau, manteisio ar gymhellion ariannol (fel lwfansau hyfforddi) a/neu osgoi cosbau ariannol (fel cosbau am dorri amodau lles).

### Beth sy'n gweithio: nodi pobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET

*Olrhain pobl ifanc ‘mewn perygl’ neu sydd eisoes wedi ymddieithrio*

**4.13.** Un rhan allweddol o strategaethau ymgysylltu yw systemau i sicrhau bod pobl ifanc y mae angen cymorth arnynt, ac a fyddai'n cael budd ohono, yn gallu cael eu nodi (IES, 2020). Yng Nghymru, daeth un o adolygiadau Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos y bydd canolbwyntio ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad yn nodi'r mwyafrif o bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET (Llywodraeth Cymru, 2013, t.33). Fel y mae'r testun mewn blwch yn dangos,

datblygwyd hyn yng Nghymru drwy ddatblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae olrhain y garfan 17 i 24 oed yn cael ei ystyried yn llawer anoddach, (o ystyried, er enghraifft, yr anawsterau wrth olrhain carfan gyfan o bobl ifanc 19-24 oed ar draws sawl lleoliad) a nododd cyfweleion (ar gyfer yr adolygiad hwn) fod hwn yn un rheswm pam y cafodd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ai ailganolbwyntio ar y rhai 11 - 18 oed.

**Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**

Ceisiodd cynllun gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn 2013 'ddatblygu dull cyson o ddatblygu a defnyddio systemau nodi'n gynnar ledled Cymru [22]', gan gynnwys 'datblygu systemau nodi'n gynnar ôl-16 effeithiol a systemau nodi parhaus ôl-16 23' (Llywodraeth Cymru, 2013, t.17). Nododd y gwerthusiad o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn 2015 'yn gyffredinol, roedd prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn llai datblygedig ar gyfer y grŵp oedran 16-18 na'r grŵp iau nag 16 oed' (Llywodraeth Cymru, 2015). Ers hynny, mae cyfweleion yn nodi bod cyflwyno fframwaith pum haen Gyrfa Cymru, ac ailganolbwyntio ar y rhai 11-18 oed, wedi gwella'r olrhain, er bod nifer y bobl ifanc a nodir gan Gyrfa Cymru fel rhai NEET, yn is na'r ystadegau swyddogol.[24]

4.14. Yn Lloegr, mae Dangosyddion Perygl o fod yn NEET (RONI) wedi'u teilwra i boblogaethau NEET lleol (prif ddimensiynau risg yn lleol) wedi'u datblygu (IES, 2020). Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd yn gymysg, a nodir yn gyffredinol, ei bod yn anodd nodi nodweddion unigol yn 14-16 oed y gellid eu defnyddio i ragfynegi'n gryf y rhai sy'n fwy tebygol o brofi canlyniadau arbennig o

[22] Roedd y rhain i ganolbwyntio'n benodol ar ddangosyddion presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiaddd i nodi'r 'rhan fwyaf o bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â gwneud cynnydd cadarnhaol yn 16 oed' (Llywodraeth Cymru, 2013).
[23] Canolbwyntiodd y rhain ar systemau lleoliadau addysg neu hyfforddiant eu hunain o 'nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i addysg a system nodi Gyrfa Cymru' (ibid., t.20).
[24] Yn rhannol, credir bod hyn oherwydd bod carfan Gyrfa Cymru yn canolbwyntio ar ddau grŵp blwyddyn (pobl ifanc a fyddai ym mlynyddoedd 12 ac 13, pe baent wedi parhau mewn addysg, yn hytrach na'r holl bobl ifanc 16-18 oed).

wael yn y farchnad lafur pan fyddant yn 25 oed, yn enwedig y rhai sy'n NEET yn y pen draw (Dickerson et al. (2020) a nodwyd yn IES, 2020).[25]

4.15. Un her allweddol yw nodi pobl ifanc a ddisgrifir yn aml fel rhai sydd ‘o dan y radar’, a allai, er enghraifft, fod wedi encilio i'w hystafelloedd gwely yn ystod neu ar ôl y pandemig ac nad ydynt yn hawlio budd-daliadau (ac felly maent yn llai gweladwy), neu sy'n gweithio yn yr economi anffurfiol[26] (ac felly nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET). Mae pryderon hefyd ynghylch pobl ifanc oed ysgol nad ydynt wedi cofrestru mewn ysgolion, os nad yw eu haddysg yn y cartref yn addas[27], ac sy'n wynebu mwy o berygl o fod yn NEET (CCW, 2021). Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn gymharol fach[28], ac mae mwy o bwyslais yn y llenyddiaeth ar y niferoedd mwy o'r rhai 16 i 18 oed sydd wedi gadael yr ysgol ac sy'n NEET. Oherwydd eu bod yn llai gweladwy ac nad ydynt yn ymgysylltu, prin yw'r dystiolaeth ar ‘beth sy'n gweithio’ gyda'r grŵp hwn (IES, 2020, t.8).

*Estyn allan i'r rhai sydd wedi'u nodi*

4.16. Gall gweithgarwch allgymorth rhagweithiol i ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi'u nodi ac sy'n bodloni'r meini prawf mynediad fod yn effeithiol (ac yn aml yn angenrheidiol hefyd) (IES, 2020). Gall hyn gynnwys, er enghraifft, rôl oedolion y gellir ymddiried ynddynt a chyfoedion hefyd o bosibl, wrth gyfathrebu gwybodaeth am risgiau a manteision posibl ymgysylltu (er enghraifft, ariannol a chymdeithasol) ac wrth annog pobl ifanc. Mae hon yn un o nodweddion allweddol y Fframwaith Ymgysylltu a

[25] Yng Nghymru, cyhoeddwyd canllawiau ar nodi'r perygl o fod yn NEET yn gynnar o dan y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn 2014. Nid yw effeithiolrwydd hyn wedi cael ei werthuso.

[26] Byddai hyn yn cynnwys gweithgareddau a fyddai'n gyfreithlon, fel swyddi adeiladu a gyrru, ond sydd wedi'u cuddio er mwyn osgoi rheoleiddio a/neu drethi; gweithgareddau a allai fod ag elfennau cyfreithlon ac anghyfreithlon hefyd, fel gwaith rhyw (lle mae cyfnewid gwasanaethau rhywiol am arian yn gyfreithlon ond nid yw llithio yn gyfreithlon), a gweithgareddau fel dwyn sydd bob amser yn anghyfreithlon.

[27] Fel y nododd un cyfwelai, mae rhai teuluoedd yn dadgofrestu eu plant mewn ymateb i'r bygythiad o ddirwyon neu ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol, ond nid oes ganddynt yr adnoddau ar gyfer addysg yn y cartref. Fodd bynnag, efallai y bydd ysgolion yn gweld hyn fel ffordd o osgoi niweidio eu cofnod presenoldeb. Nododd y cyfwelai os bydd teulu yn dadgofrestru plentyn mae'n dileu'r posibirlwydd o gael dirwy, ond i rai plant/pobl ifanc mae'n nodi diwedd addysg. Gwnaethant nodi y gall yr awdurdod lleol ymweld â nhw i weld pa addysg yn y cartref sy'n cael ei darparu, ac os ydynt yn anfodlon, gallant gyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol ond mae hyn dim ond yn rhoi'r teulu yn ôl lle yr oeddent, o dan fygythiad dirwyon ac nid yw'n newid unrhyw beth. Os yw'r person ifanc yn 15 oed, gall y teulu aros am ychydig fisoedd ac oedi'r awdurdod lleol nes y gallant adael addysg yn gyfreithlon.

[28] Rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022, roedd yn hysbys bod 4,681 o blant yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022)

Datblygu Ieuenctid, ond fel y nodwyd uchod, mae'r trefniadau'n llai datblygedig ar gyfer y rhai 19 oed a throsodd yr ystyrir eu bod yn fwy anodd i'w holrhain a'u nodi.

*Atgyfeiriadau a recriwtio uniongyrchol*

4.17. Yn ogystal â mynd ati'n rhagweithiol i nodi pobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o hynny, ac estyn allan atynt, gall gwasanaethau ymgysylltu â phobl ifanc drwy atgyfeiriadau gan bartneriaid a recriwtio uniongyrchol/hunanatgyfeiriadau (er enghraifft, lle mae pobl ifanc yn ceisio cymorth gan Cymru'n Gweithio neu Gyrfa Cymru). Mae gwerthusiadau o raglenni fel Cymunedau am Waith (CfW) a Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) yn awgrymu bod atgyfeiriadau gan bartneriaid yn bwysig ac yn darparu 'piblinell' werthfawr. Nodir bod llwybrau atgyfeirio clir a 'throsglwyddiadau cynnes' rhwng asiantaethau atgyfeirio a rhaglenni/prosiectau yn bwysig wrth droi'r ymgysylltu cychwynnol, nad yw o bosibl yn canolbwyntio ar geisio cymorth cyflogaeth, i mewn i ymgysylltu â chymorth cyflogaeth. Fodd bynnag, Canolfan Byd Gwaith yw'r brif ffynhonnell o atgyfeiriadau ar gyfer CfW a CfW+, gyda llai o atgyfeiriadau na'r disgwyl gan bartneriaid fel Cymru'n Gweithio (Llywodraeth Cymru, 2023b). At hynny, fel y nodwyd, nid yw cymaint â hanner y bobl ifanc NEET yn ymgysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae data Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol hefyd yn awgrymu bod niferoedd cymharol fach o bobl ifanc yn hunanatgyfeirio i wasanaethau cymorth EET[29] (Llywodraeth Cymru, 2023a).

4.18. Fodd bynnag, mae data Cymru'n Gweithio yn awgrymu darlun mwy cymhleth. Mae pobl ifanc yn Haen 2 (sy'n NEET, yn hysbys i Gyrfa Cymru, ond nad ydynt ar gael ar gyfer EET, e.e. oherwydd cymhlethdod eu rhwystrau) fel arfer yn cael eu hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad â hynny, mae pobl ifanc yn Haen 3 (sy'n NEET, yn hysbys i Gyrfa Cymru, ac sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth ac addysg) yn hunanatgyfeirio yn bennaf i Cymru'n Gweithio (gohebiaeth bersonol Cymru'n Gweithio)

[29] Nododd Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol bod y 'rhai a oedd wedi cael cymorth fel arfer wedi cael gwybod amdano'n anuniongyrchol drwy weithwyr proffesiynol neu sefydliadau eraill, yn hytrach na'r person ifanc yn dod o hyd i gymorth a chael mynediad iddo drwy ei fodd ei hun' (Llywodraeth Cymru, 2023a, t.42).

**Beth sy'n gweithio: Cynnig gwasanaethau cymorth EET**

4.19. Pan fydd person ifanc sydd, neu y bernir ei fod, mewn perygl o fod yn NEET yn cael ei nodi, ei atgyfeirio, neu'n cyflwyno i wasanaeth cymorth EET:

- rhaid i gynnig y gwasanaeth fod yn ddigon deniadol i gymell, ymgysylltu â'r person ifanc a chynnal ei ymgysylltiad; a
- mae angen i'r person ifanc feddu ar y gallu i ymgysylltu â''r gwasanaethau cymorth EET a'r cyfle i wneud hynny (IES, 2020).

4.20. Yr her yw bod llawer o'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn NEET, neu mewn mwy o berygl o fod yn NEET, fel galluoedd cyfyngedig, cymhelliant gwan, mynediad cyfyngedig i gyfleoedd (er enghraifft, yn sgil rhwystrau sefyllfaol fel cyfrifoldebau gofalu) a/neu ymddygiad peryglus (fel camddefnyddio cyffuriau ac alcohol), hefyd yn gallu eu hannog i beidio ag ymgysylltu â gwasanaethau cymorth neu rwystro'r ymgysylltu hwnnw.

*Beth mae pobl ifanc ei eisiau?*

4.21. Efallai y bydd pobl ifanc sy'n cael eu cymell i ailymgysylltu ag EET (ac sydd naill ai wrthi'n ‘pontio’ neu ‘heb benderfynu’ ac a fyddai'n disgyn i'r grŵp cyntaf neu'r ail grŵp a amlinellir yn adran 3), yn chwilio am gymorth yn bennaf i'w helpu i wireddu eu dyheadau. Felly, mae eu dealltwriaeth eu hunain o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, a'r cynnig cymorth a wneir iddynt ill dau yn bwysig. Os, er enghraifft, mai'r cyfan y maent yn meddwl sydd ei angen arnynt yw cyngor, efallai na fydd y cynnig hyfforddiant yn ddeniadol. Yn ehangach, mae pobl ifanc (fel y rhan fwyaf o bobl) am gael gwasanaethau y maent yn teimlo eu bod yn eu parchu, yn teimlo eu bod yn agos atoch neu'n canolbwyntio ar y person. Felly, gall profiadau cadarnhaol o wasanaethau cymorth eu hannog, ond gall profiadau negyddol eu hannog i beidio ag ymgysylltu neu eu digalonni. Er enghraifft, fel y nododd Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol:

> Roedd arwyddion unwaith iddynt gael profiad cadarnhaol o geisio/derbyn cymorth, roedd eu hymwybyddiaeth o sefydliadau/pobl eraill a'u tuedd i ymgysylltu â nhw - a gofyn am gymorth ganddynt - wedi cynyddu. (t. 49, Llywodraeth Cymru, 2023a).

4.22. Mewn cyferbyniad â hynny, fel yr amlinellwyd uchod, mae'n fwy tebygol y bydd angen ‘atyniadau’ eraill ar bobl ifanc nad oes ganddynt gymhelliant cryf i ailymgysylltu ag EET (fel y rhai yn y trydydd grŵp a amlinellwyd yn adran 3, sydd wedi'u ‘dal’), i'w cymell; er enghraifft, mae Steer (2000) a nodwyd yn IES (2020) yn dadlau dros atyniadau diwylliannol fel cerddoriaeth, chwaraeon, neu'r celfyddydau, a/neu atyniadau ariannol, er enghraifft, talebau arian parod neu daliad am bresenoldeb rheolaidd, a nodir y gall y rhain fod yn atyniadau pwysig. Mae atyniadau eraill yn cynnwys cyrsiau preswyl, defnyddio cyfleusterau hamdden a mynediad at dechnoleg (cyfrifiaduron ac offer recordio) … ynghyd â gweithwyr ieuenctid sydd â charisma, sgiliau arwain a'r gallu i ymdeimlo â phobl ifanc. Mae llai o dystiolaeth o effeithiolrwydd atyniadau ar gyfer y rhai rhwng 18 a 24 oed (IES, 2020).

4.23. Yn ehangach, efallai nad yw rhai pobl ifanc sy'n cael trafferthion o reidrwydd yn chwilio'n benodol am gymorth i'w helpu i ailymgysylltu ag EET; er enghraifft, nododd y gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith (OoWS)[30] fod cyfranogwyr ‘yn cael eu denu at y Gwasanaeth Di-waith yn y lle cyntaf i gael cymorth â heriau iechyd a lles. Roedd cael cyflogaeth a hyfforddiant yn gysylltiedig â gwaith yn rheswm llai cyffredin dros ymuno â’r rhaglen.’ (Llywodraeth Cymru, 2023c, t.2). Fodd bynnag, mae hyn yn debygol yn rhannol o ganlyniad i'r cyd-destun yr oedd y rhaglen yn gweithredu ynddo pan gynhaliwyd y gwerthusiad, oherwydd yn ystod y pandemig, roedd anghenion iechyd a llesiant cyfranogwyr wedi cynyddu ac roedd ganddynt fwy o ddiddordeb ar yr adeg honno yn y cymorth a ddarparwyd gan fentoriaid cyfoedion ar gyfer eu heriau iechyd a llesiant yn hytrach na chymorth i chwilio am waith. Mae staff Llywodraeth Cymru yn nodi, wrth i'r cyfyngiadau lacio, ac wrth i iechyd a llesiant cyfranogwyr wella, mae mwy o gyfranogwyr bellach yn chwilio am gymorth yn bennaf er mwyn dod o hyd i waith.

[30] Mae'r prosiect yn darparu cymorth mentora cyfoedion anfeirniadol i bobl sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddol a/neu salwch meddwl. Fe'i cyflwynir gan gyfoedion sydd â'r profiad bywyd eu hunain o wella o gamddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl.

4.24. Fel y mae ffigur 4.1 yn dangos, pwysleisiodd cyfweleion o'r prosiect Golau Gwyrdd[31] ei bod hefyd yn bwysig deall pa atyniadau eraill y mae pobl ifanc yn eu canfod, a allai eu denu i ffwrdd o wasanaethau cymorth EET neu a allai eu dal yn ôl.

[31] Mae'r prosiect yn cynorthwyo pobl sy'n ddi-waith, sydd wedi'u tangyflogi neu sy'n dyheu am newid gyrfa. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl i greu cynllun datblygu personol a nodi'r cymorth a fyddai'n eu helpu, yn amrywio o lunio CV, datblygu sgiliau personol, cymwysterau (e.e. CSCS a chymorth cyntaf), i arweiniad a chynllunio gyrfaoedd a chymorth i wneud cais am swyddi a/neu gyrsiau.

**Ffigur 4.1. Nodweddion, profiadau neu amgylchiadau sy'n gallu dal person ifanc yn ôl**

| Allwedd | Galluogrwydd | Cymhellion | Cyfleoedd | Ymddygiad |
|---|---|---|---|---|

**Prinder*** (e.e. o ran amser, arian): mae'n defnyddio lled band meddyliol (gan ei gwneud yn fwy anodd datrys problemau, cynllunio i'r dyfodol), mae'n afradu ewyllys, ac yn gallu annog canolbwyntio ar foddhad tymor byr fel 'therapi siopa', cyffuriau, alcohol, wrth i bobl chwilio am hapusrwydd lle maent yn teimlo y gallant ddod o hyd iddo, ond sy'n cyfrannu at benderfyniadau gwael ac annoeth

Pobl wedi **blino**, oherwydd y pandemig, y dirywiad economaidd ac ati ac yn teimlo'n ddi-rym, gan annog **tyngedfennaeth**: os na allwch ddod o hyd i swydd neu'n colli swydd beth arall allwch chi ei wneud?

Pobl sydd **wedi cael trafferth yn yr ysgol**; colli cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol oherwydd y **pandemig**; heb fawr o **brofiad** o waith / y gweithle, os o gwbl

Trawma / ACE

**Cyfryngau cymdeithasol** – disgwyliadau gwyrdroëdig: yn chwilio am y swydd berffaith (nad yw'n bodoli yn lleol ar gyfer rhywun â'ch galluogrwydd)

Diffyg **hyder**; diffyg **cydnerthedd**; iechyd meddwl gwael

**Rhieni, partneriaid, ffrindiau** yn eich dal yn ôl: yn genfigennus, yn ofnus y byddwch yn gadael, yn teimlo dan fygythiad gan ragolygon eich llwyddiant; rhieni wedi 'galluogi' hyn; pobl ifanc heb waith sy'n byw gartref 'fel brenin neu frenhines'

**Dyled** (e.e. y rhai â chyllid car i dalu amdano – methu fforddio aros am 'swydd dda'

Dim digon o **fywyd cymdeithasol**

**Sefyllfaoedd diogel** cyfyngedig: yn teimlo'n rhan o'ch cymuned ond fel dieithryn mewn cymunedau clós eraill – llwytholdeb Rhondda

Opsiynau yn yr **economi anffurfiol/anghyfreithlon:** yn cynnig arian hawdd, statws

Diffyg model rôl lleol; ofn colli allan (gweld eraill nad ydynt yn gweithio, yn cael hwyl, yn chwarae gemau ac ati)

Gormod o **fywyd cymdeithasol** neu ddim digon ohono

Anodd cael **mynediad at wasanaethau** fel CAMHS

**Trafnidiaeth** gyhoeddus yn wael

**Ymddygiad**, arferion wedi'u dysgu (gan gynnwys gwaddol y cyfnod clo)

**Ffyrdd amgen o fyw** sy'n hwyl ac yn gaethiwus

**Stigma**: ddim eisiau bod yn 'berson diwerth ar y dôl' felly ddim yn cofrestru

Prinder **ail gyfle** os ydych yn cael trafferth yn yr ysgol; rhy ddrud i fynd yn ôl i addysg (mae'r cyrsiau am ddim ond nid yw'r arholiadau) a sut allwch chi pan fyddwch chi'n gwneud gwaith shifft?

**Camddefnyddio alcohol / cyffuriau**

**Statws**, rôl fel 'mam amser llawn'

Prin yw'r swyddi da/swyddi â hyfforddiant; diwylliannau gweithle gwenwynig; gwaith corfforol anodd, annymunol; stigma am swyddi sy'n iawn mewn gwirionedd (e.e. McDonalds)

Canolfan budd-daliadau nid canolfan waith: dim cymorth; annog dauwynebogrwydd (ni all unrhyw un chwilio am swydd am 30 awr yr wythnos)

Mae rhai pobl yn well eu byd ar fudd-daliadau yn hytrach na gweithio, os oes ganddynt blant

Ffynhonnell: Crëwyd ar gyfer yr adolygiad

* Mae’r cysyniad o led band meddyliol yn deillio o waith Mullainathan a Shafir (2013), a dynnodd sylw at y gofynion y mae tlodi yn eu rhoi ar egni a galluedd meddyliol pobl, gan nodi bod prinder yn golygu bod y tlawd yn fwy tebygol o wneud camgymeriadau a phenderfyniadau gwael na’r rhai ag incwm uwch.

*Cymhellion ariannol i ymgysylltu*

4.25. Nodir bod cymhellion ariannol, fel lwfansau hyfforddi, yn fwy effeithiol os ydynt yn hysbys yn eang ymhlith eu grŵp targed ac os nad yw'r broses weinyddol i'w derbyn rhy fiwrocrataidd (DfE, 2010; Llywodraeth Cymru, 2019; Green a Taylor, 2020). Mae tystiolaeth hefyd bod y disgwyliad o fudd ariannol yn ysgogwr allweddol, ac y gall cyfrifiadau ‘gwell eich byd’, sy'n dangos effaith bosibl symud i gyflogaeth (sy'n un o nodweddion cyffredin rhaglenni EET), fod o gymorth hefyd, ond nid yw'r elfen hon wedi'i gwerthuso'n gadarn (Green et al, 2015, a nodwyd yn Green a Taylor, 2020). Yng Nghymru:

- Mae TSC+Mwy yn cynnig lwfans hyfforddi i'r rhai 16-19 oed sy'n mynychu darpariaeth TSC+Mwy;
- mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn cynnig cymorth ariannol i bobl ifanc 16-18 oed sydd am barhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol; a
- mae Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn grant sy'n dibynnu ar brawf modd i'r rhai 19 oed a throsodd, sy'n ceisio parhau â'u dysgu mewn addysg bellach.

4.26. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu efallai nad yw cymhellion ariannol yn gweithio'n dda gyda rhai grwpiau; er enghraifft:

- nodir bod cymhelliant personol ac ansawdd perthnasoedd gwaith rhwng pobl ifanc a chynghorwyr neu fentoriaid yn fwy effeithiol na chymhellion ariannol ymhlith rhai grwpiau, fel unigolion sydd â dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol (Green a Taylor, 2020);
- mae cyfrifiad risg pobl ifanc[32] a chostau anariannol (fel yr amser sy'n ofynnol) yn ogystal â'r gwobrwyon ariannol posibl hefyd yn bwysig (SEU, 2005); a

[32] Er enghraifft, ceir tystiolaeth o Gwarant Ieuenctid: Sgwrs Genedlaethol y gall ofnau y bydd unigolyn neu ei aelwyd yn waeth eu byd yn ariannol (o ganlyniad i golli budd-daliadau) danseilio cymhelliant pobl ifanc, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n hawlio budd-daliadau anabledd neu fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â bod yn ofalwr.

- yn anaml iawn y mae penderfyniadau ac ymddygiad pobl ifanc yn ‘rhesymegol’ yn unig (yn yr ystyr o sicrhau'r enillion ariannol mwyaf posibl) oherwydd gall ffactorau fel emosiynau, normau cymdeithasol a stigma, i gyd lywio eu penderfyniadau (ILO, 2017; React, 2022).

4.27. Mae'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â chosbau ariannol, fel lleihau budd-daliadau lles neu eu tynnu'n ôl, yn gymysg; fel y mae un adolygiad yn nodi:

> ‘The consensus of the evidence is that compulsion to take part in interviews with caseworkers and in job search or face loss of benefits does seem to have an impact on worklessness, although it is not found consistently, and may not be large’ (LDA, 2006).

4.28. Fel y nodwyd uchod, yn aml y mae penderfyniadau pobl ifanc yn gyfyngedig i ystyriaethau ariannol neu'n ‘rhesymegol’ yn unig (React, 2022) a gall y rhai sy'n ymgysylltu o'u gwirfodd feddu ar fwy o gymhelliant (Green a Taylor, 2020). Yn y cyd-destun hwn, mae hefyd yn bwysig cofio bod amodoldeb lles yn golygu bod llawer o gynlluniau'n orfodol i'r rhai sy'n hawlio rhai budd-daliadau (IES, 2020).

4.29. At hynny, fel yr amlinellwyd uchod, mae diffyg cymhelliant pobl ifanc yn aml yn fwy o symptom cyfyngiadau sylfaenol eraill, sy'n gysylltiedig â diffyg galluoedd a/neu gyfleoedd. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn cael eu dileu gan gymhellion ariannol a'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel y ddibyniaeth ar gyfundrefnau cosbi a chymell cymharol fecanistig i geisio dylanwadu ar ymddygiad (SEU, 2005, t.39; Stewart a Wright, 2014).

### Beth arall allai weithio?

4.30. Cafodd amrywiaeth o syniadau a dulliau heb eu profi o ran nodi pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw eu cyflwyno gan gyfweleion, cyfranogwyr yng ngweithdy'r adolygiad ac yn y llenyddiaeth a adolygwyd.

*Meithrin ymwybyddiaeth ac annog pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth*

---

Mae hyn yn gyson â'r llenyddiaeth seicolegol sy'n tynnu sylw at osgoi colledion (tuedd wybyddol sy'n golygu bod ofn colledion posibl pobl yn fwy na'u gobaith o enillion posibl) (Kahaneman, 2011).

4.31. Mae'n debygol o fod yn ddefnyddiol annog hunanatgyfeiriadau, yn fwyaf cyffredin drwy ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol fel, er enghraifft, y mae'r adroddiad Gen Z yn argymell (Golley Slater, 2023) ac yn llai cyffredin, drwy argymhellion ar lafar ac ymgysylltu â chymheiriaid. Mae tystiolaeth Cysylltu Cymunedau yn awgrymu rôl bwysig i bobl leol wrth annog eu cymdogion i gymryd camau tuag at newid cadarnhaol i'w hunain a'u cymunedau (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol) (DCLG), (a nodwyd yn Green a Taylor, 2020);

4.32. Yng ngweithdy'r adolygiad roedd diddordeb hefyd mewn:

- ‘dylanwadu ar y dylanwadwyr’ fel y dywedodd un cyfrannwr; ‘cyrraedd y rhieni / teulu / cymuned o amgylch y person ifanc’; a
- ‘rôl gwaith ieuenctid datgysylltiedig wrth estyn allan i'r rhai ar eu pen eu hunain’.

*Dod o hyd i ‘atyniadau’ a'u creu er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc*

4.33. Fel y dywedodd un cyfwelai, ‘rhaid i chi ddod o hyd i rywbeth y gallwch ddal gafael arno, meithrin eu hyder a'u hymddiriedaeth’. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth cyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny; er enghraifft, gallai hyn gynnwys dysgu a gweithgareddau yn y gymuned gyda llwybrau cynnydd clir ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr nas clywir yn aml, fel menywod â lefelau sgiliau isel sydd â phlant ifanc (Green a Taylor, 2020), ac fel y dywedodd Williamson:

> ‘As a youth worker, I have always been deeply troubled when I have worked with young people whose primary preoccupation seems to be ‘killing time’. Surely it is possible to find forms of purposeful activity that may not be directly or immediately linked to the labour market but which may provide motivation, ‘occupation’, interest and direction in these young people’s lives. There may not be jobs, but there must be other things to do, although the development of such provision requires both careful listening and negotiation. It is not what most of these young people want – they want work, or education and training that leads to work – but they may be receptive to a more constructive use of their time rather than simply whiling it away’. (Williamson, 2010, t.8).

4.34. Mae'r dulliau hyn yn ei gwneud yn ofynnol cael ymwybyddiaeth o'r cynnig (h.y. bod pobl ifanc yn gwybod amdano); cynnig a ystyrir yn ddeniadol; ac yn enwedig lle mae'r

cynnig yn ymwneud â chymorth, cynnig y gall pobl ifanc fod yn hyderus ynddo y gall eu helpu ac y bydd yn gwneud hynny.

*Cyflymder, ymatebolrwydd a dibynadwyedd*

4.35. Nododd cyfweleion y gall cymhelliant pobl ifanc i ailymgysylltu fod yn un dros dro a/neu fregus, a'i bod yn hanfodol felly pan oeddent yn agored i ailymgysylltu neu ar ôl gwneud y penderfyniad i ailymgysylltu, nad oeddent wedyn yn gorfod aros. Nodwyd y gallai aros olygu bod y foment (neu'r cyfle) yn cael ei cholli; fodd bynnag, gallai oedi fod yn anochel pan, er enghraifft, nad oedd y ddarpariaeth ar gael ar unwaith neu pan oedd rhestrau aros eisoes. Awgrymwyd bod yn agored ac yn onest â phobl ifanc i sicrhau bod eu disgwyliadau'n realistig, a cheisio dod o hyd i ffyrdd o ‘ddal gafael’ arnynt wrth iddynt aros.

4.36. Nododd cyfweleion hefyd y gallai cymhelliant bregus pobl ifanc i ailymgysylltu fod wedi'i wreiddio mewn diffyg hyder a/neu ddiffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus. Felly, roedd yn bwysig peidio â siomi pobl ifanc oherwydd, os byddai hyn yn digwydd, roedd perygl y gallai gadarnhau ac atgyfnerthu eu diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau, gan ei gwneud hyd yn oed yn fwy anodd ymgysylltu â nhw yn y dyfodol; Mae pwysigrwydd darparu mewn modd effeithiol yn cael ei drafod ymhellach yn adran 8.

*Gwaith wedi'i dargedu gyda grwpiau lleiafrifol*

4.37. Mae Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn dadlau bod angen dulliau wedi'u targedu yn hytrach dulliau sy'n ddall o ran ethnigrwydd. Byddai'r rhain yn canolbwyntio ar rwystrau ac anghenion penodol grwpiau gwahanol o bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sydd â lefelau uwch o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd. O ystyried lefelau isel o ymwybyddiaeth o wasanaethau cyhoeddus, a'r lefelau isel o hyder ac ymddiriedaeth ynddynt, ystyrir bod anogaeth a sicrwydd gan gyfryngwyr y gellir ymddiried ynddynt sy'n adnabyddus yn y gymuned yn hanfodol wrth annog ymgysylltu cychwynnol (Green a Taylor, 2020). Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan gyfweleion ar gyfer yr adolygiad hwn. Yng Nghymru, roedd enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) fel prosiect Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth Sova, a ganolbwyntiodd ar gynorthwyo grwpiau o bobl Ddu, Asiaidd

ac ethnig leiafrifol. Mae'r rhain wedi dod i ben bellach (oherwydd bod y rhaglen CGE wedi dod i ben yng Nghymru).

*Gwella mynediad at gyfleoedd*

4.38. Nododd cyfweleion y gallai pobl ifanc, mewn ardaloedd gwledig, orfod teithio pellter hir, a oedd yn aml yn anodd os nad oedd ganddynt fynediad at drafnidiaeth breifat, oherwydd gallai trafnidiaeth gyhoeddus fod yn ddrud, yn annibynadwy, ac efallai nad yw'n cysylltu pobl ifanc â chyfleoedd EET yn hawdd. Cafodd camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn, fel gwasanaethau bysiau fflecsi[33] (er y nodwyd eu bod ymhell o fod yn boblogaidd yn gyffredinol ymhlith y rhai y cyfwelwyd â nhw) a'r dull prif ganolfan a lloerennau yn y strategaeth Llwybrau Gwledig[34] eu croesawu (gan gyfweleion ar gyfer yr adolygiad).

4.39. Yn ehangach, roedd cyfweleion (ar gyfer yr adolygiad) yn argymell gwella hygyrchedd ffisegol a seicolegol gwasanaethau cymorth EET drwy ddarparu cymorth lleol (cymunedol) sy'n seiliedig ar leoedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi bod y gwerthusiad o CfW a CfW+ wedi nodi, er y gallai canolfan gymunedol hwyluso'r trefniadau a bod yn angenrheidiol ar gyfer ymgysylltu, yn anaml roedd y ffaith bod y ganolfan mewn cymuned yn ddigon i ymgysylltu â phobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2023b). Mae enghraifft prosiect Ehangu Gorwelion Môn Cymunedau Ymlaen Môn, (gweler isod) yn amlygu bod canolfan ffisegol mewn cymunedau dim ond yn rhan o strategaeth ymgysylltu ehangach.

| **Cymunedau Ymlaen Môn: ymgysylltu â phobl ifanc** |
| --- |
| Fel y disgrifiodd un cyfwelai, yr ymgysylltu cychwynnol â phobl ifanc, a'u 'cael drwy'r drws' sy'n anodd. Nodwyd ei bod wedi mynd yn fwy anodd ymgysylltu â phobl ifanc ers y pandemig, ac roedd rhai ohonynt nad oeddent wedi cofrestru gydag unrhyw un ac nid oedd ganddynt 'unrhyw frwdfrydedd i fynd amdani' a/neu 'roeddent yn gyfforddus gartref'. Mewn ymateb, yn ogystal ag arferion cyffredin fel |

[33] Mae bysiau fflecsi yn gwasanaethu ardal, yn hytrach na llwybr sefydlog, a rhaid eu harchebu, ond maent yn darparu mwy o hyblygrwydd, oherwydd bod eu llwybrau'n newid yn dibynnu ar y lle y mae eu teithwyr am fynd iddo.

[34] Mae strategaeth Llwybr Gwledig Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull prif ganolfan a lloerennau i gysylltu cymunedau anghysbell yn eu pentref neu dref leol, ac yn ei dro mae hyn yn rhoi mynediad i gysylltiadau eraill ymhellach i ffwrdd.

gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau lleol, yn eu geiriau nhw, rhaid iddynt ‘feddwl y tu allan i'r blwch’; roedd hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda menter ‘gemau’ ar-lein yng nghanol y dref i ddarparu cyfleoedd i ddechrau sgyrsiau gyda phobl ifanc;
- nodi dymuniadau pobl ifanc a chanolbwyntio ar hynny; er enghraifft, disgrifiwyd sut y gwnaethant gyflwyno hyfforddiant ‘barista’ oherwydd bod y bobl ifanc yn credu bod hynny'n ‘cŵl’ ac roedd yn fwy anffurfiol hefyd (nid mewn ystafell ddosbarth) ac roedd galw am swyddi o'r fath yn yr ardal hefyd;
- cyflogi staff (mentoriaid yn yr achos hwn) sy'n gweithio gyda phobl ifanc ar ‘eu lefel nhw’, sy'n ‘gallu siarad â nhw nid eu beirniadu’. Gwnaethant ddisgrifio sut y mae ‘llawer o sefydliadau [eraill] yn dweud hynny, ond nid yw bob amser yn wir’. I sicrhau hyn, gwnaethant ddisgrifio cyflogi nifer o fentoriaid a chanddynt brofiad bywyd, a oedd wedi cael eu cynorthwyo eu hunain gan brosiectau eraill Môn CF a phobl o ‘gefndiroedd gwahanol’, a helpodd i ddod ag amrywiaeth o brofiadau, ond a oedd i gyd wedi cael ‘llawer o hyfforddiant’, sef mater a drafodir yn adran 8.

Nodwyd bod natur weladwy (gan gynnwys swyddfeydd ar y stryd fawr) ac enw da'r sefydliad, wedi'i feithrin dros ddegawd, yn bwysig hefyd. Roedd hyn yn golygu bod pobl yn ymwybodol ohono a'i staff, fel ‘y lle i fynd iddo’ i gael cymorth, ac roeddent yn hyderus neu'n ffyddiog ei bod yn debygol y gallent helpu (Llywodraeth Cymru, ar y gweill – profiadau cyfranogwr CfW). Gwnaethant ddisgrifio hefyd sut y maent, mewn ysgolion, yn ceisio gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET, a oedd yn golygu hyd yn oed os oeddent yn NEET yn ddiweddarach, roeddent yn gyfarwydd â Môn CF ac ‘mae'n llai brawychus iddynt’ [oherwydd hyn].

Esboniodd y cyfwelai unwaith yr oeddent wedi ‘eu cael drwy'r drws’ (a gwneud yr ymgysylltu cychwynnol hwnnw) gallent wedyn weithio i ddechrau ennyn hyder pobl ifanc ac yna eu cynorthwyo. Gwnaethant ddisgrifio sut y maent yn canolbwyntio ar fagu hyder i ddechrau, a sut y mae ‘rhai pobl ifanc yn dod i mewn gyda mam a dad i ddechrau ar gyfer y sesiwn gyntaf a'r ail sesiwn ac erbyn y drydedd sesiwn rydym wedi ennyn eu hyder’.

Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad)

*Sefydlogi, amynedd a dyfalbarhad*

4.40. Fel y nodwyd, yn ogystal â chymhelliant, mae angen i bobl ifanc feddu ar y gallu a'r cyfle i ymgysylltu â chymorth cyflogaeth; felly:

- mae'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel 'sefydlogi', sef sicrhau bod anghenion sylfaenol pobl yn cael eu diwallu, fel bod ganddynt y gallu ac yn gallu datblygu'r cymhelliant i ymgysylltu â chymorth cyflogaeth, wedi'i nodi fel rhywbeth a allai fod yn bwysig (Green a Taylor, 2020); a
- lle nad yw hyn yn bosibl, aros nes bod person ifanc yn barod i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth ac yn gallu gwneud hynny ac, fel yr awgrymodd un cyfrannwr at y gweithdy, yr 'angen am ymyriadau lluosog/wedi'u hailadrodd i ymgysylltu â [rhai] pobl ifanc'. Hefyd, fel y nododd un cyfwelai, 'amynedd'; gall ddigwydd 'yn y pen draw oherwydd eu bod nhw [y gwasanaeth cymorth EET] yn ddyfal ac yn dal ati'.

4.41. Mae anhawster ymgysylltu â pherson ifanc nad yw'n barod i newid (eto) wedi'i ddangos gan stori Kate, a amlinellir isod yn y testun mewn blwch.

**Aros am y trobwynt**

Mae Kate (nid ei henw go iawn) yn ferch ddeallus yn ei 20au sydd, er gwaethaf bywyd teuluol anodd, gan gynnwys mam a wnaeth ei cham-drin a thad a oedd yn gwerthu cyffuriau, wedi llwyddo yn yr ysgol a sicrhau prentisiaeth ym maes peirianneg. Roedd yn ymddangos bod ganddi ddyfodol disglair, hyd nes iddi ailddechrau camddefnyddio cyffuriau eto, gan golli gwaith a cholli ei phrentisiaeth yn y pen draw. Dechreuodd ennill arian ar wefan Only Fans, yn achlysurol i ddechrau, ac yna'n fwy rheolaidd. Mae bellach yn gweithio yn yr economi anffurfiol fel gweithiwr rhyw. Ymddengys fod ei rhagolygon ar gyfer ailymgysylltu yn wael, hyd nes iddi, er enghraifft, brofi trobwynt yn ei bywyd ac ar yr adeg honno efallai y bydd yn ailasesu ei nodau.

Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad)

4.42. Yn yr un modd, dadleuodd un o'r cyfweleion fod ‘gwaith yn ddylanwad sy'n sefydlogi’ ac felly mae cael person ifanc i waith ac yna ei gefnogi gyda hyfforddiant yn y swydd, help i gael llety a'i reoli, help gydag iechyd meddwl, hyfforddiant teithio a chymorth byw'n annibynnol yn aml yn fwy cynhyrchiol nag ymdrin â'r pethau hyn fel rhagflaenydd i weithio. Ond gwnaeth bwysleisio, er mwyn gallu cynnal gwaith, mae angen cymorth mewn gwaith arnynt, fel cyflogaeth â chymorth gyda hyfforddwyr swyddi a thiwtoriaid, a drafodir ymhellach yn adran 6. Roeddent yn argymell yn benodol y model Cymorth a Lleoliad i Unigolion, a drafodir ymhellach yn adran 6, ar y sail bod cael rhywun i waith, a'i gynorthwyo i gynnal y gwaith hwnnw, yn ‘sefydlogi ei fywyd cyfan’.

# 5. Cymorth i symud tuag at ailymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

5.1. Ar ôl ymgysylltu â pherson ifanc, mae angen cymorth arno i symud ymlaen, i symud yn agosach at ailymgysylltu ag EET. Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn nodi nifer o nodweddion cymorth effeithiol er mwyn helpu i feithrin cymhelliant, galluogrwydd a/neu fynediad at gyfleoedd (ac felly newid ei ymddygiad), a drafodir yn yr adran hon.

**Dull gweithredu cyfannol, sy'n canolbwyntio ar y person**

5.2. Fel y mae adran 3 yn dangos, mae anghenion cymorth pobl ifanc yn amrywiol. Mae angen ymyriadau sydyn, byr yn unig ar rai pobl ifanc i ddiwallu anghenion cyflogaeth penodol, er enghraifft ardystiad sy'n ymwneud â'r gwaith fel cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2022) ac mae gan eraill anghenion mwy cymhleth, amlweddog. Felly, fel y mae ffigur 5.1 yn dangos, nodir yn gyson bod effeithiolrwydd yr hyn a ddisgrifir yn amrywiol fel ymyriadau 'aml-elfen' 'cofleidiol' neu 'gynhwysfawr', a all wella galluogrwydd pobl ifanc, eu cymhelliant, eu mynediad at gyfleoedd a/neu eu hymddygiad, yn bwysig (gweler yr SEU, 2005; Mawn et al., 2017; ILO, 2017) ac ystyrir eu bod yn fwy effeithiol nag ymyriadau ynysig neu ddatgysylltiedig (ILO, 2017)[35]. Mae hyn fel arfer yn cynnwys rhaglenni sy'n integreiddio:


- cymorth bugeiliol (emosiynol a chymdeithasol), fel anogaeth a magu hyder (i gynnal cymhelliant yn wyneb sawl gwrthodiad gan gyflogwyr);
- cymorth ymarferol, fel gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, help gyda curricula vitae (CVs) a chwilio am swyddi; a
- broceriaeth i gyfleoedd (gan gynnwys mynediad at hyfforddiant a phrofiad gwaith, a drafodir isod) a, phan fo angen, i wasanaethau cymorth eraill (er enghraifft, gwasanaethau iechyd, tai neu gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol).

5.3. At hynny, nodir yn gyson bod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person yn bwysig wrth sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra yn ôl anghenion yr unigolyn (gan fod

[35]Er enghraifft, nodir efallai na fydd hyfforddiant a wneir ar wahân i gymorth gyda chwilio am swydd a chyflwyno yn helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i waith (LDA, 2006).

anghenion yn amrywio'n sylweddol), gan wneud y mwyaf o gost-effeithiolrwydd ymyriadau (DfE, 2010; Green a Taylor, 2020; LDA, 2020; Llywodraeth y DU, 2022). Yng Nghymru, mae hyn yn nodwedd gyffredin o raglenni cymorth cyflogaeth fel CfW+ a Cymru'n Gweithio (Llywodraeth Cymru, 2023b; Llywodraeth Cymru, 2020).

**Ffigur 5.1. Elfennau cymorth**




Ffynhonnell: Ffigur a grëwyd ar gyfer yr adolygiad

5.4. Serch hynny, canfyddiad cyffredin yw nad yw dulliau gweithredu hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y person yn effeithiol i bawb. Y bobl ifanc mwyaf difreintiedig yw'r rhai lleiaf tebygol o gyflawni deilliannau cadarnhaol o ran ailymgysylltu ag EET

(Mawn et al., 2017), ond gall ffyrdd eraill fod o fudd iddynt (fel cynnydd mewn hunanhyder) (Llywodraeth Cymru, i ddod).

**Rôl oedolion y gellir ymddiried ynddynt**

5.5. Nodir yn gyson bod rôl oedolyn y gellir ymddiried ynddo gan weithwyr proffesiynol fel ‘gweithwyr allweddol’, ‘cynghorwyr’, ‘mentoriaid’ neu debyg, yn bwysig; mae’r gweithwyr hyn yn gallu:

- galluogi (a llywio) gwaith i deilwra cymorth, drwy sicrhau bod dyheadau, galluogrwydd, mynediad at gyfleoedd, cymhelliant ac ymddygiad person ifanc wedi’u deall;
- rhoi cymorth bugeiliol (emosiynol a chymdeithasol), fel anogaeth i helpu i newid agweddau ac ymddygiad a helpu i roi hyder i bobl ifanc gymryd risgiau, am eu bod yn gwybod bod rhywun ‘yno yn gefn iddynt’ (fel y dywedodd un cyfwelai), gan helpu i hyrwyddo eu buddiannau, a’u rhoi nhw’n gyntaf;
- darparu cymorth ymarferol yn uniongyrchol, fel cymorth gyda chynlluniau gweithredu[36], datblygu CVs, cofrestru ar wefannau recriwtio ar gyfer swyddi a llywio prosesau cynyddol gymhleth ar gyfer ymgeisio am swyddi; a
- cysylltu unigolion â chymorth, a ddisgrifir weithiau fel ‘broceriaeth’ neu ‘gydgysylltu’ (Martin a Grubb, 2001; DfE, 2010; ILO, 2017; DfE, 2020; Llywodraeth y DU, 2022).

5.6. Fel y mae un astudiaeth yn nodi, mae oedolion y gellir ymddiried ynddynt sy’n cyflawni’r rolau gwahanol hyn yn helpu pobl ifanc i gael y mwyaf o’u cyfranogiad ar y rhaglen (DfE, 2010). Mewn modd tebyg, mae Green a Taylor (2020) yn nodi sut y mae oedolion y gellir ymddiried ynddynt yn cefnogi cynnydd drwy helpu pobl ifanc i gydnabod y sgiliau a’r profiadau y maent wedi’u cael drwy wirfoddoli ac wrth ddeall sut y gallant ddefnyddio’r sgiliau hyn i symud ymlaen mewn addysg neu gyflogaeth. Gall eu rolau gwahanol, yn dibynnu ar sefyllfa’r unigolyn sydd ar y daith chwilio am swydd, gynnwys gwaith ieuenctid, cyngor gyrfa (gwybodaeth, cyngor ac arweiniad), a rôl gweithiwr proffesiynol arweiniol (SEU, 2005; Green a Taylor, 2020).

---

36 Fel y mae un astudiaeth yn nodi, mae cymorth cynghori effeithiol yn aml yn canolbwyntio ar dorri camau gweithredu’n gyfres o gamau bach cyflawnadwy fel y gall cyfranogwyr a’u cynghorwyr arsylwi ar y newidiadau sy’n cael eu cyflawni – cynlluniau gweithredu (IES, 2020, t.8).

5.7. Fel y nodwyd, yng Nghymru, mae oedolion y gellir ymddiried ynddynt, fel gweithwyr ieuenctid, yn rhan allweddol o gynnig cymorth y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i bobl 16-18 oed. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y diffiniad neu'r cyllid ar gyfer eu rôl wrth gefnogi'r rhai 19-24 oed i ailymgysylltu ag EET, yn llai clir, ers i'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ganolbwyntio o'r newydd ar bobl ifanc 11-18 oed.[37] Gall staff mewn rhaglenni megis CfW+ hefyd fod â rôl oedolyn y gellir ymddiried ynddo, ond dim ond y rhai sydd eisoes wedi ymgysylltu â rhaglen fel CfW+ y maent yn eu cefnogi.

**Rhaglenni peilot Oedolion sy'n Wynebu Allgáu Cronig: rôl oedolion y gellir ymddiried ynddynt**

Sefydlwyd y rhaglen Oedolion sy'n Wynebu Allgáu Cronig yn 2007 i gefnogi oedolion a oedd yn byw bywydau anhrefnus neu ynysig ac a oedd yn anodd eu cyrraedd, fel rhai gweithwyr rhyw, pobl sy'n cysgu allan, pobl sy'n yfed ar y stryd ag anawsterau iechyd meddwl a dioddefwyr cam-drin domestig. Roeddent yn bobl a oedd yn cael trafferth gyda digwyddiadau trawmatig, neu'n methu adfer ohonynt, ac na allent gael mynediad at help gan ffrindiau, teulu neu wasanaethau a/neu na fyddent yn barod i gael mynediad at help.

Nododd y gwerthusiad fod gweithwyr y rhaglenni peilot yn aml yn gweithio fel oedolion cyson y gellir ymddiried ynddynt sy'n helpu'r bobl fwyaf anhrefnus ac ynysig i lywio'r gwasanaethau lleol a symud rhwng pwyntiau pontio yn eu bywydau (fel symud i i lety mwy diogel). Roedd y rhaglenni peilot yn effeithiol wrth wella sefyllfaoedd oedolion ac yn enwedig yn eu hiechyd, ac roedd tri o'r deuddeg prosiect a oedd yn darparu ymyriadau i fynd i'r afael â bod heb waith yn cael dylanwad sylweddol ar statws cyflogaeth eu cleientiaid.

Ffynhonnell: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2011

[37] Er enghraifft, mae'r drafodaeth am gyflogaeth yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid bresennol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019) yn canolbwyntio ar eu rôl yn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a oedd, pan ddatblygwyd y strategaeth, yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-25 oed (yn hytrach nag 11-18 oed).

5.8. Nodir bod rhywun y mae pobl ifanc yn meddwl ei fod yn poeni amdanynt, y maent yn gallu ymddiried ynddo a dibynnu arno, o'r pwys mwyaf (SEU, 2005). Fel y dywedodd un cyfwelai, mae'r rôl yn 'ymwneud ag amser, amynedd, hwyl, ffiniau, sgil, y berthynas sydd gan y person ifanc â'r gweithiwr'. Ystyrir ei bod yn hynod bwysig, er enghraifft, pan na all rhieni pobl ifanc gyflawni'r rôl neu pan fyddant yn rhwystr i ailymgysylltiad person ifanc ag EET. Yn ogystal, mae rôl yr oedolyn y gellir ymddiried ynddo fel arfer yn rhan bwysig o ddulliau sy'n canolbwyntio ar y person sydd, fel yr amlinellir yn adran 4, yn helpu i ddyneiddio gwasanaethau a phrofiadau pobl ifanc ohonynt.

5.9. Nid yw rôl yr oedolyn y gellir ymddiried ynddo'n unigryw i wasanaethau cymorth EET (ac, er enghraifft, gellir ei chanfod mewn amrywiaeth o leoliadau addysg a gwasanaethau ieuenctid) ond yr hyn a ddylai wahaniaethu'r rôl yn y cyd-destun hwn yw pwyslais ar gyflogaeth. Fel y nododd un cyfwelai, heb hyn, mae risg y bydd yn dod yn rôl gweithiwr cymorth fwy cyffredinol, a bydd y cyfle, pan fo'n briodol, i annog a herio person ifanc i symud tuag at ailymgysylltu ag EET a chymryd risgiau o bosibl a gwneud penderfyniadau anodd, yn cael ei golli. Yn yr un modd, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio dull cyfannol (yn hytrach na chanolbwyntio'n gul ar EET), sy'n cynnwys, er enghraifft, canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc, eu tai a'u hymddygiad oherwydd, fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad yn amlinellu, y gall y rhain i gyd effeithio ar ragolygon pobl ifanc ar gyfer ailymgysylltu ag EET.

5.10. Mae astudiaethau'n tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd ansawdd a chysondeb y cymorth a ddarperir gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnwys eu:

- gwybodaeth am wasanaethau cymorth a chyfleoedd cyflogaeth lleol[38];
- empathi a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys y gallu i feithrin cydberthynas, ymddiriedaeth a pharch gyda phobl ifanc a hefyd, yn bwysig,

[38] Yn y cyd-destun hwn, nododd y gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith nad oedd "rhai mentoriaid cymheiriaid yn teimlo'n ddigon cymwys nac yn hyderus i gynnig cymorth yn gysylltiedig â chyflogadwyedd, ac felly gall rôl arbenigol cyflogaeth ychwanegu gwerth pendant"(Llywodraeth Cymru, 2023c).

gyda gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill (fel y gallant gael rôl 'gweithiwr proffesiynol arweiniol[39]'); a

- dibynadwyedd (gwneud yr hyn y gwnaethant ddweud y byddent yn ei wneud) a sefydlogrwydd (drwy leihau trosiant staff) (Green a Taylor, 2020).

**Gwella galluogrwydd pobl ifanc**

5.11. Nodir yn gyson bod gwella galluogrwydd pobl ifanc i chwilio am gyfleoedd EET, ac achub arnynt, yn bwysig ac yn angenrheidiol er mwyn helpu i ailymgysylltu ag EET. Gall hyn gynnwys addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli a dysgu mwy anffurfiol, er mwyn:

- cryfhau sgiliau hanfodol (gan gynnwys sgiliau Saesneg, pan fo angen);
- cryfhau sgiliau cymdeithasol ac emosiynol;
- datblygu ymddygiad priodol ar gyfer y gweithle[40];
- ennill ardystiad sy'n ymwneud â'r gwaith (er enghraifft, cardiau'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu neu Awdurdod y Diwydiant Diogelwch), sgiliau a/neu gymwysterau technegol/galwedigaethol (er enghraifft, hylendid bwyd); a
- gwella sgiliau chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt (er enghraifft, gwella CVs a pharatoi at gyfweliadau) (LDA, 2006; ILO, 2017; Green a Taylor, 2020; Llywodraeth y DU, 2022).

*Ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogwyr*

5.12. Nodir bod addysg a hyfforddiant yn gyfrwng allweddol i wella galluogrwydd pobl ifanc (gweler y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020) ac mae'n elfen gyffredin o wasanaethau EET, fel CfW+ a Twf Swyddi Cymru+. Er nad yw'n benodol i bobl ifanc, mae'r Ganolfan Beth sy'n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol yn nodi bod hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth neu enillion cyfranogwyr mewn tua hanner y gwerthusiadau a adolygwyd (Canolfan Beth sy'n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol, 2016), er bod astudiaethau eraill hefyd yn nodi mai dim ond ar ôl

---

39 Gweithiwr proffesiynol arweiniol sy'n helpu i frocera mynediad at ymateb y gwasanaethau gwahanol sy'n ymwneud â chefnogi person ifanc, y cymorth ganddynt, a chydgysylltu hynny (SEU, 2005).

40 Mae angen help yn aml ar bobl ifanc ddifreintiedig â phrofiad gwaith cyfyngedig neu ddim profiad gwaith o gwbl. Mae hyn yn cynnwys gwisgo'n briodol, hylendid personol, sut i ryngweithio â chydweithwyr a goruchwylwyr a deall bod cael cyfarwyddiadau, a'u dilyn, yn rhan arferol o fywyd gwaith ac nad yw'n arwydd bod yr unigolyn sy'n cael y gorchmynion yn cael ei drin yn wahanol (LDA, 2006).

nifer o flynyddoedd y gellir mesur effaith hyfforddiant ffurfiol o ran cael swyddi a chadw gweithwyr (Martin a Grubb, 2001; LDA, 2006).

5.13. Wrth asesu effaith, mae hefyd yn bwysig nodi y gall pobl ifanc, yn enwedig y rhai â phrofiadau negyddol o'r ysgol, fod yn amharod i ymgysylltu, yn enwedig mewn darpariaeth strwythuredig mewn ystafell ddosbarth (Llywodraeth y DU, 2022). Serch hynny, gall hyd yn oed y rhai sydd wedi gwneud yn dda yn yr ysgol, ond sydd wedi cael trafferth pontio i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16, a/neu y tarfwyd ar eu haddysg gan y pandemig, fod â diffyg hyder wrth ailymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant hyd yn oed, er enghraifft, pan fo'n fwy anffurfiol (ac nid mewn ystafell ddosbarth). At hynny, mae'n bosibl y bydd pobl ifanc a fyddai'n cael budd o addysg neu hyfforddiant (wrth wella eu rhagolygon ar gyfer cynnydd) yn dewis ceisio dod o hyd i gyflogaeth yn gyntaf yn hytrach na gohirio mynd yn ôl i'r farchnad lafur o bosibl drwy ymgymryd ag addysg neu leoliadau hyfforddiant neu waith (a drafodir isod) (Llywodraeth Cymru, 2023b).

5.14. Nid oes llawer o dystiolaeth yn yr adolygiad llenyddiaeth o werth hyfforddiant er mwyn hyfforddiant ac, yn lle hynny, mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn nodi pwysigrwydd sicrhau mai'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sy'n cael eu meithrin yw'r rhai sydd eu hangen ar bobl ifanc er mwyn ailymgysylltu'n llwyddiannus ag EET. Mae hyn yn gofyn dealltwriaeth o ddisgwyliadau cyflogwyr, y bylchau sgiliau a'r diffygion sydd gan bobl ifanc unigol, a'u cymhellion (neu eu diddordebau) a'u galluogrwydd[41] (Martin a Grubb, 2001; LDA, 2006; Green a Taylor, 2020).

5.15. Fel y mae Green a Taylor (2020) yn nodi, mae cysylltiadau â chyflogwyr yn hanfodol i lwyddiant yn y daith chwilio am swydd – cyflogwyr yw porthorion swyddi, felly mae'n bwysig deall eu gweithdrefnau recriwtio a dethol. Yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant galwedigaethol neu dechnegol, nodir yn gyson bod ymgysylltu â chyflogwyr yn bwysig wrth sicrhau perthnasedd hyfforddiant, ac mae paru hyfforddiant i ofynion y farchnad lafur yn helpu i sicrhau bod hyfforddiant yn darparu llwybrau i gyflogaeth (ac felly mae hefyd yn gwella mynediad at gyfleoedd) (Martin a Grubb, 2001;LDA, 2006; Llywodraeth y DU, 2022). Mae tystiolaeth o nifer o

[41] Gall methu mynd ati i baru lefel yr addysg neu hyfforddiant â galluogrwydd y person ifanc (ei sgiliau a'i wybodaeth) fod yn niweidiol a gall, er enghraifft, wneud i bobl ifanc golli cymhelliant.

raglenni'n nodi ei bod yn werth cael staff pwrpasol arbenigol mewn rolau ymgysylltu â chyflogwyr a'u cynnwys (Green a Taylor, 2020). Gall hyn gynnwys dull 'asiantaeth' neu ddull 'unigol' gyda'r cyntaf yn cynnig atebion recriwtio ehangach (fel arfer) i gyflogwyr mwy â chysylltiadau da â darparwyr, a'r olaf yn canolbwyntio ar froceriaeth unigol, yn aml i unigolion sy'n wynebu'r heriau mwyaf yn y farchnad lafur (ibid.).

*Lleoliadau gwaith*

5.16. Mae ymchwil yn nodi y gall lleoliadau gwaith fod yn ddefnyddiol wrth ddarparu dealltwriaeth o amgylcheddau gwaith gwahanol ac, wrth integreiddio hynny â hyfforddiant i sicrhau bod gan bobl ifanc y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen, mae'n anfon arwydd gwerthfawr at gyflogwyr ynghylch cyflogadwyedd ymgeisydd (Green a Taylor, 2020). Yng Nghymru, mae lleoliadau gwaith yn un o nodweddion rhaglenni fel TSC+Mwy a CfW+. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod llai o bobl na'r disgwyl wedi ymgymryd â lleoliadau gwaith ar CfW. Mae'n ymddangos mai rhan o'r rheswm dros hyn yw bod llawer o gyfranogwyr wedi dewis cyflogaeth yn hytrach na hyfforddiant yn gyntaf (Llywodraeth Cymru, 2023a).

**Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad**

5.17. Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar chwilio am swyddi, ymgeisio a chyfleoedd cyflogaeth (gan gynnwys paru pobl i swyddi) i gyd yn bwysig, ac yn aml ymysg yr ymyriadau lleiaf costus, ond yn aml mae hynny'n cael ei esgeuluso mewn gwerthusiadau (Martin a Grubb, 2001); nodir y canlynol:

- mae diffyg mynediad at wybodaeth am y farchnad swyddi, gan gynnwys sianeli recriwtio cyflogwyr, yn atal pobl yn y DU sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor rhag sicrhau cyflogaeth mewn marchnadoedd llafur bywiog neu rai sy'n gwella (Green a Taylor, 2020); a
- mae agwedd rhai ceiswyr gwaith yn lleol sydd, yn ei thro, yn eu cyfyngu i set lai o gyfleoedd gwaith lleol na'r rhai sy'n bodoli mewn gwirionedd (sy'n golygu bod eu hasesiad 'goddrychol' o gyfleoedd cyflogaeth yn fwy cyfyngedig nag y byddai asesiad mwy 'gwrthrychol' yn awgrymu) (SEU, 2005;Green a Taylor, 2020).

5.18. Yng Nghymru, mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar chwilio am swyddi, ymgeisio a chyfleoedd cyflogaeth yn rhan allweddol o gynnig Cymru'n Gweithio (Llywodraeth Cymru 2022) a rhaglenni cymorth cyflogaeth fel CfW+ (Llywodraeth Cymru, 2023a).

**Gwella mynediad at gyfleoedd**

5.19. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o gyfleoedd EET, gall ymyriadau geisio datgymalu rhwystrau sefyllfaol fel cyfrifoldebau gofalu, neu helpu

pobl ifanc i oresgyn y rhwystrau hynny, a/neu greu cyfleoedd newydd, er enghraifft, drwy gymorthdaliadau i gyflogwyr.

*Gofal plant*

5.20. Er y gall gofal plant fod yn rhwystr pwysig i rai, yn enwedig menywod ifanc, cymysg yw'r dystiolaeth o gosteffeithiolrwydd cymorth gofal plant. Nododd gwerthusiad effaith Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) (er nad oedd yn gyfyngedig i bobl 16 i 24 oed) ei fod yn helpu pobl i fynd yn ôl i fyd gwaith na fyddent wedi gwneud hynny fel arall[42] (Llywodraeth Cymru, 2022e). Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw gofal plant am ddim neu â chymhorthdal yn newid ymddygiad rhieni, gan y bydd llawer o'r rhai a fyddai'n cael budd ohono eisoes yn defnyddio gofal plant ac yn talu amdano (y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2023). Ategir hyn gan y gwerthusiad o'r cynnig gofal plant yng Nghymru (nad yw'n gyfyngedig i bobl ifanc), a ganfu, gan ddibynnu ar ddata hunangofnodedig ar gyfer arolwg o rieni, y 'nododd ychydig dros hanner y rheini a holwyd ym mlwyddyn pump (52 y cant) y byddai eu sefyllfa o ran cyflogaeth yr un fath neu'n debyg iawn i'r hyn ydoedd ar hyn o bryd hyd yn oed pe na baent wedi gallu manteisio ar y Cynnig.' Yn yr un modd, roedd hanner yn teimlo y byddai eu sefyllfa o ran cyflogaeth yn wahanol ac y byddent, er enghraifft, yn gweithio llai o oriau heb y Cynnig[43] (Llywodraeth Cymru, 2022f, t.42).

5.21. Yn ogystal â bod yn gostus, gall fod yn anodd trefnu gofal plant, yn enwedig, er enghraifft, pan fo angen darpariaeth wahanol ar blant o wahanol oedrannau, pan fo ganddynt anghenion ychwanegol, a/neu pan fo angen gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol[44] (LDA, 2006). Ategir hyn gan y gwerthusiad o'r cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, sy'n nodi:

> 'Yn aml iawn nad problemau'n ymwneud ag argaeledd neu fforddiadwyedd oedd yr unig rwystrau sy'n gysylltiedig â gofal plant a wynebir gan rieni. Roedd y rhwystrau a wynebwyd gan gyfranogwyr PaCE yn gyffredinol yn fwy cymhleth ac

---

[42] Mae'r gwerthusiad effaith yn amcangyfrif bod 30 y cant yn fwy o bobl ifanc yn symud ymlaen i gael gwaith na'r rhai a fyddai wedi gwneud hynny heb y rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2022e).

[43] Nododd dros draean o'r ymatebwyr (37 y cant), heb y Cynnig, y byddent yn gweithio llai o oriau a dywedodd 10 y cant arall y byddent mewn swydd â llai o gyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd. Dywedodd yr un gyfran, sef 10 y cant, na fyddent yn gweithio o gwbl ac roedd naw y cant arall yn meddwl y byddent mewn swydd â thâl is.

[44] At hynny, nodir y gall fod yn anodd trefnu gofal plant ffurfiol ar fyr rybudd ac y gall gofal plant anffurfiol chwalu (LDA, 2006).

yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth o'r 'farchnad' gofal plant a'r cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn cael mynediad at ofal plant' (Llywodraeth Cymru, 2022e, t.53).

**Digartrefedd**

5.22. Mae digartrefedd yn rhwystr sefyllfaol allweddol arall i rai pobl ifanc ac mae cyfraddau diweithdra ymhlith y rhai sy'n ddigartref yn llawer uwch na'r boblogaeth gyffredinol (Canolfan Effaith Digartrefedd, 2022). Er bod y rhan fwyaf o bobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd wedi gweithio yn y gorffennol, ac am weithio, gall ansefydlogrwydd ym mywydau pobl ifanc eu digalonni a'i gwneud yn anodd iddynt ymgysylltu â gwasanaethau cymorth ac mae hynny'n rhwystro eu gallu i gynnal eu hymgysylltiad. Gall anawsterau sy'n cyd-ddigwydd, fel problemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau leihau eu galluogrwydd ymhellach a gwaethygu'r anawsterau y maent yn eu hwynebu, a gall cyflogwyr fod yn amharod i recriwtio pobl ifanc ddigartref, gan leihau ymhellach eu mynediad at gyfleoedd. Mae'r gwahaniaethau yn eu galluogrwydd yn golygu bod eu cymhellion, eu mynediad at gyfleoedd a'u hymddygiad hefyd yn wahanol iawn. (Green a Taylor, 2020; Canolfan Effaith Digartrefedd, 2022).

5.23. Fodd bynnag, fel y rhan fwyaf o grwpiau, mae pobl ifanc ddigartref yn amrywiol. Bydd angen cymorth 'ysgafn' yn unig ar rai i'w helpu i adfer o 'argyfwng digartrefedd' ac ymgysylltu ag EET, a bydd angen 'ymyriadau mwy arbenigol' ar eraill. Er, yn y llenyddiaeth a adolygwyd, yr ystyriwyd ei bod yn bwysig mynd i'r afael â hyn, prin oedd yr enghreifftiau o ymyriadau ar gyfer digartrefedd yn benodol, heblaw am y prosiect Transitional Space (Green a Taylor, 2020) a'r model Cymorth a Lleoliad i Unigolion (gweler y testun mewn blwch), y mae'r Ganolfan Effaith Digartrefedd, sy'n rhan o'r rhwydwaith Beth sy'n Gweithio, yn nodi bod ganddynt y dystiolaeth orau o effeithiolrwydd (Canolfan Effaith Digartrefedd, 2022). Gwnaeth un cyfwelai ei nodi fel arfer effeithiol hefyd.

**Cymorth a Lleoliad i Unigolion**

Datblygwyd Cymorth a Lleoliad i Unigolion yn gyntaf yn yr Unol Daleithiau, i gefnogi oedolion â salwch meddwl difrifol ac, ers hynny, mae wedi'i ddatblygu ar

gyfer grwpiau eraill, gan gynnwys pobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl sy'n cael profiad o ddigartrefedd; mae'r canlynol ymysg ei egwyddorion allweddol:

• dim eithriadau, gyda phawb sydd am weithio'n cael cymorth, beth bynnag fo'u pellter ymddangosiadol i'r farchnad lafur;

• cyflogaeth gystadleuol cyn gynted â phosibl, gyda'r bwriad o gael swyddi â thâl yn y gymuned mor gyflym â mis ar ôl cyfarfod ar gyfer y proffil galwedigaethol cychwynnol; a

• cymorth parhaus cyhyd ag y mae ei angen, sy'n cynnwys cymorth unigol ac integredig ar gyfer anghenion galwedigaethol a meddyliol ac anghenion eraill gan gynnwys llety diogel, sefydlog i bobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd.

Ffynhonnell: Canolfan Effaith Digartrefedd (2022); gweler hefyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2019).

5.24. Fodd bynnag, mae'r Ganolfan Effaith Digartrefedd hefyd yn nodi bod pobl ifanc yn fwy tebygol o gael cyflogaeth ansicr â thâl isel a/neu amrywiol, na'r rhai 25 oed a throsodd. Mae hyn yn bryder allweddol, gan y gall y math hwn o gyflogaeth fod yn annigonol i alluogi pobl ifanc i adael digartrefedd ac y gall cyfran sylweddol o'r rhai sy'n cael cyflogaeth gyda chymorth gwasanaethau EET gael trafferth ei chynnal neu wella eu hincwm yn sylweddol (Canolfan Effaith Digartrefedd, 2022, t.6).

**Cyflogaeth â chymorth**

5.25. Dangoswyd bod cyflogaeth â chymorth yn effeithiol i'r rhai ag anawsterau iechyd meddwl (Green a Taylor, 2020; Thompson et al., 2021) a dadleuir, er nad oes tystiolaeth gadarn ohoni, ei bod hefyd yn effeithiol i bobl ag anableddau (Beyer a Robinson, 2009; y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2019).

**Engage to Change**

Nod prosiect Engage to Change yw cefnogi pobl ifanc 16 i 25 oed sydd ag anhawster dysgu, anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, i gyflawni eu potensial llawn.

Soniodd cyfweleion fod asiantaeth ddarparu, yn dilyn atgyfeiriad, yn gwneud asesiad a gwaith proffilio galwedigaethol i nodi galluogrwydd unigolyn, ei ddyheadau, y pethau y mae'n eu hoffi a'r pethau y mae'n well ganddo. Wedyn, mae hyn yn llywio rhaglen o gymorth i ddiwallu anghenion yr unigolyn; mae hyn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- paratoi'r person ifanc, a meithrin ei alluogrwydd, er enghraifft, drwy interniaethau â chymorth sy'n cynnwys busnes lletyol a choleg (lle mae person ifanc yn cofrestru ar gwrs byw'n annibynnol ac yn treulio rhywfaint o amser yn y coleg bob wythnos ond sydd yn y gwaith yn bennaf), paratoi at waith, gan gynnwys gwaith 'cysgodi' a hyfforddiant, fel cyrsiau achrededig (e.e. hylendid bwyd) a, phan nodir swydd benodol, mae hyfforddwr swydd yn nodi'r hyn sydd ei angen, yna mae'n addysgu tasgau swydd i'r person ifanc cyn tynnu'n ôl yn raddol, wrth gynnal cyswllt; a
- cynyddu mynediad at gyfleoedd drwy nodi swyddi a gweithio gyda chyflogwyr, er enghraifft, drwy ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd, gwirio bod y disgrifiad swydd yn glir ac yn briodol ac, mewn rhai achosion, ddarparu grant chwe mis i gyflogwyr, y gellir ei ddefnyddio i dalu cyflogau, ar y ddealltwriaeth y byddant yn parhau i gyflogi'r person ifanc wedyn. Disgrifiodd cyfweleion sut y maent yn anelu at gyflogwyr a all gynnig amrywiaeth o gyfleoedd, fel ysbyty.
- darparu cymorth yn y gwaith drwy fentora a chymorth hyfforddwr swydd.

Os na fydd y person ifanc yn cael cynnig swydd, bydd yn cael ei atgyfeirio yn ôl i'r prosiect.

Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad)

5.26. Yng Nghymru, cefnogodd Twf Swyddi Cymru a Mwy gynllun treialu cyflogaeth â chymorth i wella deilliannau i bobl ifanc ag anabledd/anhawster dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth, drwy gynyddu nifer y bobl sy'n symud ymlaen i gyflogaeth â thâl neu brentisiaethau. Nododd y gwerthusiad o'r cynllun treialu, a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu a deilliannau, ond nad oedd yn cynnwys gwerthusiad effaith, y canlynol:

- roedd nifer yr atgyfeiriadau i'r cynllun treialu braidd yn is na'r disgwyl;
- roedd hyblygrwydd y rhaglen ac ehangder y gweithgareddau a'r ystod o gymorth a ddarparwyd gan hyfforddwyr swyddi yn effeithiol wrth gefnogi dysgwyr;
- ond roedd '[b]arn gymysg am effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gynigiwyd trwy'r cynllun treialu' (Llywodraeth Cymru, 2023d).

**Marchnadoedd llafur trosiannol a chymorthdaliadau cyflog**

5.27. Mae tystiolaeth y gall marchnadoedd llafur trosiannol[45] fynd i'r afael â rhai o ddiffygion creu swyddi yn y sector cyhoeddus wrth gynnal buddiannau gwella sgiliau gwaith, hyder a pharodrwydd i weithio (y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020). Yng Nghymru, mae rhaglenni fel TSC+Mwy yn cynnig cymhorthdal cyflog i gyflogwyr ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a gyflogir drwy'r Warant i Bobl Ifanc.

5.28. Yn gyffredinol, cymysg yw'r dystiolaeth o effeithiolrwydd cymorthdaliadau cyflog (ILO, 2017;Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae rhai adolygiadau'n dadlau, yn enwedig pan gânt eu hintegreiddio â chymorth arall i bobl ifanc a chynnwys cyflogwyr yn weithredol, y gallant fod yn effeithiol wrth gefnogi pobl ifanc na fyddent yn cael eu hystyried gan gyflogwyr fel arall, i gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o ychwanegedd yn gymedrol, yn enwedig os na fydd rhaglenni'n cael eu targedu at y rhai sy'n annhebygol o ymgymryd â chyflogaeth heb gymhorthdal (Llywodraeth Cymru, 2020b; Green a Taylor, 2020; LDA, 2006; Martin a Grubb, 2001).

**Cymell ymgysylltu parhaus pobl ifanc**

5.29. Mae'r camau a amlinellwyd uchod i gryfhau galluogrwydd pobl ifanc, gan gynnwys eu hyder a'u gallu i nodi cyfleoedd EET a gwneud cais amdanynt a chamau i wella eu mynediad at gyfleoedd EET, yn bwysig wrth helpu i ysgogi pobl ifanc i gynnal eu hymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET. Gall oedolion y gellir ymddiried ynddynt hefyd fod â rôl allweddol wrth annog pobl ifanc ac yn ehangach, 'abwyd', fel cymhellion ariannol a 'ffyn', fel colli budd-daliadau, gymell pobl ifanc i barhau i ymgysylltu. Gall cytundebau a chynlluniau gweithredu hefyd fod yn werthfawr wrth

[45] Mae marchnadoedd llafur trosiannol yn creu swyddi dros dro, neu'n rhoi cymhorthdal ar eu cyfer, i gefnogi grwpiau difreintiedig i feithrin y galluogrwydd a'r agweddau sy'n ofynnol i bontio i gyflogaeth heb gymhorthdal a chynnal hynny.

helpu i lywio ymddygiad pobl ifanc (React, 2022) ar yr amod y teimlir eu bod yn deg (SEU, 2005). Serch hynny, fel y mae stori Sam a Karen (yn y testun yn y blwch isod) yn dangos, mae cymhellion pobl ifanc yn cael eu llywio gan amrywiaeth o ffactorau ac, fel yn achos Karen, hyd yn oed pan fo person ifanc am weithio, ac mae wedi cael mynediad at gymorth, gallant gael eu dal yn ôl.

**Beth nad yw'n gweithio'n dda**

5.30. Mae'r adolygiad tystiolaeth yn nodi rhai risgiau neu heriau posibl; er enghraifft:

- mae tystiolaeth gyfyngedig y DU yn awgrymu bod rhaglenni marchnad lafur yn llai effeithiol i bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill nag i bobl wyn. Mae'n aneglur pam y mae hyn yn wir, er y gall adlewyrchu gwahaniaethau yn y math o ddarpariaeth y ceir mynediad ati, rhwystrau ieithyddol (i fudwyr a ffoaduriaid) a/neu wahaniaethu (LDA, 2006);
- mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriad i gefnogi pobl sydd wedi bod yn sâl yn yr hirdymor a phobl anabl yn llawer mwy cyfyngedig (LDA, 2006); a
- yn aml y bobl ifanc fwyaf difreintiedig yw'r rhai anoddaf i'w helpu (er enghraifft, oherwydd effeithiau creithio a chydberthynas ffactorau gwahanol). Yn aml mae angen cymorth cynhwysfawr arnynt dros gyfnod hirfaith (ILO, 2017; Martin a Grubb, 2001).

5.31. Dangosir rhai o'r cymhlethdodau a'r heriau gan straeon Sam a Karen, a amlinellir ar y dudalen nesaf. Llywiwyd eu cymhelliant i geisio gwaith gan ddewisiadau eraill, fel budd-daliadau lles yn achos Sam, a'r hyn y teimlwyd ei fod yn ddylanwad negyddol partner, yn achos Karen.  Roedd y rhain yn anodd i'r prosiect fynd i'r afael â nhw. Roedd Sam a Karen hefyd wedi'u dal yn ôl gan derfynau yn eu galluogrwydd, yn gysylltiedig â phrofiadau o ofal yn achos Sam ac amhariad yn achos Karen.

**Straeon Sam a Karen**

Mae **Sam** (nid ei enw go iawn) yn ei 20au. Mae ganddo fflat, mae'n byw gyda Karen (nid ei henw go iawn), ei gariad, mae ganddo broblemau gyda'i iechyd meddwl ac mae'n NEET. Mae Sam wedi cael bywyd anodd. Tyfodd i fyny mewn gofal maeth ac mae'n ystyried ei hun yn 'ddioddefwr', yn haeddu cymorth a chydymdeimlad. Fel rhywun sydd wedi gadael gofal, mae bob amser wedi cael llawer o gymorth, sy'n golygu ei fod wedi arfer â phobl yn gwneud pethau drosto. Mae wedi cael un swydd ers gadael yr ysgol: gweithiodd un shifft mewn bwyty bwyd brys a rhoddodd y gorau i'r swydd, gan nodi triniaeth annheg gan ei reolwr.

Aeth Sam a Karen at y prosiect er mwyn cael help i ddod o hyd i waith, drwy Facebook. Dywedodd Sam ei fod yn chwilio am waith a dywedwyd ei fod yn 'ddiawydd' wrth ymgymryd â chynnig help y prosiect i ddatblygu ei CV a gweithio ar sgiliau gwaith a sgiliau cyfweliad a help gyda chostau teithio. Adroddwyd ei fod wedi dweud 'nad oedd ganddo ddiddordeb' mewn mathau eraill o gymorth fel lleoliadau gwirfoddoli. Soniodd gweithwyr prosiect ei fod yn ymddangos nad oedd yn deall ffiniau ac y byddai'n ffonio am gymorth gyda'r hwyr, gyda phroblemau nad oeddent yn gysylltiedig â chyflogaeth (er enghraifft, 'dw i wir angen bach o faco' [tybaco)]. Roeddent yn teimlo ei fod 'yn chwilio am ffrind', yn hytrach na chymorth i ddod o hyd i waith. I'r gwrthwyneb, adroddwyd bod Karen yn awyddus iawn i ddod o hyd i waith, ond bod ganddi gyflwr niwroddatblygiadol, a'i bod yn cael ei dal yn ôl gan Sam, a oedd yn atal Karen rhag gwneud cyrsiau ar-lein drwy ddefnyddio eu dyfeisiau'n gyson, a dweud wrthi nad yw'n gallu ei wneud yr wythnos hon am eu bod wedi trefnu gwneud pethau. Mae'r rhai sy'n gweithio gyda Sam yn teimlo ei fod yn 'llusgo Karen i lawr' ac yn amau ei fod o bosibl yn genfigennus a/neu fod arno ofn y bydd Karen yn ei adael. Yn ddiweddarach, daeth i'r amlwg, wrth ymgysylltu â'r prosiect, fod Sam hefyd wedi bod yn mynd ar drywydd hawliad ar gyfer Taliadau Annibyniaeth Personol. Cyn gynted ag y

cafodd hyn ei roi, adroddwyd ei fod, ar unwaith, wedi rhoi’r gorau i chwilio am waith ac yr arweiniodd hyn at Karen yn rhoi’r gorau i chwilio hefyd.

Ffynhonnell: cyfweleion ar gyfer yr adolygiad (a soniodd am bobl ifanc roeddent wedi’u cefnogi)

**Beth arall allai weithio**

*Gweithio gyda rhwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc, eu hehangu a’u newid*

5.32. Mae cyfoedion a rhieni fel arfer yn parhau i fod yn ddylanwadol ymhell i oedolaeth a gallant atgyfnerthu patrymau meddwl ac ymddygiad cadarnhaol neu negyddol (SEU, 2005). Fel yr amlinellwyd yn adran 4, gall cyfoedion normaleiddio ymddygiad, fel camddefnyddio cyffuriau neu alcohol neu chwarae gemau cyfrifiadur, a all wneud i bobl golli cymhelliant a’i gwneud yn anoddach cynnal ymgysylltu â gwasanaethau EET. Gall cefnogi pobl ifanc i ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol newydd gyda phobl ifanc sy’n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET helpu i liniaru hyn. O gofio eu rôl ganolog, mae hefyd yn bosibl y bydd cyfleoedd i weithio gyda rhieni a’u cefnogi i helpu i gymell pobl ifanc i gynnal eu hymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET. Mewn rhai achosion, drwy ddarparu cartref, cymorth emosiynol ac ariannol i bobl ifanc sydd wedi'u dal neu’n cymryd cam yn ôl, gellir ystyried bod rhieni’n ‘galluogi’ pobl ifanc i barhau'n NEET, yn hytrach na mynd ati i’w hannog i ymgysylltu ag EET neu wasanaethau cymorth EET.

5.33. Mae ymchwil wedi nodi bod rhai rhwydweithiau cymdeithasol cymunedau DU, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ‘debyg at ei debyg’. Felly, er y gallant helpu pobl i gael mynediad at gyflogaeth, gallant fod yn gyfyngedig i swyddi â thâl isel sy’n dibynnu ar ‘brosesau recriwtio anffurfiol’ (Sefydliad Joseph Rowntree, 2013). Arsylwodd cyfweleion y gallai rhwydweithiau cymdeithasol hefyd fod yn gyfyngedig gan amddifadedd cymdeithasol a oedd yn golygu bod pobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol fel clybiau chwaraeon. Felly, gwnaethant ddadlau dros ehangu rhwydweithiau cymdeithasol er mwyn gwella mynediad at gymorth a gwybodaeth.

*Gweithio gyda chyflogwyr*

5.34. Gall pontio'r bwlch rhwng disgwyliadau cyflogwyr o bobl ifanc a dealltwriaeth pobl ifanc o'r hyn a ddisgwylir ganddynt fod yn effeithiol. Pwysleisir bodolaeth diffyg cyfatebiaeth rhwng disgwyliadau cyflogwyr o bobl ifanc a dealltwriaeth pobl ifanc o'r hyn a ddisgwylir ganddynt gan Rudiger (2013) (a nodwyd yn Green a Taylor, 2020). Dadleuodd un cyfwelai y gallai lleoliadau gwaith â thâl, sy'n cynnig 'gweithiwr am ddim i roi cynnig arno' fod yn werthfawr wrth fagu hyder cyflogwyr yng nghyflogadwyedd person ifanc. Nodwyd bod hyn yn arbennig o werthfawr i gyflogwyr bach na allent fforddio cymryd risgiau.

*Cysoni dyheadau, galluogrwydd a chyfleoedd*

5.35. Gellir cael diffyg cyfatebiaeth rhwng dyheadau rhai pobl ifanc a'u galluogrwydd a/neu eu mynediad at gyfleoedd cyflogaeth; fel y dywedodd Williamson:

> 'Young people who are 'NEET' may, regrettably, have both inflated aspirations and an inappropriate constellation of skills, attitudes and qualifications that do not 'square' with the demands of the local labour market' (Williamson, 2010, t.9).

5.36. Mewn ymateb, gall gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, os cânt eu darparu'n sensitif ac yn effeithiol, fod â rôl wrth gysoni dyheadau pobl ifanc â'u galluogrwydd a'u mynediad at gyfleoedd yn well (y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2012).

*Datblygu cyfleoedd dysgu anffurfiol*

5.37. Gall cyfleoedd dysgu anffurfiol fod yn werthfawr, yn enwedig os ydynt yn cynnig mwy o hyblygrwydd na darpariaeth fwy ffurfiol (er enghraifft, o ran dyddiadau dechrau) heb aberthu ansawdd (er enghraifft, pan fo asesiadau cychwynnol effeithiol o'r angen i baru dysgwyr i ddarpariaeth a chymorth priodol yn sail iddynt). Gall cyfleoedd dysgu anffurfiol ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, cymorth bugeiliol a phrofiadau dysgu o ansawdd sy'n meithrin y galluogrwydd y mae cyflogwyr yn ei fynnu ac yn ei gydnabod. Gallant fod yn fwy deniadol i'r rhai â phrofiadau negyddol o addysg ffurfiol (fel yr ysgol) ond nid ydynt, ynddynt eu hunain, yn ymdrin â'r rhwystrau eraill y gallant eu hwynebu (e.e. sgiliau hanfodol gwan, salwch meddwl ac ansefydlogrwydd, a all eu dal yn ôl) (y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2012).

*Gwella darpariaeth addysgol ôl-16 i bobl ifanc ag ADY*

5.38. Nododd un cyfwelai wendid mewn darpariaeth addysgol ôl-16 i bobl ifanc ag ADY. Dadleuodd nad oedd cyrsiau cynalwedigaethol, er enghraifft, bob amser yn paratoi pobl ifanc yn ddigonol i symud ymlaen i ddarpariaeth addysg bellach brif ffrwd ac y gallai cynlluniau ar gyfer y pontio hwn fod yn wael. Dadleuodd hefyd fod bwlch i bobl ifanc ddeallus sy'n niwroamrywiol, a allai gael mynediad at ddarpariaeth brif ffrwd pe bai addasiadau priodol yn cael eu gwneud ond eu bod wedi'u 'dal' mewn unedau sy'n cynnig lefel isel o addysg. Awgrymodd fod angen darpariaeth i bobl ifanc sydd rhwng ysgol arbennig a darpariaeth niwronodweddiadol. Yng Nghymru, nod y rhaglen trawsnewid ADY yw gwella cymorth i bobl ifanc (drwy ganolbwyntio ar bobl 0-25 oed), ond nid yw'r effaith ar ddarpariaeth ôl-16 yn glir eto.

*Mynd i'r afael â rhwystrau sefyllfaol*

5.39. Mae'n bosibl y gall hyfforddiant teithio sydd, yn gyffredinol, i bobl ifanc ag ADY neu anableddau, ac sy'n ceisio sicrhau bod ganddynt hyder a sgiliau i deithio'n annibynnol ar fysiau, trenau a llwybrau cerdded, fod o fudd i grwpiau ehangach sydd heb brofiad o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus na hyder wrth wneud hynny.

5.40. Arsylwodd cyfweleion hefyd fod mynediad at ddyfeisiau a chysylltiadau rhyngrwyd da'n amrywio o ardal i ardal ledled Cymru, ac y gall fod angen mynd i'r afael â hyn, hyd yn oed os nad yw'n ddigonol i gefnogi ailymgysylltu pobl ifanc ag EET.

*Canolbwyntio ar y seicolegol ac ymarferol*

5.41. O ystyried y cynnydd mewn salwch meddwl a drafodwyd yn adroddiad cyntaf yr adolygiad, mae mynediad at gymorth i helpu i wella hyder pobl ifanc a lleihau eu trallod yn debygol o fod yn bwysig (Mawn et al., 2017). Arsylwodd un cyfwelai y 'gall gymryd amser hir iawn i gefnogi pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl' ac 'nad oes dim man yn aml i'w hatgyfeirio iddo pan nad yw'n barod ar gyfer byw'n annibynnol'. Dadleuodd fod angen atgyweirio'r system a bod angen rhywbeth fel y cynllun Gofal Ychwanegol i Bobl Hŷn, ond i bobl ifanc, lle o ansawdd sy'n cefnogi pobl ifanc i fod yn fwy annibynnol.

5.42. Arsylwodd cyfweleion hefyd fod llawer o bobl ifanc wedi cael profiad o drawma, sy'n gyson â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn adroddiad cyntaf yr adolygiad hwn

(Llywodraeth Cymru, 2024). Mewn ymateb, soniodd un ei fod wedi mabwysiadu'r dull Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol o weithio. Y nod oedd sicrhau bod pobl ifanc yn dod yn fwy hyderus ac yn fwy cydnerth ac yn gallu ymdopi'n well ag amgylchiadau anodd, ymdopi â'u hemosiynau, ymddiried mewn pobl a ffurfio perthnasoedd iach ag eraill.

**Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol**

Fel y soniodd un cyfwelai, mae amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol yn wasanaethau sydd wedi'u cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n ystyried anghenion emosiynol a seicolegol yr unigolion sy'n eu defnyddio ac yn gweithio ynddynt. Gall unrhyw wasanaeth sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed ddod yn amgylchedd sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ac mae amrywiaeth eang o wasanaethau digartrefedd wedi mabwysiadu'r model. Enghreifftiau o nodweddion amgylchedd sy'n ystyriol o gyflwr nodweddiadol yw ymwybyddiaeth seicolegol, hyfforddiant a chymorth staff, a dull dysgu.

'Nod amgylchedd sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol yw gwella llesiant seicolegol ac emosiynol pobl sy'n cael mynediad at y gwasanaeth, neu'n gweithio ynddo. Mae'n edrych ar effaith trawma ac yn annog ymarfer myfyriol. Mae'n cefnogi annog lle gwaith anfygythiol, iaith garedig, yn datblygu dealltwriaeth gydymdeimladol o bobl ifanc, yr hanfodion mewn gwirionedd. Y dylech ddyfalbarhau, peidio â gwrthod y person ifanc, gosod ffiniau a rheolau. Nid oes gennym byth ddigon o adnoddau i wneud pethau'n iawn'. Mae'r model yn seiliedig ar y model ACE/sy'n ystyriol o drawma.

Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad)

**5.43.** Arsylwodd cyfweleion (ar gyfer yr adolygiad) hefyd fod gan lawer o bobl ifanc anghenion sylfaenol heb eu diwallu ac, er enghraifft, fod angen cartref, bwyd a dillad arnynt, sy'n gyson â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn adroddiad cyntaf yr adolygiad hwn (Llywodraeth Cymru, 2024).

*Magu hyder a galluogrwydd staff cymorth EET wrth weithio gyda phobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig*

5.44. Dadleuodd cyfweleion o'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, er bod llawer o gymorth ar gael, fod diffyg hyder gan lawer o bobl mewn gwasanaethau cymorth EET neu nid ydynt yn gwybod sut i weithio gyda chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; felly gwnaethant ddadlau'r canlynol:

- mae angen hyfforddi gweithwyr cymorth fel nad oes arnynt ofn gweithio gyda chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Soniodd cyfweleion fod gwasanaethau cymorth EET yn aml yn atgyfeirio pobl yn ôl i'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig pan allent hwythau helpu, ond bod arnynt ofn dweud y peth anghywir. Gwnaethant ddadlau bod angen i'r hyfforddiant hwn fod yn barhaus a chydnabod bod gan grwpiau gwahanol rwystrau gwahanol; a
- mae angen sgwrs fwy agored am yr hyn y mae pobl yn poeni amdano; pam y maent yn anghyfforddus yn gweithio gyda phobl ifanc Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

*Datblygu opsiynau cymorth mwy hirdymor*

5.45. Arsylwodd cyfweleion y bydd ar rai pobl ifanc angen cymorth hirdymor wedi'i gynnal i ymdrin â materion lluosog, fel digartrefedd, anawsterau iechyd meddwl a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, er mwyn iddynt gyrraedd sefyllfa pan allant ailymgysylltu a chynnal eu hymgysylltu ag EET. Mae'r math hwn o ddull yn awgrymu continwwm cymorth, tra bydd anghenion cymorth yn cynyddu, mae nifer y bobl ifanc y mae angen y cymorth ychwanegol hwn arnynt yn gostwng.

5.46. Gall fod yn anodd darparu cymorth hirdymor a dwys weithiau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu sbarduno gan dargedau sy'n gysylltiedig â deilliannau, oherwydd na ellir cyflawni deilliannau i'r bobl ifanc hyn am amser hir, hyd yn oed blynyddoedd mewn rhai achosion a hefyd mae'n anochel bod yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r bobl ifanc hyn yn cyfyngu'r amser a'r adnoddau y gellir eu neilltuo er mwyn cefnogi eraill. Yn ogystal, mae'r sgiliau staff a'r ymreolaeth sy'n ofynnol i weithio gyda'r rhai â'r anghenion mwyaf yn debygol o fod yn fwy; er enghraifft, mae angen i weithwyr allu:

- meithrin perthynas ymddiriedaeth gyda'r person ifanc fel y gall ddeall yn well y ffordd y mae'r person ifanc yn meddwl, ei ymddygiad a'i ddyheadau, rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a, phan fo'n briodol, her, a dderbynnir gan y person ifanc;
- gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, fel gwasanaethau tai, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl, er mwyn helpu i sicrhau y caiff anghenion ehangach y person ifanc eu diwallu, a bod cymorth yn cael ei gydgysylltu, yn amserol, yn cael ei dderbyn gan y person ifanc a'i ddarparu'n ddibynadwy; a
- asesu a yw'r person ifanc â chymhelliant digonol, neu o leiaf yn agored i gael ei gymell, er enghraifft, i wneud dewisiadau anodd, fel:
  - torri cysylltiad â grwpiau cyfoedion o bosibl (er enghraifft, pan fo eu hagweddau a'u hymddygiad, fel camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, yn dal person ifanc yn ôl);
  - newid ei ymddygiad, fel rhoi'r gorau i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol neu gymedroli'r camddefnydd; a
  - wynebu ei ofnau (fel gorbryderon ynghylch ailymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant os yw wedi cael profiadau negyddol o addysg yn yr ysgol, neu ryngweithio ag eraill neu adael y gymuned y mae'n ei hadnabod ac yn teimlo'n gyfforddus ynddi) a'u gwneud yn agored i'r risg o fethu (er enghraifft, pan fo pobl ifanc yn teimlo ei bod yn well peidio â rhoi cynnig arni, yn hytrach na rhoi cynnig arni gyda'r risg o fethu).

5.47. Mae'r pwynt olaf yn un pwysig. Ni fydd pob person ifanc yn fodlon (â chymhelliant) neu'n barod i symud ymlaen (heb y galluogrwydd a/neu'r cyfle), ymgysylltu'n ystyrlon â chymorth a gwneud y dewisiadau hyn a allai fod yn anodd. Gall profiad rhaglen y Gwasanaeth Di-waith fod yn addysgiadol yma, gan fod bron hanner y rhai a gafodd eu recriwtio (gan gynnwys y rhai 25 oed a throsodd, sef tri chwarter y rhaglen) wedi gadael y rhaglen yn gynnar, am fod 'anghenion lefel uchel gan y cyfranogwyr neu fod ganddynt broblemau iechyd meddwl cymhleth a'u bod, felly, ymhell o fod yn gallu mynd i mewn i gyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2023c, t.5). Fodd bynnag, fel y mae'r gwerthusiad yn nodi 'Mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig ag amodau'r pandemig

lle'r oedd pobl yn wynebu heriau sylweddol ac roedd gwasanaethau yn llai hygyrch na'r arfer' (ibid.).

5.48. Bydd penderfynu a yw person ifanc yn barod ai peidio'n gofyn am staff â'r sgiliau, yn ogystal â'r hyder y bydd cymorth yno yn y dyfodol, os nad yw person ifanc yn barod i ailymgysylltu eto. Fel arall, byddant, i bob pwrpas, yn diystyru'r person ifanc. Felly, mae'n hanfodol bod polisi (ac ymarfer) yn darparu'r pontydd iawn ar yr adegau pan fo pobl ifanc wedi'u cymell i'w croesi (Williamson, 2010, t.17).

*Newid ac arweinyddiaeth systemau*

5.49. Fel yr arsylwodd un cyfwelai, mae llawer o'u gwaith yn ymwneud â threfnu a chysylltu ag asiantaethau partner a, phan fo angen, eu herio a'u dwyn i gyfrif. Adroddwyd bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod ansawdd y cyfleoedd yn dderbyniol a sicrhau bod pethau sy'n cael eu haddo yn digwydd. Mae pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn cael ei drafod ymhellach yn adran 9, ac mae'r testun yn y blwch yn ystyried rôl bosibl arweinyddiaeth systemau.

**Arweinyddiaeth Systemau**

Mae cymorth EET i bobl ifanc yn rhan o system ehangach sydd hefyd yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 a chyflogwyr. Os yw anghenion person ifanc yn fwy cymhleth, mae'n fwy tebygol y bydd gwasanaethau eraill yn gysylltiedig a bydd angen iddo lywio system fwy cymhleth. Fel yr amlinellwyd uchod, gall oedolion y gellir ymddiried ynddynt chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl ifanc i lywio'r system.

Fodd bynnag, yn ogystal â helpu pobl ifanc i lywio'r system, mae'n bosibl y gall oedolion y gellir ymddiried ynddynt newid y system ehangach drwy gydweithio â phartneriaid. Mae'r math hwn o ddull yn gwthio cydweithio y tu hwnt i ganolbwyntio ar fuddiannau a thargedau sefydliadol cul a model gwaith partneriaeth presennol, fel sefydlu mecanweithiau i atgyfeirio pobl ifanc rhwng partneriaid, i fynd ati i weithio ar draws ffiniau sefydliadol i newid a herio'r system.

Dylai arweinyddiaeth systemau fod yn wasgaredig (yn hytrach nag ystyried ei bod yn eiddo i unigolyn) a gallai amrywio o gynghorydd unigol mewn gwasanaeth cymorth EET yn sicrhau y tynnir sylw gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr at berson ifanc y bernir ei fod mewn perygl o roi'r gorau iddi, i weithio ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol, er enghraifft, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol neu Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i fynd i'r afael â gwendidau systemig mewn gwasanaethau tai, darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16, neu iechyd meddwl i bobl ifanc.

Addaswyd o Bolden, d.d.

## 6. Cynaliadwyedd a chynnydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

### Beth sy'n gweithio

6.1. Nodir dau ddull eang o ran cymorth cyflogaeth:

- ‘canolbwyntio ar gyfalaf dynol’, gan ganolbwyntio ar wella galluogrwydd pobl ifanc, er enghraifft, drwy addysg a hyfforddiant, i baratoi pobl ifanc at gyflogaeth yn well; a
- ‘gwaith yn gyntaf’, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwaith cyn gynted â phosibl, er enghraifft, drwy ganolbwyntio ar gymorth chwilio am swyddi (y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020; yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2014).

6.2. Gall y ddau fod yn effeithiol, er y gall y cyntaf arwain at ddeilliannau swydd mwy cynaliadwy (y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020) a dyna fydd gweddill yr adran hon yn canolbwyntio arno.

### Cynnal ymgysylltiad ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a gwneud cynnydd ynddynt

6.3. Fel y mae ffigur 6.1 yn dangos, mae adolygiadau’n awgrymu bod canolbwyntio ar y canlynol yn ddefnyddiol i gadw pobl mewn EET a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd:

- cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ac, er enghraifft, ansawdd y swydd gychwynnol (o ran sefydlogrwydd, tâl ac oriau) a pharu â swyddi (o ystyried galluogrwydd a dyheadau pobl ifanc), yr ystyrir ei fod yn arbennig o bwysig i grwpiau fel pobl ifanc anabl, er mwyn sicrhau bod y rôl yn addas ac y gwneir addasiadau rhesymol a bod y rôl yn ‘cyd-fynd’ yn dda â’r cyflogai[46]; a
- galluogrwydd pobl ifanc, gan gynnwys eu sgiliau, eu cydnerthedd[47] a’u mynediad at gymorth i ddatrys problemau yn y gweithle (er enghraifft,

[46] Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a lleoliadau gwaith, fel y gall pobl ifanc gael profiad o opsiynau gwahanol cyn dewis (y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2014).
[47] Er enghraifft, cael clustog ariannol i ymdopi ag argyfyngau (er enghraifft, problemau trafnidiaeth neu ofal plant) (LDA, 2006; Green a Taylor, 2020).

perthnasoedd gyda chydweithwyr) a’r tu allan (er enghraifft, trefniadau gofal plant sy'n chwalu) (LDA, 2006; Green a Taylor, 2020).


Gall canolbwyntio ar y ddau uchod helpu i ysgogi pobl ifanc i ddal ati yn wyneb adfyd, a gellir atgyfnerthu hyn drwy gymorth ac anogaeth a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, er enghraifft, gan fentor yn y gweithle.

**Paru â Swyddi**

Mae Steve (nid ei enw go iawn) yn ei 20au ac mae’n dioddef o orbryder. Gadawodd yr ysgol ‘heb ddim byd’ ond ei freuddwyd yw bod yn bêl-droediwr proffesiynol. O gofio ei angerdd am chwaraeon, gwnaeth y prosiect Golau Gwyrdd ei helpu i gael swydd gyda chanolfan chwaraeon leol. Disgrifiwyd bod gan Steve lawer iawn o egni, angerdd am chwaraeon a’i fod yn hyfforddwr ‘naturiol’ sy’n wych gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, nid oedd erioed wedi bod mewn amgylchedd gwaith o’r blaen, ac roedd angen cymorth ac arweiniad arno ynghylch sut i ymddwyn. Mae wir yn mwynhau ei rôl newydd, mae wedi cael dyrchafiad, ac mae ei hunanhyder wedi cynyddu.

Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad)

**Ffigur 6.1. Cynnal a chefnogi cynnydd mewn EET**




Ffynhonnell: Ffigur a grëwyd ar gyfer yr adolygiad

6.4. Mae ymchwil yn awgrymu y gall cymorth yn y gwaith fod yn bwysicach:

- pan fo pobl ifanc yn mynd i fyd gwaith am y tro cyntaf a hynny i 'waith gwael' gyda llai o gyfleoedd i wneud cynnydd. Yn yr achos hwn, gall cymorth yn y gwaith helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau, yr ymddygiad a'r agweddau y mae cyflogwyr yn eu mynnu a helpu cyflogwyr i ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl ifanc, gan helpu i leihau'r risg y bydd pobl ifanc yn cael eu dal mewn gwaith gwael (Green a Taylor, 2020; y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020); a/neu
- i grwpiau y mae mwy o berygl y byddant yn wynebu problemau yn y gwaith neu y tu allan i'r gwaith, a allai beri iddynt ymddieithrio, fel pobl anabl, gofalwyr,

lleiafrifoedd ethnig, unig rieni a phobl sy’n camddefnyddio sylweddau (Green a Taylor, 2020).

6.5. Fodd bynnag, mae ymchwil yn nodi nad oes tystiolaeth gyson ynghylch pa elfennau o gymorth yn y gwaith sy’n fwy effeithiol (Canolfan Beth sy’n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol, 2019; y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2020).

**Cymorth yn y Gwaith**

Bwriedir i gymorth yn y gwaith helpu pobl ifanc i gynnal cyflogaeth a gwneud cynnydd mewn cyflogaeth; fel arfer, mae’n cynnwys:

- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, er enghraifft, ynghylch cyfleoedd hyfforddiant a gwneud cais am rolau newydd (a all gynorthwyo cynnydd); a
- cymorth ariannol i’r unigolyn, fel help gyda thrafnidiaeth neu ofal plant a/neu’r cyflogwr (fel cymorthdaliadau cyflog).

Mae’r Ganolfan Beth sy’n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol yn nodi’r canlynol:

- gall cymorth yn y gwaith gynyddu cyflogaeth a chyflogau, ond mae’r effeithiau’n amrywio ar draws y rhaglen ac ynddi ac nid ydynt bob amser yn gadarnhaol ac, o’r rhaglenni sy’n fwy effeithiol, mae rhai’n adrodd effeithiau cryfach i grwpiau mwy difreintiedig.
- mae cymhellion ariannol yn allweddol ar gyfer effeithiau sy'n cael eu cynnal a gallant fod yn fwy effeithiol pan gânt eu cyfuno â gwasanaethau cymorth cyflogaeth, ond gallant hefyd fod yn llai pwysig na gwaith paru â swyddi effeithiol.
- ond nid yw cymorth yn y gwaith yn gyson gosteffeithiol, hyd yn oed pan fo deilliannau’r rhaglen yn gadarnhaol.

*Addaswyd o* becyn cymorth cynnydd yn y gwaith, Canolfan Beth sy’n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol

**Beth arall allai weithio**

*Cymorth i’r rhai sy’n ailymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant*

6.6. Mae deilliannau dysgwyr ôl-16 yn adlewyrchu nodweddion demograffig, fel statws economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, anabledd, rhywedd, a lle (y Swyddfa Fyfyrwyr, 2023). Arsylwodd cyfweleion fod cymorth i'r rhai sy'n mynd i fyd addysg neu hyfforddiant yn debygol o fod mor bwysig â chymorth i'r rhai sy'n mynd i fyd cyflogaeth. Yn ogystal â pharatoi pobl ifanc at addysg a hyfforddiant a disgwyliadau darparwyr, gall fod angen cymorth mwy ymatebol, er enghraifft, os bydd person ifanc yn wynebu problemau yn ei fywyd personol, fel salwch teuluol, profedigaeth neu broblemau cyfreithiol a all, fel y mae stori Cath yn dangos, os na chânt eu rheoli, olygu bod pobl yn colli gwaith ac yn ei adael o bosibl. Fel y pwysleisiodd un cyfwelai, 'peidiwch â thorri cymorth nes nad oes ei angen mwyach'. Dadleuodd fod gwaith ieuenctid yn bwysig iawn, yn ogystal â chymorth cyflogaeth oherwydd 'rydych yn meithrin perthynas' a gellir ei chynnal drwy gydol hyfforddiant a chyflogaeth.

**Llywio heriau addysg ôl-16**

Roedd Cath (nid ei henw go iawn) yn ei hugeiniau, yn cael trafferth yn academaidd ac yn gymdeithasol yn yr ysgol ac nid oedd ganddi ffrindiau ar ôl, heblaw am y rhai roedd yn ymgysylltu â nhw ar-lein. Amheuir bod ganddi gyflwr niwroddatblygiadol, ond nid oes diagnosis o hynny wedi'i wneud, mae ganddi sgiliau cymdeithasol gwael ac, ar ôl gadael yr ysgol, enciliodd i'w hystafell wely, gan chwarae gemau ar-lein a gofalu am ei mam. Ymwreiddiodd y patrwm ymddygiad hwn yn ystod cyfnodau clo COVID-19, roedd yn teimlo'n gyfforddus mewn llai o fannau a dirywiodd ei hiechyd meddwl.

Cydnabu gweithiwr prosiect dalentau Cath ac awgrymodd y dylai fynd i'r brifysgol a'i hannog i ystyried gwneud hynny. Aeth y gweithiwr prosiect yn gwmni iddi ar ddiwrnodau agored prifysgol a'i chefnogi drwy'r broses ymgeisio a chael mynediad at gymorth ariannol (y soniodd un gweithiwr amdano fel 'dal dwylo').

Ar ddiwrnod cyntaf Cath yn y brifysgol, cafodd Cath ei throi allan o'i thŷ gan ei mam. Gwnaeth gweithiwr prosiect helpu Cath i gasglu ei dillad a'i heiddo ac aeth yn gwmni gyda hi i'r brifysgol, lle (yn wahanol i Cath) roedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr gyda'u teuluoedd. Helpodd y gweithiwr Cath, a oedd erioed wedi byw ar

ei phen ei hun o'r blaen, i brynu dillad gwely, pethau ymolchi a sosbenni a phadelli.

Mae Cath wedi cael trafferth ar adegau fel y Nadolig pan, yn wahanol i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr, na all fynd adref. At hynny, ar adegau mae'n teimlo ei bod 'uwchlaw' rhywfaint o'r gwaith prifysgol (o ystyried yr hyn y mae eisoes wedi'i ddysgu a'i haddysgu ei hun i'w wneud) a bu'n rhaid i weithiwr cymorth prosiect ddweud wrthi'n bendant nad yw darlithoedd yn ddewisol, a'i bod 'ddim yn gallu peidio â throi lan'.

Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad, pan soniodd staff am bobl ifanc yr oeddent wedi'u cefnogi)

6.7. Yng Nghymru, fel yr amlinellwyd uchod, dylid nodi pobl 11 i 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio, neu bobl 16-18 oed NEET, drwy brosesau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae gweithwyr arweiniol, sy'n aml o'r gwasanaeth ieuenctid, yn cael eu neilltuo i bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio neu sy'n NEET ac sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i ymgysylltu. Mae gweithwyr arweiniol yn gweithredu fel oedolion y gellir ymddiried ynddynt, gan ddarparu parhad cymorth a chyswllt i'r bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ran aros mewn EET, neu eu cynorthwyo i ddechrau EET. Fodd bynnag:

- mae trefniadau ar gyfer nodi pobl 19-24 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio, yn dibynnu ar gyflogwyr unigol, neu ddarparwyr addysg neu hyfforddiant; a
- mae'n ymddangos bod trefniadau ar gyfer nodi pobl 19-24 oed sydd wedi ymddieithrio (ac sy'n NEET), yn llai datblygedig ac yn fwy dibynnol ar bobl ifanc yn mynd ati i geisio cymorth eu hunain neu, er enghraifft, yn cael eu hatgyfeirio gan wasanaeth fel Canolfan Byd Gwaith.

6.8. At hynny, adroddodd cyfweleion fod pobl ifanc mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, fel prentisiaethau crefft, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod o hyd i leoliadau, yn rhoi'r rhai heb gysylltiadau cymdeithasol cryf yn y grefft o'u dewis dan anfantais. Adroddwyd y gall hyn fod yn broblem i bobl ifanc o bob ethnigrwydd, ond

adroddwyd bod pobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn benodol o dan anfantais ac 'nad yw colegau'n helpu'.

*Cymorth i'r rhai â chyflyrau niwroddatblygiadol*

6.9. Dywedodd cyfweleion y gallai cymorth yn y gwaith fod yn arbennig o bwysig i rai pobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol[48]. Gwnaethant ddadlau y dylid cael gwasanaeth hyfforddi/mentora swyddi cenedlaethol a all helpu pobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i fyd gwaith, a all eu helpu i wneud y swydd (er enghraifft, drwy hyfforddiant ar y safle) a bod ar gael i helpu pobl i ymdopi â newid a chynnal eu rôl dros amser; adroddir y canlynol (gan gyfweleion ar gyfer yr adolygiad):

- mae'r model hefyd yn gweithio i gael pobl yn ôl i fyd addysg;
- gall y dull hwn, gan weithio gyda phobl ifanc yn gyfannol, eu helpu i fyw eu bywydau, yn ogystal ag ymdopi ag EET, weithio i'r holl bobl ifanc ag anghenion lluosog neu gymhleth, fel anawsterau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a/neu ddigartrefedd; a
- mae'r ymyriadau dwys, ansawdd uchel hyn yn fwy costus, ond mae arbedion oes gyfan os nad oes angen gwasanaethau cymdeithasol ar bobl drwy gydol eu hoes.

6.10. Fel y nodwyd, yng Nghymru, bu prosiectau fel Engage to Change a chynllun treialu cyflogaeth â chymorth Twf Swyddi Cymru+ a geisiodd wella deilliannau i bobl ifanc ag anabledd/anhawster dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth, ond mae'r ddau wedi dod i ben erbyn hyn.

[48] Fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad yn amlinellu, mae'r cyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl ifanc yn y grwpiau hyn yn isel iawn (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2022).

# 7. Atal

7.1. Mae ffocws yr adolygiad hwn ar ailymgysylltu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant (ac sydd felly'n NEET). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod rhaglenni 'ymyrryd yn gynnar' yn ceisio 'atal y llif' o ran bod yn NEET drwy wella'r profiad o addysg orfodol (y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020) ac, er enghraifft, drwy dargedu mannau pontio penodol, fel Cyfnod Allweddol 4 i bobl dan 16 oed a phobl dan 18 oed, gall cymorth ddargyfeirio pobl o fod yn NEET a gwella cyrhaeddiad (y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2020). Mae hyn yn bwysig, fel y mae Cedefop yn nodi, oherwydd bod mesurau gwneud iawn, o'u cymharu ag atal, yn fwy cymhleth i'w cynllunio a'u gweithredu. Mae'r grŵp targed wedi ymddieithrio'n fwy ac mae'r bylchau i wneud iawn yn ehangach (a nodwyd yn y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020).

7.2. Yn yr un modd, mae Martin a Grubb yn nodi bod y dystiolaeth o werthusiadau yng Nghanada a'r Unol Daleithiau'n awgrymu bod yr elw mwyaf i bobl ifanc ddifreintiedig yn dod o ymyriadau cynnar sy'n cael eu cynnal. Maent yn mynd ymlaen i ddadlau na ellir gorbwysleisio, os bydd pobl ifanc yn gadael y system addysg heb gymwysterau a sylfaen dda o ran sgiliau darllen, ysgrifennu a rhifyddeg, ei bod bron yn amhosibl i raglenni marchnad lafur oresgyn yr anfanteision hyn yn ddiweddarach (Martin a Grubb, 2001).

7.3. Mae hyn yn gorddatgan yr achos dros atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae enghreifftiau o raglenni fel CfW a CfW+ sydd, er enghraifft, wedi helpu pobl ifanc, sy'n agored i lawer o'r ffactorau risg a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, i lwyddo er gwaethaf pob tebygolrwydd (Llywodraeth Cymru, i ddod). At hynny, mae sicrhau bod pob person ifanc yn gadael yr ysgol â sgiliau hanfodol a chymwysterau da'n nod polisi hirsefydlog y mae llywodraethau olynol wedi cael trafferth ei gyflawni (gweler e.e. y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2017). Serch hynny, mae'n gwneud y pwynt yn rymus bod gohirio ymyriad yn gyffredinol yn golygu bod problemau'n ymsefydlu'n ddyfnach a'u bod yn fwy costus ac anodd eu goresgyn. Mae canolbwyntio ar atal hefyd yn rhan annatod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# 8. Materion trawsbynciol

### Darpariaeth effeithiol

8.1. Mae’r dystiolaeth yn glir nad dim ond yr hyn sy’n cael ei wneud, ond pa mor dda y mae'n cael ei wneud (neu ei weithredu) sydd o bwys (ILO, 2017). Mae’r gwerthusiad o CfW a CfW+, er enghraifft, wedi nodi, er bod y cymorth a gynigiwyd gan hyfforddwyr gwaith Canolfan Byd Gwaith, ar bapur, (fel anogaeth, cyngor ar chwiliadau swyddi, mynediad at hyfforddiant a help i ddatblygu CVs) yn debyg iawn i’r hyn a gynigiwyd gan gynghorwyr a mentoriaid CfW a CfW+, fod y cymorth a gynigiwyd gan gynghorwyr CfW a CfW+ yn ansoddol wahanol, am fod ganddynt lawer mwy o amser ac, yn aml, berthynas wahanol iawn gyda’r cyfranogwyr, o’u cymharu â hyfforddwyr gwaith Canolfan Byd Gwaith (Llywodraeth Cymru, 2023b). Dywedodd staff y rhaglenni (Llywodraeth Cymru, 2023b) a’r cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru, i ddod) fod hwn yn fodel llawer mwy effeithiol.

8.2. Mae’r ffactorau allweddol a nodwyd gan yr astudiaethau sy’n gysylltiedig â darpariaeth effeithiol yn cynnwys:

- defnydd effeithiol o ddata allanol a mewnol (er enghraifft, i nodi pobl ifanc a fyddai’n cael budd o'r cymorth a gynigir, eu paru i ddarpariaeth briodol a monitro perfformiad);
- datblygu partneriaethau i annog atgyfeiriadau a chefnogi darpariaeth;
- sicrhau adnoddau digonol; a
- defnydd deallus o ddull rheoli perfformiad i sicrhau, er enghraifft, nad yw targedau’n annog ‘hufennu a pharcio’ (canolbwyntio ar y rhai y mae’n haws eu cyrraedd a’u helpu) neu annog darparwyr i beidio â chymryd yr amser i gefnogi pobl ifanc y mae angen ymyriadau mwy dwys a hirdymor arnynt (Llywodraeth y DU, 2022; y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2015).

8.3. Yn ogystal, nodir mewn un astudiaeth y gall fod yn anodd tyfu rhaglenni bach (Martin a Grubb, 2001). Mae’n debygol bod hyn yn adlewyrchu’r anawsterau wrth dyfu dulliau sy’n canolbwyntio ar y person ac wrth gadw cysylltiadau cryf â chyflogwyr a phartneriaid lleol.  Yn yr un modd, adroddwyd hefyd gan gyfweleion y gall ‘prif ffrydio cymorth arbenigol’ fod yn heriol. Rhoddwyd enghraifft y rhaglen Cyfleoedd

Gwirioneddol a ddaeth i ben oherwydd yr adroddwyd y dywedodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fod y model cymorth wedi'i ddeall ac y gellid ei ddarparu gan wasanaethau cymorth prif ffrwd erbyn hyn. Fodd bynnag, adroddwyd (gan gyfweleion ar gyfer yr adolygiad hwn) na ddigwyddodd hyn oherwydd nad oedd gan y gwasanaethau prif ffrwd y sgiliau na'r amser i wneud yr hyn roedd y rhaglen Cyfleoedd Gwirioneddol wedi'i wneud, gan adael bwlch mawr mewn darpariaeth i'r rhai ag anabledd dysgu neu awtistiaeth.

8.4. Nododd cyfweleion ffactorau eraill a oedd yn llesteirio darpariaeth effeithiol, a oedd yn cynnwys:

- cyllid prosiect tymor byr (y soniodd un ei fod yn 'gyllid stopio a chychwyn') yr ystyriwyd ei fod yn her benodol ar gyfer y trydydd sector, ac a allai greu cylchoedd o brosiectau peilot a oedd yn gwneud gwaith da, ond nad oeddent wedyn yn cael eu cyflwyno neu eu prif ffrydio;
- targedau a allai annog darparwyr i ganolbwyntio ar y rhai hawsaf i'w cyrraedd a'u helpu, yn hytrach na'r rhai sydd fwyaf mewn angen;
- biwrocratiaeth, rheolau a ffyrdd o weithio sy'n gweithio i'r darparwr, nid y person ifanc, fel dyddiadau dechrau anhyblyg ar gyfer cyrsiau sy'n aml yn cynnig cyfle neu ddau yn unig i ddechrau bob blwyddyn; a
- statws a thâl isel rhai gweithwyr cymorth EET (gweler y testun mewn blwch);
- diffyg sgiliau a/neu hyder wrth weithio gyda rhai grwpiau o bobl ifanc, fel y rhai o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc niwroamrywiol.

8.5. Gallai trafod a oes bwlch gweithredu rhwng bwriad y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith, a beth y gallai achosion hyn fod, fod yn drywydd holi ffrwythlon ar gyfer y gwerthusiad o'r Warant i Bobl Ifanc.

**Hyfforddi a Thalu Gweithwyr**

O ystyried y rôl ganolog sydd gan weithwyr cymorth, yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth, a amlinellwyd yn adran 5, mae'n debygol na all ansawdd gwasanaethau cymorth EET ragori ar

ansawdd eu gweithwyr[49]. Y broblem, fel y nododd un cyfwelai o wasanaeth cymorth EET, oedd bod cyflogau yn y diwydiant yn isel, yn enwedig i staff cymorth, y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc wyneb yn wyneb bob dydd, gwaith medrus a ddylai gael ei gydnabod. Dadleuodd y dylid cael rhagor o adnoddau i greu llwybr gyrfa ar gyfer y math penodol hwn o waith ieuenctid, gan eu bod yn ymdrin â chynifer o agweddau: tai, cymorth, gofal, iechyd, iechyd meddwl, gwaith therapiwtig, gyda chymhwyster sylfaenol sy'n cydnabod y gwaith, a thâl ac amodau priodol.

Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad)

*Darpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb*

8.6. Cyflymodd pandemig COVID-19 symudiadau i ddarparu cymorth ar-lein. Mae tystiolaeth o werthusiadau rhaglen fel CfW a CfW+ (Llywodraeth Cymru, 2023b) a Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol, yn awgrymu mai 'cyfuniad o gefnogaeth wyneb yn wyneb a chefnogaeth ar-lein fydd yr ateb gorau', gyda'r cynnig wedi'i deilwra yn ôl dewisiadau ac anghenion pob unigolyn (Llywodraeth Cymru, 2023a, tt. 40-41).

**Cyd-destun**

8.7. Nid yw rhaglenni cymorth EET yn gweithredu mewn gwagle; er enghraifft, gall gwendidau mewn marchnadoedd llafur a/neu gyfleoedd addysg a hyfforddiant ôl-16 danseilio eu heffeithiolrwydd (y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2012). I'r gwrthwyneb, gall marchnadoedd llafur bywiog a chyfleoedd addysg a hyfforddiant ôl-16 deniadol a hygyrch gynyddu eu heffeithiolrwydd (drwy ei gwneud yn haws ailymgysylltu pobl ifanc NEET).

**Gwasanaethau a chymorth cydgysylltiedig**

8.8. Fel y mae adran 4 yn dangos, gall partneriaid fel Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Chynnydd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith a

[49] Fel y nodwyd yn enwog yn Adroddiad McKinsey, sef How the world's best performing education systems come out on top, ni all ansawdd system addysg fod yn well nag ansawdd ei hathrawon.

Cymru'n Gweithio, fod â rôl allweddol wrth nodi a chyflwyno neu atgyfeirio pobl ifanc NEET, neu y bernir eu bod mewn perygl o fod yn NEET, i wasanaethau cymorth EET.

8.9. Fel y mae adran 5 yn dangos, ystyrir bod rhaglenni cynhwysfawr, aml-elfen yn fwy effeithiol, yn enwedig i'r rhai â rhwystrau mwy cymhleth; gall y rhain gynnwys elfennau neu ddarpariaeth a gyflwynir gan:

- y rhaglen cymorth cyflogaeth ei hun (er enghraifft, gan fentoriaid neu gynghorwyr); a
- phartneriaid, fel darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16, gwasanaethau statudol, fel gwasanaethau iechyd meddwl a thai, a'r trydydd sector a chyflogwyr (drwy leoliadau gwirfoddoli a gwaith).

8.10. Mae hygyrchedd, atyniad ac ansawdd yr elfennau gwahanol hyn yn ffactor allweddol arall sy'n gwella effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth EET, neu'n cyfyngu arnynt; er enghraifft:

- gall methiant partneriaid i nodi ac atgyfeirio pobl ifanc NEET ac a fyddai'n cael budd o gymorth, danseilio ymgysylltu pobl ifanc gan wasanaethau cymorth EET; a/neu
- gall oedi wrth gael mynediad at ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 a/neu wendidau ynddi arwain at bobl ifanc yn ymddieithrio rhag gwasanaethau cymorth EET (gan y gall cymhelliant godi a gostwng, a gall oedi olygu y caiff y foment ei cholli neu fod pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u siomi).

8.11. Er eu bod yn ddibynnol ar yr elfennau eraill hyn, cymharol brin yw dylanwad neu awdurdod ffurfiol gwasanaethau cymorth EET dros bartneriaid, oni bai y caiff darpariaeth ei chomisiynu gan wasanaethau cymorth EET[50] ac mae cydgysylltu darpariaeth a gweithio mewn partneriaeth yn bwysig felly. Gall modelau fel cydleoli hefyd fod yn effeithiol wrth wella mynediad at wasanaethau, gan annog perthnasoedd

[50] Er enghraifft, er bod atgyfeiriadau'n gyffredin, prin oedd yr enghreifftiau yn y dystiolaeth a adolygwyd o bartneriaethau ffurfiol neu integreiddio gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a chyflogaeth, heblaw am y Gwasanaeth Di-waith (Llywodraeth Cymorth, 2023c) a'r prosiect Cymorth a Lleoliad i Unigolion, Fedra i Weithio, a ariannwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru a oedd yn darparu cymorth iechyd a chyflogadwyedd integredig i bobl â salwch meddwl ysgafn i gymedrol rhwng 2019 a 2022.

gwaith effeithiol a chefnogi dealltwriaeth gyffredin o rolau (Green a Taylor, 2020). Fel yr amlinellwyd yn adran 6, gall arweinyddiaeth systemau fod yn bwysig yma. Fel yr amlinellwyd yn adran 5, nodir bod gweithio gyda phartneriaid, sef cyflogwyr yn fwyaf nodedig, a gwrando arnynt, hefyd yn hanfodol wrth ddeall eu disgwyliadau a'u gofynion.

8.12. Yn ehangach, fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad yn dangos, mae perfformiad gwasanaethau cyhoeddus mewn meysydd fel addysg a hyfforddiant, iechyd, tai a thrafnidiaeth, yn dylanwadu ar alluogrwydd pobl ifanc (er enghraifft, o ganlyniad i'w rhyngweithiadau â'r ysgol a'r gwasanaethau iechyd[51]), eu mynediad at gyfleoedd, a'u cymhelliant i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET a chyfleoedd EET (pan fo pobl ifanc wedi cael profiadau negyddol o wasanaethau ac wedi mynd yn ddrwgdybus, yn amheus neu'n ddihyder) (SEU, 2005). Gall ffactorau cymdeithasol fel hiliaeth, gwahaniaethu a theuluoedd yn chwalu hefyd effeithio ar alluogrwydd, mynediad at gyfleoedd a chymhelliant pobl ifanc. Felly, gall camau gweithredu mewn meysydd fel addysg a hyfforddiant, cymorth teuluol, iechyd, tai, trafnidiaeth gyhoeddus a chydlyniant cymunedol i gyd fod yn bwysig wrth gynorthwyo rhaglenni cymorth EET (Egdell a McQuaid, 2014).

8.13. Gan edrych yn benodol ar wasanaethau iechyd meddwl, sy'n debygol o chwarae rhan allweddol, o ystyried y nifer uchel o anawsterau iechyd meddwl a amlinellwyd yn adroddiad cyntaf yr adolygiad, mae bwlch mawr rhwng galw a chapasiti (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022). Mae'n bosibl yr ystyrir mai dyma'r her fwyaf y mae gwasanaethau'n ei hwynebu heddiw, ac un a fydd yn llesteirio ymdrechion i drawsnewid eu strwythurau, eu hymarfer a/neu eu diwylliant (gan gynnwys gwella gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau eraill). Er ei bod yn bosibl bod y materion penodol a'u maint yn wahanol heddiw, nid heriau newydd yw'r rhain yn y bôn ac, fel y nododd strategaeth Busnes Pawb Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn 2001 dros 20 mlynedd yn ôl, cydweithio da yw Greal Sanctaidd pob ymdrech i wella darpariaeth gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol. Mae'n

[51] Er enghraifft, gall yr anawsterau y gall pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl gael profiad ohonynt wrth bontio o CAMHS i AMHS olygu y byddant yn ymddieithrio rhag gwasanaethau iechyd meddwl, ac y bydd eu hanawsterau iechyd meddwl yn gwaethygu (Llywodraeth Cymru, 2020).

hawdd gweld pwys hanfodol hynny, ond bu'n anodd iawn ei gyflawni (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001, t.23).

**Cydgynhyrchu**

8.14. Mae cydgynhyrchu wedi'i ddiffinio fel dull lle mae 'gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad byw, i ddatblygu atebion i heriau mewn gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau' (Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, 2022); gall hyn gwmpasu:

- gwaith gyda phobl ifanc unigol, wedi'i enghreifftio drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y person, pan fo gweithwyr proffesiynol, fel cynghorwyr neu fentoriaid, yn gweithio gyda phobl ifanc i ddeall galluogrwydd, mynediad at gyfleoedd a chymhellion pobl ifanc a'u helpu i wireddu eu dyheadau, fel bod pobl ifanc yn asiantiaid gweithredol dros newid, yn hytrach na derbynwyr goddefol cymorth[52]; a
- gwaith ar lefel rhaglen i'w cydlunio, eu cyd-ddarparu, eu cydreoli a'u cydwerthuso. Fel y mae'r testun mewn blwch yn dangos, hyd yn oed os nad yw cydgynhyrchu wedi'i ddatblygu'n llawn, gall ddod â buddiannau pwysig.

| **Cydgynhyrchu ar waith** |
| --- |
| Nododd GISDA, un o'r sefydliadau a gyfrannodd at yr adolygiad, fod ganddo fwrdd pobl ifanc a phrosiectau cydgynhyrchu hefyd sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol; er enghraifft, comisiynodd Cydgynhyrchu Cymru i weithio gyda rhai o'i bobl ifanc i gynllunio'r lle newydd a rennir yn yr adeilad newydd. Adroddodd ei fod yn teimlo ei fod wedi cefnogi pobl ifanc sy'n ymwneud â chydgynhyrchu'n dda, bod y pethau y mae pobl ifanc yn eu nodi'n cael sylw'n gyflym, felly mae ganddynt ffydd yn y system a'i bod yn ffordd naturiol i staff weithio. Fodd bynnag, cydnabu, er bod arfer effeithiol mewn meysydd gwaith penodol, fod angen dod o hyd i ffordd o dyfu hynny i'r sefydliad cyfan. |
| Ffynhonnell: cyfweliadau (ar gyfer yr adolygiad) |

[52] Gweler, er enghraifft, Capability Approach (Egdell a McQuaid (2014).

8.15. Fel yr amlinellwyd yn adran 5, argymhellir dulliau sy'n canolbwyntio ar y person yn eang yn y llenyddiaeth, ond mae gwasanaethau EET yn ymgorffori egwyddorion cydgynhyrchu i raddau amrywiol. Ni chafwyd bod rhywfaint o ddarpariaeth, fel rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau, er enghraifft, y Rhaglen Waith, a oedd yn orfodol i rai hawlwyr, bob amser yn rymusol, ac roeddent yn aml yn canolbwyntio ar amcanion sefydliadol (sicrhau bod pobl yn mynd i fyd gwaith mor gyflym â phosibl) yn hytrach na dyheadau'r unigolyn ei hun (fel dod o hyd i swydd 'dda') (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2014). I'r gwrthwyneb, mae pobl ifanc yn fwy tebygol o adrodd bod rhaglenni gwirfoddol fel CfW a CfW+, â mwy o ethos sy'n canolbwyntio ar y person, yn seiliedig ar bartneriaeth ddilys rhyngddynt a'u cynghorydd neu eu mentor, ac yn arddangos mwy o'r gwerthoedd cydgynhyrchu a restrir yn y testun yn y blwch (Llywodraeth Cymru, i ddod).

**Gwerthoedd Cydgynhyrchu**

Mae Cydgynhyrchu Cymru yn nodi pum gwerth allweddol (a restrir isod). Ar gyfer rhaglen cymorth cyflogaeth fel CfW neu CfW+ gall hyn olygu, er enghraifft:

- **'gwerthfawrogi pobl a magu eu cryfderau'**, a chanolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ifanc ei wneud, yn hytrach nag ar wendidau neu anawsterau, er ei bod yn bwysig na fydd yr heriau y mae person ifanc yn eu hwynebu yn cael eu hanwybyddu;
- **'canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl dan sylw'**, fel dyheadau pobl ifanc, heb eu derbyn yn anfeirniadol, er enghraifft, gall camaliniad rhwng dyheadau person ifanc a'i alluogrwydd a/neu ei gyfleoedd ei ddal yn ôl;
- **'meithrin cysylltiadau a seilir ar ffydd a grym a rennir'**; soniodd pobl ifanc yn y gwerthusiad (Llywodraeth Cymru, i ddod) am bwysigrwydd natur wirfoddol eu perthynas a bod y cynghorwyr neu'r mentoriaid yn meithrin ymddiriedaeth o ganlyniad i'w hempathi a'u cymorth, ond hefyd eu dibynadwyedd, wrth wneud yr hyn y gwnaethant ddweud y byddent yn ei wneud;

- ‘**datblygu rhwydweithiau sy’n gweithredu ar draws seilo’**, er enghraifft, drwy weithio gyda phartneriaid, fel cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant a gwasanaethau’r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol; a
- **‘galluogi pobl i ysgogi newid’** sydd, fel rhaglen wirfoddol, yn hanfodol, gan na all y rhaglen helpu pobl ifanc oni bai eu bod yn dewis ailymgysylltu a chymryd camau i feithrin eu galluogrwydd neu eu mynediad at gyfleoedd.

*Addaswyd o: Cydgynhyrchu Cymru a Llywodraeth Cymru,* i ddod.

8.16. At hynny, argymhellir cydgynhyrchu ar lefel rhaglen, er iddo gael ei werthuso’n llai cadarn; er enghraifft, mae Green a Taylor (2020, t.8) yn nodi bod cynnwys defnyddwyr wrth gynllunio rhaglen yn helpu i lywio ymyriadau i gyd-fynd ag anghenion defnyddwyr yn well wrth ddarparu profiadau newydd i’r buddiolwyr a helpu i fagu eu hyder. Mewn modd tebyg, fel yr amlinellwyd yn adran 4, er bod ymchwil yn tynnu sylw at bwysigrwydd deall cymhelliant pobl ifanc, gan gynnwys sut y caiff hyn ei lywio gan y canfyddiad o’u galluogrwydd a’u mynediad at gyfleoedd, mae’n ymddangos nad yw hyn wedi llywio’n gyson y modd y mae gwasanaethau cymorth cyflogaeth yn cael eu llunio a/neu eu darparu (y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, 2020), sy’n her hirsefydlog (SEU, 2005). Yn wir, fel y nododd un cyfrannwr i’r gweithdai, ‘dw i ddim yn gwybod sut beth yw dod o gartref sydd wedi chwalu’ felly roedd clywed gan y rhai â ‘phrofiad bywyd’ yn hanfodol.

**Cydgynhyrchu ar waith: Talent Match**

Roedd Talent Match yn rhaglen a ariannwyd gan raglen y Gronfa Loteri Fawr, i gefnogi pobl 18-24 oed NEET, drwy gynnig darpariaeth wirfoddol, bersonol a hyblyg. Nododd y gwerthusiad o’r rhaglen fod rhan pobl ifanc yn cynnwys:

- grwpiau llywodraethu ac ymgynghori dan arweiniad pobl ifanc sydd â swyddogaeth gynrychiadol ar strwythurau llywodraethu ehangach neu ddylanwad arnynt, fel byrddau partneriaeth, grwpiau llywio a phaneli comisiynu;

- unigolion neu grwpiau o bobl ifanc yn ymgysylltu pobl ifanc â Talent Match a darparu cymorth a hyfforddiant gan gyfoedion;
- helpu i ddatblygu a/neu ddarparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion pobl ifanc, naill ai drwy gynghori datblygu gwasanaethau neu ddarpariaeth uniongyrchol; a
- dylanwadu ar bolisi ac ymarfer yn lleol, gan roi adborth i gyflogwyr, awdurdodau lleol a Canolfan Byd Gwaith.

Nododd y gwerthusiad fod cynnwys pobl ifanc yn helpu i wella ansawdd gwasanaethau a'i fod hefyd o fudd i bobl ifanc a oedd yn meithrin sgiliau ac yn magu hyder.

(Addaswyd o Green a Taylor, 2020, t.16)

8.17. Codir pwysigrwydd deall profiad goddrychol pobl ifanc gan Williamson (2010), sy'n gwneud y sylw a ganlyn ar bobl ifanc, fel 'Tommy':

> 'Will try to make sense of these 'opportunities' [such as the offer from EET support services] in the context of his subjective realities. The power in the messages from his local culture and community (however misguided and misinformed) about what's the point of education, the exploitative nature of government training schemes, the need for a 'live for today' mentality (for the maintenance of psychological well-being), the suspicion of professionals, that volunteering is a cunning ploy to get you to work for nothing, the fact that there are other ways to 'get by' and so on, must not be overlooked. It is how Tommy Butler weighs such information against that provided by the battalions involved in public policy initiatives which will determine the extent to which he connects with the inclusion, achievement and citizenship agenda or opts for something else'. (Williamson, 2010, t.15).

**Effeithiau niweidiol posibl**

8.18. Mae tystiolaeth gyfyngedig o effeithiau niweidiol posibl; dyma'r prif risgiau (heblaw am bolisi sy'n aneffeithiol) a nodwyd yn y llenyddiaeth a adolygwyd:

- profiadau negyddol o EET neu wasanaethau cymorth EET, a all greu neu waethygu neu ymwreiddio rhwystrau agweddol a oedd yn bodoli eisoes i ymgysylltu ag EET neu wasanaethau cymorth EET (fel amheuaeth a/neu golli hyder a all wneud i bobl golli cymhelliant);
- amodoldeb a chosbau lles a all annog pobl ifanc i roi'r gorau i hawlio budd-daliadau, a lleihau eu hymgysylltu â gwasanaethau cymorth a chynyddu eu risgiau o gael profiad o dlodi ariannol[53] (er, fel yr amlinellwyd yn adran 5, y gall y mesurau hyn hefyd annog pobl ifanc i ymgysylltu[54]); a
- cymorth cyflogaeth sy'n mabwysiadu dull 'swyddi'n gyntaf', a all roi pobl mewn perygl o gael eu dal mewn cylchoedd o waith gwael/bod heb waith, y gall fod yn anodd dianc rhagddynt (McKnight et al., 2016; Egdell a McQuaid, 2014).

**Gwarantau Pobl Ifanc**

8.19. Mae gwarantau pobl ifanc yn yr Alban[55] (nad ydynt wedi'u gwerthuso eto) ac ar draws yr Undeb Ewropeaidd (UE)[56] (sydd wedi'u gwerthuso) ILO, 2017). Ceir tystiolaeth o'r UE bod cynlluniau yn y Ffindir a Sweden wedi arwain at lai o ddiweithdra a dadleuir y gall gwarantau pobl ifanc:

- helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch pontio i'r gwaith;
- gwella maint gwasanaethau cymorth EET (gan leihau'r risg bod pobl ifanc yn 'cwympo drwy'r rhwyd'),

[53] Gweler, er enghraifft, Sefydliad Joseph Rowntree ar y caledi sy'n gysylltiedig â pheidio â hawlio budd-daliadau.
[54] Nododd Welfare Conditionality Project (2018), mewn perthynas ag oedolion di-waith (yn hytrach na phobl ifanc yn benodol), nad oedd amodoldeb lles yn gyffredinol (ar ffurf cosbau budd-daliadau ac apwyntiadau gorfodol yn Canolfan Byd Gwaith ac asiantaethau dychwelyd i'r gwaith ar gontract allanol) yn annog 'newid ymddygiad'. Yn lle hynny, arweiniodd cosbau budd-daliadau, a'r bygythiad ohonynt, at ganlyniadau negyddol yn bennaf. Adroddodd llawer o gyfranogwyr fod ofn cosb yn wrthgynhyrchiol a bod hynny'n blaenoriaethu cydymffurfio â gweithgareddau diystyr a oedd yn aneffeithiol ar gyfer dod o hyd i waith (Stewart a Wright, 2018, t.1).
[55] Nod y warant pobl ifanc yn yr Alban yw cysylltu pob person 16 i 24 oed yn yr Alban â chyfle. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y warant pobl ifanc.
[56] Mae'r rhain yn darparu 'gwarant' o sicrwydd i bobl ifanc ailymgysylltu ag EET o fewn 4 mis i ddod yn ddi-waith neu adael byd addysg. Mae'r prif fath o gymorth a gynigir yn wahanol rhwng gwledydd. Mae'n cynnwys cymysgedd o: addysg a hyfforddiant ar gyfer rhaglenni cyflogaeth; cymorth i'r rhai sydd mewn perygl o adael byd addysg; cymorth ar gyfer chwilio am swyddi; polisïau marchnad lafur gweithredol fel cynlluniau creu swyddi a chymhellion a chymorthdaliadau i gyflogwyr recriwtio pobl ifanc ac i bobl ifanc ddechrau eu busnesau eu hunain. (ILO, 2017).
.

- cynyddu'r cyflymder y gall gwasanaethau EET ymateb (a all fod yn arbennig o bwysig wrth leihau effeithiau creithio) (Massimiliano, 2012; Green a Taylor, 2020) er bod y dystiolaeth yn gymysg yma (CE, 2018).

8.20. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod gwarantau pobl ifanc:

- yn gweithio'n well i'r rhai sydd eisoes yn barod am waith a bod angen rhagor o gamau i gyrraedd y rhai sydd wedi ymddieithrio'n fwy;
- wedi'u galluogi a'u cyfyngu gan ffactorau strwythurol, fel cryfder y farchnad lafur a lefelau'r adnoddau; a
- mae astudiaethau eraill yn awgrymu mai dim ond tystiolaeth gyfyngedig sy'n bodoli ynghylch eu heffeithiolrwydd hirdymor (O'Reilly, et al. 2015, a nodwyd yn Green a Taylor, 2020; ILO, 2017).

8.21. Felly, mae'r dystiolaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu nad oes unrhyw beth o reidrwydd yn drawsnewidiol am warantau ieuenctid, yn enwedig pan maent yn cynnwys ymyriadau presennol, y mae eu heffeithiolrwydd (fel yr amlinellwyd yn adrannau 4 i 6) yn gymedrol yn unig. Yn wir, roedd y gwledydd Ewropeaidd a oedd fwyaf llwyddiannus wrth weithredu gwarantau pobl ifanc yn tueddu i feddu ar y system cymorth cyflogaeth fwyaf effeithiol cyn y warant (CE, 2018).

**Perthnasedd ymyriadau i gyd-destun Cymru**

8.22. Roedd gwerthusiad cynhwysfawr o bolisi Cymru ymhell y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon[57], ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael o werthusiadau rhaglenni fel CfW a CfW+ (Llywodraeth Cymru, 2023b) yn awgrymu bod polisi yng Nghymru yn cyd-fynd yn fras â'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Y broblem yw mai dim ond yn gymedrol dda y mae hyn yn gweithio ar y cyfan ac, fel yr amlinellwyd yn adroddiad cyntaf yr adolygiad, mae'n ymddangos ei fod yn methu rhai grwpiau, fel pobl ifanc anabl. At hynny, dyma'r safbwynt a fynegwyd gan lawer o gyfranogwyr yn y gweithdy a oedd, fel arfer, yn mynegi hyder cyffredinol yng nghryfder y cynnig yng Nghymru, yn ogystal â phryderon mwy penodol fel:

[57] Bydd y gwerthusiad i ddod o'r Warant i Bobl Ifanc yn ystyried hyn.

- pobl ifanc sy'n NEET, ond nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET ar hyn o bryd; er enghraifft, fel y dywedodd un cyfrannwr, ‘rhaid i ni symud i ddod o hyd i’r rhai anoddaf i’w cyrraedd’;
- yr angen am waith cynllunio a chydgysylltu rhanbarthol a lleol gwell; fel y dywedodd un cyfrannwr, ‘sut rydym yn gweu’r cyfan ynghyd, ei ddanfon, ei becynnu?’ ac fel y dywedodd un arall, mae gennym ‘gynnig cenedlaethol clir, y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae angen i gynigion lleol weu ynghyd’;
- gwendidau mewn cymorth yn y gwaith; er enghraifft, fel y dywedodd un cyfrannwr, ‘nid ydym yn gwneud llawer na digon ohono’.[58]

8.23. At hynny, fel y nododd un cyfrannwr, ‘rydym yn ceisio gwneud pethau gwahanol, ond mae gennym lai o arian! [yn enwedig ers i arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop ddod i ben]’.

8.24. O ystyried y pryderon hyn, roedd diddordeb penodol ymhlith cyfranogwyr y gweithdy mewn:

- ffyrdd newydd o estyn allan at bobl ifanc a dylanwadu arnynt, fel gwaith ieuenctid datgysylltiedig, gan estyn rôl y trydydd sector, a gweithio gyda dylanwadwyr, gan gynnwys gwaith gyda chyfoedion pobl ifanc, ysgolion ac, o bosibl, rhieni;
- y posibilrwydd ar gyfer segmentu; er enghraifft, fel y nododd un cyfrannwr, mae ‘grwpiau gwahanol o bobl ifanc NEET ac mae gan bob un ei her ei hun - felly, a ddylem gael strategaeth ar gyfer pob un a thaith cymorth glir ar gyfer pob un?[59]; a
- datblygu cymorth yn y gwaith, fel ‘ffocws model mentora ar y diwydiant y maent yn ei ddymuno, gwaith gyda chyflogwyr, creu cyrsiau blasu, profiad gwaith, help ganddynt i groesi'r llinell’ a datblygu rôl oedolion y gellir ymddiried ynddynt, ‘rhywun yno, sy’n gefn i chi’. Roedd diddordeb hefyd mewn gweithio gyda

[58] Mae’n werth nodi bod y Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith newydd yn ‘darparu cymorth a hyfforddiant i helpu pobl a busnesau i wella llesiant yn y gweithle’, gan gynnwys ‘cymorth i helpu pobl [g]yflogedig a hunangyflogedig i reoli eu cyflwr iechyd a naill ai dychwelyd i’r gwaith neu aros yn y gwaith’ a hyfforddiant a chymorth…i helpu busnesau i wella llesiant yn y gweithle’ (Llywodraeth Cymru, 2023f).

[59] Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys datblygu’r continwwm cymorth a gynigir gan Cymru’n Gweithio a rhaglenni sydd wedi’u targedu’n fwy fel TSC+Mwy a CfW+.

chyflogwyr; fel y dywedodd un cyfrannwr, ‘symbylu cyflogwyr y sector preifat i chwarae rhan wrth gefnogi a mentora’.

**Cyfleoedd, dulliau a rhwystrau**

8.25. Mae diwedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru wedi dod â rhai cyfleoedd, o ran galluogi datblygu rhaglenni mwy hyblyg fel CfW+, ond roedd y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon yn gyffredinol o’r farn bod hyn yn golled net fawr i Gymru, o ystyried y toriadau mewn cyllid cyffredinol (gweler Llywodraeth Cymru, 2022d) a darnio o ran cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar draws 22 o awdurdodau lleol.

8.26. Yn ehangach, fel yr amlinellwyd uchod, mae’r cyd-destun yn benderfynydd allweddol o ran effeithiolrwydd cymorth EET. Fel y mae ffigur 8.1 yn dangos, mae’r adolygiad cyflym o bolisi a chyd-destun cyflogaeth, i lywio'r gwaith o ddiweddaru Strategaeth Cyflogadwyedd Cymru (Wilson, 2021) yn nodi saith sbardun allweddol polisi cyflogaeth, gyda graddau gwahanol o reolaeth a dylanwad Llywodraeth Cymru. Maent yn nodi bod rheolaeth a dylanwad cyfyngedig dros sbardunau allweddol, fel polisi marchnad lafur, yn anochel yn cyfyngu ar gwmpas unrhyw warant pobl ifanc gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae cwmpas Llywodraeth Cymru i symbylu'r galw (a helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth) a/neu lywio’r system lles (e.e. i gynyddu’r cymhellion ariannol sy’n gysylltiedig â chyflogaeth), yn gyfyngedig.

**Ffigur 8.1. Sbardunau polisi cyflogaeth a graddau rheolaeth neu ddylanwad Llywodraeth Cymru**

| Gyrrwr | Cyfrifoldeb | LlC yn rheoli/dylanwadu |
|---|---|---|
| 1. Sefydlogrwydd economaidd macro | DU | Rheolaeth isel / dylanwad isel |
| 2. Datblygu economaidd | DU a Chymru | Rheolaeth uchel / dylanwad canolig |
| 3. Polisi marchnad lafur gweithredol | DU a Chymru | Rheolaeth ganolig / dylanwad canolig |
| 4. Polisi sgiliau | Cymru | Rheolaeth uchel |
| 5. Rheoleiddio cyflogaeth / ymarfer | DU | Rheolaeth isel / dylanwad canolig |
| 6. Gwneud polisïau cyflog gwaith | DU | Rheolaeth isel / dylanwad isel |
| 7. Polisïau cymdeithasol ehangach | Cymru | Rheolaeth uchel |

Ffynhonnell: Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth

8.27. Mae’r angen i gysoni polisi Cymru â pholisi’r Adran Gwaith a Phensiynau yn amlwg yn bwysig. Mae profiad rhaglenni fel CfW yn awgrymu bod gwaith partneriaeth cryf ar lefel weithredol yn bosibl, ond gellir tanseilio hyn gan benderfyniadau strategol, fel cyflwyno rhaglenni newydd fel Ailgychwyn, a all, yn y pen draw, gystadlu â darpariaeth bresennol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023b).

# 9. Casgliadau

### Yr hyn sy'n gweithio

9.1. Mae corff cymharol fawr o dystiolaeth sy'n nodi ‘yr hyn sy'n gweithio’ i helpu pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig neu rwystrau cymhleth i fynd i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a chynnal hynny (a gwersi ac arfer da hefyd). Fel yr amlinellwyd yn adrannau 4 i 6, mae hyn yn canolbwyntio ar ‘yr hyn sy'n gweithio’ mewn perthynas â'r canlynol:

- ymgysylltu â phobl ifanc; a
- gwella cymhelliant, galluogrwydd a/neu fynediad at gyfleoedd pobl ifanc, i'w helpu i gael mynediad at EET ac yna i gynnal yr ailymgysylltu a'r cynnydd hwnnw mewn EET.

9.2. Y neges allweddol o'r adolygiad yw nad oes ‘bwled arian’ (neu ateb i bob problem); ond mae'r hyn sy'n gweithio yn cael ei ddeall yn gymharol dda ac mae'n cynnwys:

- canolbwyntio ar bobl ifanc i gael gwell dealltwriaeth o'u cymhelliant, eu galluoedd a/neu fynediad at gyfleoedd, sy'n gallu galluogi a chyfyngu eu hymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET gymaint â'u hymgysylltu â chyfleoedd EET;
- canolbwyntio ar gyflogwyr ac ar ddarparwyr addysg neu hyfforddiant hefyd, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'u disgwyliadau a'r cyfleoedd EET sy'n agored i bobl ifanc. Gall hyn helpu i sicrhau bod cymorth i bobl ifanc yn rhoi'r galluoedd, yr agweddau a'r ymddygiad iddynt y mae cyflogwyr neu ddarparwyr addysg a hyfforddiant yn eu disgwyl; bod y rhai sy'n darparu cymorth yn gallu broceru mynediad at gyfleoedd a bod dyheadau pobl ifanc yn cyd-fynd â'u galluoedd a'r cyfleoedd EET y gallant gael mynediad atynt;
- cynorthwyo pobl ifanc mewn ffordd hyblyg, ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y person, drwy rolau deuol oedolyn y gellir ymddiried ynddo a gweithiwr proffesiynol arweiniol, a all ddarparu cymorth bugeiliol ac ymarferol eu hunain a broceru mynediad at gyfleoedd EET a chymorth gan eraill (e.e. gwasanaethau iechyd a thai) lle bo angen; a

- gwneud hyn i gyd yn dda drwy, er enghraifft, sicrhau bod gan staff y cymhelliant a'r galluoedd a mynediad at gyfleoedd (fel cymorth gan bartneriaid) sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau a bod rhaglenni'n cael eu cyllido'n ddigonol a'u gwerthuso'n gadarn.

9.3. Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth hon wedi'i chyfyngu'n bennaf i 'beth sy'n gweithio' ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET (gan eu bod yn cael eu cynnwys mewn gwerthusiadau) ac mae llawer llai yn hysbys ynghylch 'beth sy'n gweithio' gyda'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu (nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys mewn gwerthusiadau).

*Beth sy'n gweithio i bwy?*

9.4. Mae pobl ifanc sy'n ailymgysylltu yn debygol o ddilyn llwybrau gwahanol; er enghraifft:

- mae rhai yn debygol o fod mewn cyfnod o bontio, neu efallai nad ydynt wedi penderfynu ble i fynd nesaf. Efallai y byddant yn ymateb yn rhagweithiol i farchnata ac y bydd dim ond angen cymorth ysgafn arnynt i ddod o hyd i'w llwybr;
- efallai y bydd rhai yn cael eu hannog i ailymgysylltu gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt, ond hefyd, er enghraifft, gan weithwyr cymorth EET, gweithwyr ieuenctid ac o bosibl eu cyfoedion, ond efallai y bydd angen cymorth ar y bobl ifanc hyn i roi'r cymhelliant hwn i ailymgysylltu ar waith;
- efallai y bydd rhai yn profi trobwyntiau yn eu bywydau, efallai mewn ymateb i eiliadau tyngedfennol fel profedigaeth, sy'n eu harwain i ailasesu'r hyn y maent am ei wneud, ond y gall fod angen cymorth arnynt hefyd i roi'r cymhelliant hwn i ailymgysylltu ar waith; ac
- efallai y bydd angen y cymorth yn gyntaf ar rai i'w helpu i 'sefydlogi' eu bywydau, cyn iddynt allu ystyried ailymgysylltu.

9.5. Fel y mae adran 5 yn amlinellu, mae'n ymddangos bod rhaglenni cymorth cyflogaeth yn gweithio orau gyda'r rhai tra medrus, cymwysedig a llawn cymhelliant. Fodd bynnag, mae'r ychwanegedd yn aml yn gymharol fach; hynny yw, byddai llawer o bobl ifanc sy'n cael eu cynnwys gan y rhaglenni wedi dechrau cyflogaeth heb y cymorth a werthuswyd (IES, 2020). Fel y mae un astudiaeth yn nodi, profiad llawer o

raglenni'r farchnad lafur yw bod y cymorth yn y pen draw o fudd i'r rhai sydd agosaf at y farchnad lafur, y gall llawer ohonynt ddod o hyd i waith heb gymorth o gwbl (Damm et al., 2020).

9.6. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, yn gyffredinol y rhai â'r galluogrwydd a'r cymhelliant gwannaf a/neu'r cyfleoedd mwyaf cyfyngedig, sy'n llai tebygol o ailymgysylltu ag EET heb gymorth, yw'r anoddaf i ymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo a'r rhai sy'n llai tebygol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol os ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET. Fel y mae adroddiad cyntaf yr adolygiad yn amlinellu, mae'r deilliannau i ran grwpiau, fel pobl ifanc anabl, yn arbennig o wael. Drwy ddiffiniad, nid yw'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu yn cael budd o gymorth, a'r hiraf y maent yn NEET, y mwyaf yw'r perygl y byddant yn cael eu ‘dal’ neu hyd yn oed yn cymryd cam yn ôl, gan golli galluogrwydd a chymhelliant.

9.7. Mae hyn yn codi cwestiynau anodd ynghylch y lle orau i dargedu adnoddau prin; er enghraifft i:

- ganolbwyntio ar ymyriadau y mae eu heffeithiolrwydd wedi'i ddangos, ond dangoswyd eu bod yn cael effaith gymedrol yn unig ac nad ydynt yn cyrraedd rhai grwpiau targed; neu
- i ganolbwyntio ar ymyriadau nad yw eu heffeithiolrwydd (eto) wedi'i ddangos (gwerthuso), ond a allai fod o fudd i grwpiau nad oes ymgysylltu effeithiol â nhw ar hyn o bryd a/neu nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan ymyriadau presennol.

**Beth yw perthnasedd yr ymyriadau i gyd-destun Cymru? Pa mor dda y maent yn cyd-fynd â strategaethau a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?**

9.8. Mae'r dystiolaeth (gyfyngedig) o'r adolygiad hwn (nad oedd yn werthusiad cynhwysfawr o bolisi) yn awgrymu bod polisïau presennol yn seiliedig ar dystiolaeth; er enghraifft:

- mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn canolbwyntio'n gryf ar nodi'n gynnar;
- mae rhaglenni fel Cymru'n Gweithio a CfW+ yn cynnig cyngor, hyfforddiant a chymorth personol; ac

- mae rhaglenni fel TSC+Mwy a CfW+ yn cynnig cymorth a mynediad ychwanegol at hyfforddiant a lleoliadau gwaith.

9.9. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu eu bod dim ond yn gweithio'n weddol dda, oherwydd y canlynol:

- mae nifer mawr o bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET ac maent yn wynebu risg o gael eu dal, neu hyd yn oed gymryd cam yn ôl, os yw eu galluogrwydd a'u cymhelliant i ailymgysylltu ag EET yn dirywio dros amser; ac
- mae'n debygol y byddai llawer o'r rhai sy'n cael eu cynorthwyo gan wasanaethau cymorth EET yn ailymgysylltu yn absenoldeb cymorth (sy'n golygu bod ychwanegedd cyfyngedig), er y gallent wneud hynny'n arafach a/neu ei chael yn anodd cynnal eu hailymgysylltu ag EET yn absenoldeb cymorth.

9.10. Felly, mae'n annhebygol y bydd gwneud rhagor o'r un peth yn ddigonol. Mae'r adolygiad yn amlygu tri maes eang ar gyfer gweithredu:

- ymgysylltu â phobl ifanc NEET ond nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET ar hyn o bryd;
- cynorthwyo pobl ifanc â'r galluogrwydd a'r cymhellant gwannaf a/neu'r cyfleoedd mwyaf cyfyngedig, i'w galluogi i ailymgysylltu ag EET; a
- chynorthwyo pobl ifanc i gynnal EET a gwneud cynnydd.

9.11. Mae'r adolygiad hefyd yn glir nad dim ond yr hyn sy'n cael ei wneud sy'n gwneud gwahaniaeth, ond pa mor dda mae'n cael ei wneud. Felly, mae'n bosibl, er y tu hwn i gwmpas yr adolygiad hwn i asesu hyn, bod y broblem yn fwy o fwlch rhwng bwriad polisi ac ymarfer, yn hytrach na bylchau mewn polisi. Felly, yn hytrach na rhaglenni newydd, efallai'r hyn sy'n ofynnol yw newid yn niwylliant ac ymarfer rhaglenni presennol; er enghraifft, er bod ymrwymiad i ddulliau sy'n canolbwyntio ar y person yn un o nodweddion cyffredin gwasanaethau cymorth EET, mae gwerthusiadau o raglenni a phrofiadau pobl ifanc o'r rhaglenni hynny yn amlygu, er enghraifft:

- gall pobl ifanc deimlo nad oes gan staff rhaglenni ddigon o amser i ddod i'w hadnabod, eu deall a'u cynorthwyo[60]; a
- gall staff deimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan dargedau, rheolau a rheoliadau rhaglenni a chyllid prosiect tymor byr a diffyg ymreolaeth (sy'n cyfyngu ar eu gallu i arfer eu barn eu hunain), sy'n gallu rhoi buddiannau'r rhaglen uwchlaw rhai'r person ifanc[61].

*Ymgysylltu â phobl ifanc NEET nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET ar hyn o bryd a'u cynorthwyo*

9.12. Fel yr amlygodd adroddiad cyntaf yr adolygiad, un her allweddol i Gymru yw bod gan rai pobl ifanc:

- alluoedd gwan neu wedi'u gwanhau (er enghraifft, o ganlyniad i anawsterau iechyd meddwl, cyflyrau niwroddatblygiadol neu anawsterau yn yr ysgol);
- mynediad cyfyngedig i gyfleoedd o ansawdd (er enghraifft, o ganlyniad i gyfrifoldebau gofalu, anawsterau teithio a/neu wendidau mewn marchnadoedd llafur lleol); a/neu
- ddiffyg cyfatebiaeth rhwng eu dyheadau a'u galluoedd a/neu fynediad at gyfleoedd cyflogaeth.

9.13. Mae'r heriau hyn yn golygu bod llawer wedi digalonni a naill ai wedi'u dal neu'n cymryd cam yn ôl (er enghraifft, lle mae galluoedd nad ydynt yn cael eu harfer yn gwanhau, yn enwedig yn sgil y pandemig). Mae hwn yn bryder allweddol oherwydd po hiraf y maent yn NEET, y mwyaf yw'r risg y byddant yn ei chael yn anodd ailymgysylltu yn y dyfodol.

9.14. Fel y nodwyd, er bod llai o dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn, o ystyried y dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio a pham, a hefyd beth arall allai weithio, mae'n rhesymol dod i'r casgliad y bydd angen i ymdrechion i ailymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo fod yn seiliedig ar:

[60] Mae hyn yn fwyaf amlwg yn eu hadroddiadau am brofiadau gyda staff Canolfan Byd Gwaith (Llywodraeth Cymru, 2023b).
[61] Er enghraifft, cymharodd staff CfW+ yr hyblygrwydd yr oeddent yn ei deimlo o gymharu â staff CfW a oedd wedi'u cyfyngu'n fwy gan dargedau, rheolau a rheoliadau sy'n gysylltiedig â chyllid CGE ar gyfer y rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2023b).

- yn gyntaf, dealltwriaeth o feddylfryd ac ymddygiad pobl ifanc a'u profiad bywyd a chanolbwyntio ar hyn, gan, er enghraifft, ganolbwyntio ar arfer sy'n cael ei lywio gan dystiolaeth a damcaniaeth (er enghraifft, defnyddio'r model COM-B fel yn yr adolygiad hwn) a chydgynhyrchu, er mwyn llywio sut y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET i ddechrau a sut y mae gwasanaethau cymorth EET yn eu cynorthwyo;
- yn ail, dealltwriaeth o ddisgwyliadau cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant a'r cyfleoedd a gynigir ganddynt a chanolbwyntio ar hyn, er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod dyheadau a chymhelliannau pobl ifanc (gan gynnwys ymyriadau fel gwybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol i lunio eu dyheadau) yn cyd-fynd â'u galluogrwydd a'u mynediad at gyfleoedd;
- yn drydydd, gweithio gyda phobl ifanc mewn ffordd hyblyg, ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y person, drwy rolau deuol oedolyn y gellir ymddiried ynddo a gweithiwr proffesiynol arweiniol, gan gynnig cymorth bugeiliol ac ymarferol a broceru mynediad at gyfleoedd EET a ffynonellau eraill o gymorth er mwyn:
    - gwella a chynnal eu cymhelliant (drwy feithrin hunaneffeithiolrwydd pobl ifanc a'u dealltwriaeth o gyfleoedd ac opsiynau);
    - meithrin eu galluoedd i fanteisio ar gyfleoedd EET (drwy leoliadau hyfforddi a gwaith a chymorth ar gyfer eu hiechyd); ac
    - ehangu eu mynediad at gyfleoedd (drwy gymorth a chyngor ynghylch gofal plant a theithio).
- yn bedwerydd, arfer arweinyddiaeth systemau sy'n hybu cydweithio y tu hwnt i fodelau presennol o weithio mewn partneriaeth, fel sefydlu mecanweithiau i atgyfeirio pobl ifanc rhwng partneriaid, gan newid a herio'r system. Gallai hyn gynnwys cynghorydd unigol mewn gwasanaeth cymorth EET yn sicrhau bod person ifanc y bernir ei fod mewn perygl o roi'r gorau iddi yn cael ei amlygu i wasanaethau cymorth i fyfyrwyr fel person ifanc mewn perygl. Ar ben arall y sbectrwm, gallai gynnwys gwaith ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol drwy, er enghraifft, Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol neu Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i fynd i'r afael â gwendidau systemig mewn tai,

darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16, neu wasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc.

9.15. Bydd angen i'r canlynol fod yn sail i hyn:

- continwwm o gymorth, yn amrywio o wybodaeth , cyngor ac arweiniad ysgafn hyd at gymorth mwy dwys a hirdymor i bobl ifanc sydd, er enghraifft, â galluogrwydd cyfyngedig (er enghraifft, o ganlyniad i salwch meddwl neu ADY) a/neu fynediad cyfyngedig at gyfleoedd (er enghraifft, o ganlyniad i'w hamgylchiadau personol fel digartrefedd), ac (fel yr amlinellwyd uchod, gweler e.e. paragraff 9.13) gall fod angen i ddatblygu dulliau newydd i ddarparu'r math hwn o gymorth hirdymor;
- dull buddsoddi i arbed, sy'n cydbwyso costau cynorthwyo person ifanc nawr, yn erbyn y costau cymdeithasol ac economaidd dros oes sy'n gysylltiedig ag ymddieithrio rhag EET;
- derbyn na fydd pob person ifanc yn barod i ailymgysylltu (ac y byddai'n aneffeithlon neilltuo amser ac adnoddau ar eu cyfer ar yr adeg hon), ochr yn ochr ag ymrwymiad tymor canolig i sicrhau bod cymorth ar gael pan fyddant yn barod;
- darpariaeth effeithiol drwy, er enghraifft, sicrhau bod gan staff y cymhelliant a'r galluogrwydd a'r mynediad at gyfleoedd (fel cymorth gan bartneriaid) sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau a bod rhaglenni yn cael eu cyllido'n ddigonol ac yn gadarn, ond yn ddeallus hefyd, ac yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau, er enghraifft, nad yw targedau'n annog canolbwyntio ar y rhai sydd hawsaf eu helpu. Mae'n debygol y bydd ansawdd ac ymatebolrwydd yn arbennig o bwysig i bobl ifanc sydd bellaf o ailymgysylltu, ac efallai na fydd ganddynt yr amynedd i aros a/neu i ddioddef gwasanaethau y maent yn teimlo sydd wedi'u siomi. Mae profiadau negyddol o gymorth yn peryglu cadarnhau ac atgyfnerthu eu diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau, a diffyg cred y gallant ailymgysylltu ag EET, gan ei gwneud hyd yn oed yn fwy anodd ailymgysylltu â nhw yn y dyfodol; a
- chyd-destun ffafriol, gan gynnwys mynediad at gyfleoedd EET o ansawdd (sydd o fewn rheolaeth rannol Llywodraeth Cymru yn unig) a chymorth gan bartneriaid, fel DWP, darparwyr addysg bellach ac uwch, a'r gwasanaethau iechyd ac ieuenctid.

9.16. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai'r bobl ifanc â'r galluogrwydd, cymhelliant gwannaf a/neu'r cyfleoedd mwyaf cyfyngedig, sydd fwyaf angen cymorth arnynt,

hefyd yw'r mwyaf anodd eu helpu, ac mae hyn o bosibl yn lleihau cost-effeithiolrwydd gwaith gyda'r grŵp hwn. Felly mae'r ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n gweithio yn fwlch allweddol yn y sylfaen dystiolaeth ac, fel y nodwyd, mae'n ei gwneud hyd yn oed yn fwy heriol gwneud penderfyniadau am flaenoriaethu'r ffordd orau o fuddsoddi adnoddau cyfyngedig ac sy'n crebachu, o ystyried y toriadau mewn cyllid cyffredinol yn sgil diwedd arian CGE.

9.17. Mae hefyd yn bwysig cofio bod dyfarniadau ynghylch cost-effeithiolrwydd hefyd yn dibynnu ar y mesurau effaith a ddewisir; er enghraifft:

- efallai y bydd y rhai sy'n agored i ddysgu yn ailymgysylltu ag EET yn gyflymach gyda chymorth (hyd yn oed os oeddent yn debygol o ailymgysylltu ar ryw adeg heb gymorth);
- mae ethos fel y Capability Approach yn dadlau mai nod cymorth ddylai fod i sicrhau cymaint o ryddid â phosibl i bobl ifanc ddewis yr hyn y maent yn ei werthfawrogi, yn hytrach na dod o hyd i swydd iddynt yn unig (Edgell a McQuaid, 2014); ac
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar saith nod llesiant, sy'n golygu, er bod mynediad at EET, gyda'i gyfraniad at Gymru ffyniannus a allai fod yn fwy cyfartal, yn bwysig, gall dulliau eraill na fyddant o bosibl yn cael effaith mor fawr ar ganlyniadau EET (ac economaidd), ond sy'n cael mwy o effaith ar iechyd, cydraddoldeb a/neu gydlyniant cymunedol, fod yr un mor ddilys.

9.18. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn pwysleisio atal (a drafodir yn adran 7) ac mae hefyd yn codi cwestiynau pwysig ynghylch faint o adnoddau a ddyrennir i geisio atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET a helpu'r rhai sy'n NEET.

**Gweithio mewn partneriaeth a chydgynhyrchu**

9.19. Mae pwyslais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gydweithio, integreiddio a chyfranogiad hefyd yn berthnasol iawn ac, fel yr amlinellwyd yn adran 8, mae'n cael ei hargymell yn yr ymchwil a adolygwyd. Mae pwysigrwydd deall profiad byw pobl ifanc a'u cymhellion, eu galluoedd a mynediad at gyfleoedd ac ymddygiad, er mwyn deall yn well sut i ymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo, yn atgyfnerthu pwysigrwydd

cydgynhyrchu. Mae'r amrywiaeth o ffactorau sy'n llunio eu cymhellion, eu galluogrwydd a'u mynediad at gyfleoedd, yn atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, er ei fod yn gydsyniad hawdd i'w gefnogi, mae gweithio mewn partneriaeth a chydgynhyrchu yn aml wedi bod yn heriol i'w cyflawni'n effeithiol; fel gyda'r meysydd ymarfer eraill a ystyriwyd, ceir enghreifftiau o arfer da, ond dim bwledi arian.

**Effeithiolrwydd tebygol gwarantau ieuenctid**

9.20. Fel y mae adran 8 yn amlinellu, mae tystiolaeth o'r UE bod cynlluniau gwarant ieuenctid yn y Ffindir a Sweden wedi arwain at ddiweithdra is. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu nad oes unrhyw beth o reidrwydd yn drawsnewidiol am warantau ieuenctid, yn enwedig pan maent yn cynnwys ymyriadau presennol, y mae eu heffeithiolrwydd (fel yr amlinellwyd yn adrannau 4 i 6) yn gymedrol yn unig. Felly, mae'r hyn y mae gwledydd yn dewis ei wneud (yr integreiddio sy'n sail i warant ieuenctid) a sut y maent yn ei wneud (o ran paratoi adnoddau a chyflawni), yn bwysicach na gwneud gwarant. Bydd y gwaith o gynllunio a gweithredu'r Warant i Bobl Ifanc yng Nghymru yn cael ei drafod ymhellach yn y gwerthusiad o'r Warant i Bobl Ifanc sydd ar ddod.

**Cyfeiriadau**


Arulampalam, W., Gregg, P. a Gregory M. (2001) 'Unemployment Scarring'.

Bell, D. N. F. a Blanchflower, D. G. (2011) 'Young people and the Great Recession', *Oxford Review of Economic Policy,* 272), 241–267.

Beyer, S. a Robinson, C. (2009) 'A Review of the Research Literature on Supported Employment: A Report for the cross-Government learning disability employment strategy team'.

Bolden, R. (d.d.) 'Systems Leadership: Pitfalls and possibilities'

Bryman, A. (2016) *Social Research Methods* (5th ed.), Llundain: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Centre for Homelessness Impact (2022) What Works Evidence Note: 05 Employment,

Comisiynydd Plant Cymru (2021) Adolygiad o sut mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau, gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (2022) Beth yw cydgynhyrchu?

Damm, C., Green, A., Pearson, S., Sanderson, E., Wells, P. a Wilson, I. (2020) 'Talent Match Evaluation: A Final Assessment',

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2015) Youth transitions to and within the labour market: A literature review.

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2011) Simple but effective: Local solutions for adults facing multiple deprivation

Yr Adran Addysg (2010) What works re-engaging young people who are not in education, employment or training (NEET)? Summary of evidence from the activity agreement pilots and the entry to learning pilots,

Yr Adran Addysg (2020) The Youth Contract for 16-17 year olds not in education, employment or training evaluation- Research report.

Adran Gwaith a Phensiynau (2014) Work Programme evaluation: the participant experience report.

Adran Gwaith a Phensiynau (2022) Official Statistics: Employment of disabled people 2022.

Adran Gwaith a Phensiynau (2022) Youth Employment Initiative – Impact Evaluation.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2018) *Study on the Youth Guarantee in light of changes in the world of work: Part 1, Youth Guarantee.*

Egdell, V. a McQuaid, R. (2014) 'Supporting Disadvantaged Young People into Work: Insights from the Capability Approach'.

Goldman-Mellor, S., Caspi, A., Arseneault, L., Ajala, N., Ambler, A., Danese, A., Fisher, H., Hucker, A., Odgers, C., Williams, T. a Wong, C. (2016) 'Committed to work but vulnerable: Self-perceptions and mental health in NEET 18-year olds from a contemporary British cohort', *Journal of Child Psychology and Psychiatry,* 57(2), tt.196-203.

Golley Slater (2023) '*The Principles, Passions and Pressures of Generation Z'*, Adroddiad heb ei gyhoeddi.

Green, A. a Taylor, A. (2020) 'Review of the evidence on 'What Works' to support the development of the Employment Support Framework within the West Midlands Combined Authority. West Midlands Combined Authority'

Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (2014) The Youth Contract for 16-17 year olds not in education, employment or training evaluation

Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (2020) Supporting disadvantaged young people into meaningful work: An initial evidence review to identify what works and inform good practice among practitioners and employers

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2023) Early years and childcare in England: Public spending, private costs, and the challenges ahead

Swyddfa Lafur Ryngwladol (2017) The European Youth Guarantee: A systematic review of its implementation across countries

Cronfa Ariannol Ryngwladol (2022) COVID-19 and Trust Among The Young.

Sefydliad Joseph Rowntree (2013) Making the links: poverty, ethnicity and social networks

Kahaneman, D. (2011) *Thinking, Fast and Slow*, Penguin

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2019) Evidence review: Employment support for people with disabilities and health conditions.

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2020) Evidence review: What works to support 15 to 24-year olds at risk of becoming NEET?

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2022) The Power of Potential: Supporting the future of 'NEET' young people.

Lincoln, Y.S. a Guba, E.G. (1985) '*Naturalistic Inquiry*', Newbury Park CA: Sage Publications.

Asiantaeth Datblygu Llundain (2006) What works with tackling worklessness?

Asiantaeth Datblygu Llundain (2020) What works with tackling worklessness?'
Martin, J. a Grubb, D. (2001) 'What Works and for Whom: A Review of OECD Countries Experiences with Active Labour Market Policies'.
Massimiliano, M. (2012) 'Youth Guarantee: Experiences from Finland and Sweden',
Mawn, L., Oliver, E.J., Akhter, N., Bambra, C.L., Torgerson, C., Bridle, C. a Stain, H.J. (2017) 'Are we failing young people not in employment, education or training (NEETs)? A systematic review and meta-analysis of re-engagement interventions', *Systematic Reviews*, 6, tt.1-17.
Mcknight, A., Stewart, K., Himmelwit, S. a Palillo, M. (2016) 'Low pay and in-work poverty: preventative measures and preventative approaches'.
Michie, S., Van Stralen, M.M. a West, R. (2011) 'The behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change interventions'. *Implementation Science,* 6(1), tt.1-12.
Mullainathan, S. a Shafir, E. (2013*) Scarcity: Why having too little means so much,* Efrog Newydd: Times Books.
Murray, C. (1990) '*The Emerging British Underclass'*, Llundain: Sefydliad Materion Economaidd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Busnes Pawb.
Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2015) Payment by Results: Learning from the Literature: A review prepared for the National Audit Office.
Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (2013) Standards Of Evidence: An Approach That Balances The Need For Evidence With Innovation, Gwefan Nesta
Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (2016) Using Research Evidence: a practice guide
Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2012) Approaches to supporting young people not in education, employment or training - a review.
National Health Service Digital (2022) Mental Health of Children and Young People in England 2022 - wave 3 follow up to the 2017 survey.
Y Swyddfa Fyfyrwyr (2023) Rapid review to support development of the Equality of Opportunity Risk Register.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2017) The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment.
Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2022) Education at a Glance 2022 : OECD Indicators.
Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) *Dadansoddiad newydd yn datgelu anghydraddoldebau o ran gofal iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru*.
Redundancy Action Plus (2022) 'Behavioural insights in employment services evidence review'.
Russell, L. a Thompson, R. (2022) 'Literature Review of Research on Young People Not in Education, Employment or Training'.
Schuller, T. (2017) 'What are the wider benefits of learning across the life course?'
Ymchwil y Senedd (2023) *Nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol: A yw'r bar wedi'i godi neu a oedd y bar yn rhy isel cyn hynny?*
Uned Allgáu Cymdeithasol (2005) *Transitions Young Adults with Complex Needs- A Social Exclusion Unit Final Report*.
Speilhofer, T., Benton, T., Evans, K., Featherstone, G., Golden, S., Nelson, J. a Smith, P. (2009) 'Increasing Participation Understanding Young People who do not Participate in Education or Training at 16 and 17'.
Stewart, A. a Wright, S. (2014) 'Conditionality Briefing: Unemployed People'.
Stewart, A. a Wright, S. (2018) 'Final findings: Jobseekers'.
Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2022) 'Together for Children & Young People (2) Programme: A Vision for Neurodevelopmental Support & Services in Wales'.
Thompson, J.L., Holloway, K., Karyczak, S., Serody, M.R., Lane, I.A., Ellison, M.L., Gill, K.J., Davis, M. a Mullen, M.G. (2021) 'Evaluating educational and employment services for young people with psychiatric conditions: A systematic review'. *Psychiatric Services,* 73(7), tt.787-800.
Llywodraeth y DU (2022) Research and analysis: Youth Employment Initiative – Impact Evaluation.
Senedd y DU (2015) Full employment: what is it and can it happen?
Senedd y DU (2020) Post: Interpreting Research Evidence.
Swyddfa Archwilio Cymru (2014) Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Watkins, J. (2019) *The relationship between aspirations and outcomes in education and the labour market: A study of the life histories of adult learners in the South Wales Valleys'*, Cardiff Metropolitan University.

Llywodraeth Cymru (2013) Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Employment, Education and Training.

Llywodraeth Cymru (2015) Gwerthusiad ffurfiannol o'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid: Prif adroddiad crynodeb gweithredol.

Llywodraeth Cymru (2019) Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddeiaethau.

Llywodraeth Cymru (2020) Adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl pob oed

Llywodraeth Cymru (2020a) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.

Llywodraeth Cymru (2020b) Deall y gwahanol ffynonellau ystadegau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru (2022a) Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau.

Llywodraeth Cymru (2022b) Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Trosolwg.

Llywodraeth Cymru (2022c) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2021 i Fehefin 2022.

Llywodraeth Cymru (2022d) Datganiad Ysgrifenedig: Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE.

Llywodraeth Cymru (2022e) Evaluation of Parents, Childcare and Employment (PaCE) Final Summative Evaluation Report.

Llywodraeth Cymru (2022f) Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn Pump (Medi 2021 i Awst 2022).

Llywodraeth Cymru (2023a) Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol.

Llywodraeth Cymru (2023b) Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1 (gwerthusiad proses a theori newid).

Llywodraeth Cymru (2023c) Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith.

Llywodraeth Cymru (2023d) Gwerthusiad o gynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol.

Llywodraeth Cymru (2023e) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Blwyddyn hyd 31 Rhagfyr 2022

Llywodraeth Cymru (2023f) Cymorth cyflogaeth os oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol Llywodraeth Cymru (i ddod) *Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: nodweddion a phrofiadau cyfranogwyr.*

Llywodraeth Cymru (2024). Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: syniadau ac ymddygiad pobl ifanc.

Williamson, H. (2010) 'Delivering a 'NEET' solution: an essay on an apparently intractable problem' in Upton, S, (gol). Engaging Wales' Disengaged Youth,

Wilson, T. (2021) '*Rapid review of employment policy and context. An independent assessment to inform the future refresh of the Wales Employability Strategy'*, Papur heb ei gyhoeddi.

What Works Centre for Local Economic Growth (2016) 'Evidence Review 1 Employment Training'.

What Works Centre for Local Economic Growth (2019) 'In-work progression toolkit: In-work support'.

**Atodiad A. Cyfranogwyr y gweithdy**

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg (ESJWL) – Partneriaeth Gymdeithasol

Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad (ETC) – Busnes a Rhanbarthau

ETC – Busnes a Rhanbarthau

The Wellbeing Planner

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

ETC – Busnes a Rhanbarthau

Pobl a Gwaith

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

Pobl a Gwaith

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

ESJWL – Addysg – Ymgysylltu ag Ieuenctid

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

ESJWL – Partneriaeth Gymdeithasol

**Atodiad B. Manylion Chwiliadau (ar gyfer camau 1 a 2 yr adolygiad)**

| Ffynhonnell | Term chwilio | **Nifer yr eitemau a adolygwyd** | **Nifer yr eitemau a gynhwyswyd** |
|---|---|---|---|
| Google | Review OR Evidence AND "young people" AND Employment OR NEET OR Barriers | 40 | 6 |
| Google | Review OR evidence AND barriers AND "young people" AND employment OR Education OR training OR NEET | 30 | 3 |
| Google | Barriers AND NEET AND systematic research | 30 | 2 |
| Google | EEPI Centre AND Review OR evidence AND barriers AND "young people" AND employment OR Education OR training OR NEET | 20 | 0 |
| Google | JSTOR AND Review OR evidence AND barriers AND "young people" AND employment OR Education OR training OR NEET | 30 | 3 |
| Google | Site search Wales wales.gov followed by google WELSH GOVERNMENT AND NEET OR youth AND employment | 40 | 6 |
| Chwilio gwefan – | NEET followed by Youth Employment | 25 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth yr Alban | | | |
| Google | Scottish government AND NEET | 30 | 0 |
| Google | Scottish Government AND Youth AND employment | 30 | 0 |
| JSTOR | Review OR evidence AND barriers AND “young people” AND employment OR Education OR training OR NEET | 30 | 1 |
| CHWILIO GWEFAN UK GOV | NEET | 70 | 2 |
| CHWILIO GWEFAN GOV.UK | YOUTH EMPLOYMENT | 30 | 0 |
| Gwefan NI direct (llywodraeth Gogledd Iwerddon) | NEET | 20 | 0 |
| Gwefan NI direct (llywodraeth Gogledd Iwerddon) | Youth Employment | 20 | 0 |
| Chwilio gwefan y Sefydliad Dysgu a Gwaith | NEET and then Youth Employment | 12 | 1 |
| Chwilio gwefan | NEET then youth employment, then youth unemployment | 5 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru | | | |
| Sefydliad Dyfodol Ieuenctid | NEET and then Youth Employment | 18 | 3 |
| Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth | NEET and then Youth Employment | 17 | 3 |
| Google Scholar | Review OR Evidence AND “young people” AND Employment OR NEET OR Barriers | 100 | 3 |
| Google | UK AND NEET AND physical disability AND research OR systematic review OR evidence OR evaluation | 40 | 0 |
| Google | UK AND NEET AND intersectional AND research OR evaluation OR evidence OR systematic review | 50 | 5 |
| Google | UK AND NEET AND women AND research OR evaluation OR evidence OR systematic review | 40 | 2 |
| Google | UK AND NEET AND BAME OR ethnicity AND research OR evaluation OR evidence OR systematic review | 30 | 0 |
| Google | UK AND NEET AND RURAL AND research OR evaluation OR evidence OR systematic review | 20 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Google | UK AND NEET AND disability AND Research OR evidence OR review OR evaluation | 30 | 3 |
| Google | UK AND NEET AND mental health AND Research OR evidence OR review OR evaluation | 50 | 8 |
| Canolfan EPPI | review OR evidence AND employment AND young people OR NEET OR barriers OR Training[62] | 20 | 1 |
| Google | Research OR evaluation OR review OR evidence AND "young pe* Guarantee" OR "Youth Guarantee" AND employment | 80 | |
| Google | Research OR evaluation OR review OR evidence AND young person's guarantee AND Scotland | 1 | |
| Google | Review OR Evidence AND "young people" AND worklessness | 40 | |

[62] Cafodd rhestr Canolfan EPPI o adolygiadau systematig ei gwirio hefyd.

**Atodiad C. Nodyn methodolegol ar gyfer Tabl 4.1.**

Cafodd Tabl 4.1. ei greu drwy nifer o gamau, a amlinellir isod.

**Cam 1** Ar 4 Ebrill 2023 cafodd data Lwfans Cymorth Cyflogaeth (ESA) DWP, Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) a JSA a Chredyd Cynhwysol (CC)[63] ar gyfer y blynyddoedd 2016, 2017, 2018 a'r grwpiau oedran 'o dan 18' ac '18-24' eu lawrlwytho drwy NOMIS[64]. Penderfynwyd darparu cyfartaledd o 3 blynedd er mwyn lleihau'r risg bod un flwyddyn yn arbennig o uchel neu isel.

**Cam 2** Yna gwnaed cyfrifiad cyfartalog tair blynedd o'r data uchod, fel y dangosir isod (mae'r testun **trwm** *italig* yn cynrychioli fformiwlâu a ychwanegwyd gennym at y data craidd a lawrlwythwyd i gyfrifo hyn). Data ESA mewn ambr, JSA mewn glas a JC a CC mewn porffor.

| Dyddiad | ESA o dan 18 oed | ESA 18-24 oed | JSA o dan 18 oed | ESA 18-24 oed | JSA a CC o dan 18 oed | JSA a CC 18-24 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Chwefror 2016 | 270 | 11860 | 30 | 6860 | 35 | 11665 |
| Mai 2016 | 240 | 11790 | 20 | 5090 | 20 | 10745 |
| Awst 2016 | 220 | 11780 | 20 | 4320 | 30 | 11020 |
| Tachwedd 2016 | 260 | 11820 | 30 | 3440 | 35 | 10455 |
| ***Cyfanswm*** | ***990*** | ***47250*** | ***100*** | ***19710*** | ***120*** | ***43885*** |
| ***Cyfanswm cyfartalog*** | ***247.5*** | ***11812.5*** | ***25*** | ***4927.5*** | ***30*** | ***10971.25*** |

[63] Roedd JSA a CC ar gael wedi'u cyfuno yn unig.
[64] Sylwer nad yw hon yn ddolen uniongyrchol i'r data gan y cyrchwyd hyn drwy 'fewngofnodi' ac felly nid oes dolen uniongyrchol ar gael. Fodd bynnag, dangosir llun o'r data isod.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Chwefror 2017 | 250 | 11810 | 20 | 3560 | 25 | 10375 |
| Mai 2017 | 240 | 11570 | 20 | 3070 | 25 | 10110 |
| Awst 2017 | 210 | 11520 | 10 | 2730 | 25 | 9685 |
| Tachwedd 2017 | 260 | 11320 | 20 | 2330 | 30 | 9300 |
| ***Cyfanswm*** | ***960*** | ***46220*** | ***70*** | ***11690*** | ***105*** | ***39470*** |
| ***Cyfanswm cyfartalog*** | ***240*** | ***11555*** | ***17.5*** | ***2922.5*** | ***26.25*** | ***9867.5*** |
| Chwefror 2018 | 210 | 10760 | 20 | 3290 | 65 | 9970 |
| Mai 2018 | 180 | 10170 | 20 | 2830 | 95 | 9695 |
| Awst 2018 | 140 | 9600 | 10 | 2480 | 120 | 9590 |
| Tachwedd 2018 | 120 | 8770 | | 1830 | 150 | 9855 |
| ***Cyfanswm*** | ***650*** | ***39300*** | ***50*** | ***10430*** | ***430*** | ***39110*** |
| ***Cyfanswm cyfartalog*** | ***162.5*** | ***9825*** | ***16.66667*** | ***2607.5*** | ***107.5*** | ***9777.5*** |
| ***Cyfartaledd 3 blynedd*** | ***216.6667*** | ***11064.17*** | ***19.72222*** | ***3485.833*** | ***54.58333*** | ***10205.42*** |

**Cam 3** Ar 4 Ebrill 2023 cafodd data poblogaeth NEET drwy Amcangyfrifon Canol Blwyddyn SYG a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, HESA, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data CYBLD drwy StatsCymru. eu lawrlwytho ar gyfer y blynyddoedd 2016, 2017, 2018 a'r grwpiau oedran 16-18 ac 19-24.

Fel o'r blaen, mae'r testun **trwm** *italig* yn cynrychioli fformiwlâu a ychwanegwyd gennym at y data craidd a lawrlwythwyd i gyfrifo hyn). Data 16-18 oed mewn gwyrdd, 19-24 oed mewn pinc.

| NEET 16-18 | | | | NEET 19-24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2016** | **2017** | **2018** | ***Cyfartaledd 3 blynedd*** | **2016** | **2017** | **2018** |
| 11300 | 10600 | 10800 | ***10900*** | 46000 | 36900 | 38500 |

**Cam 4** Fel y dangosir uchod ac a nodir o dan dabl 4.1 yn yr adroddiad, nid oedd yr ystod oedran o'r ddwy ffynhonnell yn cydymffurfio. Felly, newidiwyd y boblogaeth NEET er mwyn adlewyrchu'n well ystod oedran yr ESA, JSA a CC (cam 2) h.y. minws blwyddyn ar gyfartaledd poblogaeth NEET 16-18 o'r boblogaeth NEET 16-18 oed ac ychwanegu blwyddyn ar gyfartaledd poblogaeth NEET 16-18 oed at boblogaeth NEET 19-24 oed. Mae hyn yn golygu bod y cyfanswm ar gyfer poblogaeth NEET 16-24 oed yr un peth ond ei fod wedi'i ddosbarthu'n wahanol.

| NEET 16-18 i gynhyrchu amcangyfrif o dan 18 oed | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2016** | **2017** | **2018** | **Cyfanswm o dan 18 oed** | **Minws cyfartaledd 3 blynedd** | **Cyfanswm newydd** | **Cyfartaledd 3 blynedd** |
| 11300 | 10600 | 10800 | ***32700*** | ***10900*** | ***21800*** | ***7266.667*** |

| NEET 19-24 oed i gynhyrchu amcangyfrif 18-24 oed |
|---|

| 2016 | 2017 | 2018 | *Cyfanswm 19-24* | *Ynghyd â chyfartaledd 3 blynedd* | *Cyfanswm newydd* | *Cyfartaledd 3 blynedd* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 46000 | 36900 | 38500 | ***121400*** | ***10900*** | ***132300*** | ***44100*** |

**Cam 5** Yna defnyddiwyd data o'r camau blaenorol i lunio tabl 4.1 Er enghraifft, wedi'u hamlygu mewn melyn isod, mae'r 20 sy'n hawlio JSA (cam 2, y golofn las olaf o dan 18 oed) wedi'u rhannu gan 7,267 (cam 4, cyfartaledd 3 blynedd NEET 16-18 amcangyfrif o'r boblogaeth ymhellach yn y golofn werdd ar y dde) i gynhyrchu'r ganran yn y tabl, sef 0.3% ac ati.

**Nifer y bobl ifanc o dan 18 oed* a phobl ifanc 18-24* sy'n hawlio budd-daliadau lles dethol, a'r ganran amcangyfrifedig o'r holl bobl ifanc o dan 18 oed ac 18-24 oed sy'n NEET, sy'n hawlio'r budd-daliadau lles dethol hyn. Mae hyn yn seiliedig ar gyfartaledd a gyfrifwyd dros dair blynedd (2016, 2017 a 2018).**

| | **O dan 18 oed*** | | **18-24*** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Hawlio JSA | 20 | 0.3% | 3,486 | 8% |
| Hawlio ESA | 217 | 3% | 11,064 | 25% |
| Hawlydd (JSA + CC) | 55 | 1% | 10,205 | 23% |
| CC (heb gynnwys JSA) | 35 | 1% | 6,719 | 15% |
| Ddim yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth na Lwfans Ceisio Gwaith | 7,030 | 97% | 29,550 | 67% |
| Ddim yn hawlio ESA na JSA na CC | 6,995 | 96% | 22,831 | 51% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y bobl ifanc NEET | 7,267 | 100% | 44,100 | 100% |

## Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth Pobl Ifanc – Canllaw pwnc

| |
|---|
| Sicrhewch fod y cyfwelai wedi cael yr hysbysiad preifatrwydd a'r daflen wybodaeth ac yn rhoi cydsyniad.<br><br>**[Amcanion yr adolygiad wedi'u cynnwys yma er mwyn cyfeirio atynt]** |

### 1. Pwy rydych yn gweithio gyda nhw? [h.y. pa grwpiau o bobl ifanc?]

- Pa fath o rwystrau mae'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw yn eu hwynebu? [dolen i fframwaith COM-B os yw'n ddefnyddiol]
- Sut maent yn rhyngweithio?
- I ba raddau mae'r rhwystrau neu'r nodweddion hyn yn achosi (rheswm) pam mae'r bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw yn NEET? Ac i ba raddau maen nhw'n ganlyniad i fod yn NEET?

### 2. Beth ydych yn ei wneud?

- Sut ydych yn estyn allan ac yn ymgysylltu â phobl ifanc?
- Sut ydych yn eu nodi? Sut maent yn cael eu hatgyfeirio atoch chi?
- Beth ydych yn ei wneud i'w helpu i ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth? [dolen i fframwaith COM-B os yw'n ddefnyddiol e.e. sut rydych yn meithrin cymhelliant, galluogrwydd ac ati].
- A ydych yn darparu cymorth ar ôl iddynt ailymgysylltu?

### 3. Pa wahaniaeth mae eich cymorth yn ei wneud i bobl ifanc? [pa effaith mae'n ei gael?]

- Sut mae'n gwella eu galluogrwydd, cymhelliant a/neu fynediad at gyfleoedd?
- Pa wahaniaeth y mae ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ei wneud i bobl ifanc?
- Pam mae'n gwneud gwahaniaeth?

**4. Gyda phwy rydych yn cael trafferthion?** A oes yna bobl ifanc na allwch chi eu helpu?

- Beth sy'n eu dal yn ôl neu eich atal rhag eu helpu i symud ymlaen?
- beth sy'n eu diffinio – e.e. rhwystrau neu nodweddion?
- Pam?

**Gyda phwy arall rydych yn gweithio?** [e.e. partneriaid]

- Sut ydych yn gweithio gyda phartneriaid?
- A ydych / a allwch ymuno â gwasanaethau a chyflogwyr eraill i ddarparu cymorth i rwystrau, fel iechyd meddwl?
- Beth sy'n helpu a/neu sy'n rhwystro hyn (h.y. cydweithio)?

**A yw hyn wedi newid** yn dilyn y pandemig a/neu'r argyfwng costau byw?

Gyda phwy rydych yn gweithio? Sut ydych yn gweithio gyda phobl ifanc? Eu deilliannau? Eich partneriaid? ac ati)

**Beth sy'n gweithio / Sut mae'n gweithio?**

- Beth am y ffordd rydych yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n gweithio'n dda / sy'n effeithiol?
- Sut mae'n wahanol i ddarpariaeth fwy prif ffrwd (e.e. Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, CfW ac ati)?
- Beth sydd ddim yn gweithio cystal? (rhwystrau, cyfyngiadau)

**A ydych yn cynnwys pobl ifanc?** Os felly, sut? [Mae hyn yn ymwneud â chydgynhyrchu – e.e. cynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu, cyflwyno a/neu werthuso rhaglenni]

**Beth hoffech chi ei weld yn newid?**

- Pa newidiadau hoffech chi eu gweld mewn polisi a/neu ymarfer yng Nghymru? Pam?

**A oes unrhyw beth arall nad ydym wedi siarad amdano yn eich barn chi sy'n bwysig?**

**A oes gennych unrhyw gwestiynau?**

**Diolch**